# Adroddiad Lles Blynyddol
2021/22

CARDIFF
CAERDYDD



This document is also available in English. Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

# Cyflwyniad yr Arweinydd

Ein huchelgais yw gwneud Caerdydd yn brifddinas werddach, decach a chryfach. Er mwyn cyflawni hyn, rydym wedi rhoi ffocws ar ddarparu gwasanaethau cyhoeddus rhagorol, mynd i'r afael ag anghydraddoldeb, hyrwyddo datblygiad economaidd cynhwysol, a rheoli twf y ddinas mewn ffordd gynaliadwy.

Mae'r Adroddiad Lles Blynyddol hwn yn darparu asesiad o berfformiad y Cyngor ar gyfer y flwyddyn ariannol 2021/22 ac mae'n cynnig mesur pwysig o'r cynnydd yr ydym wedi'i wneud wrth wireddu ein huchelgeisiau.

Mae'r dyfarniadau a wnaed yn yr adroddiad hwn hefyd wedi cael eu hystyried gan lywodraethiant gwleidyddol ehangach y Cyngor, ac mae hynny fel y dylai fod. Ar ôl ystyried perfformiad corfforaethol gan y Cabinet, mae ein Hunanasesiad o Berfformiad yn cael ei ystyried gan Banel Perfformiad y Cyngor (sy'n dod â holl Gadeiryddion y Pwyllgor Craffu ynghyd), y Pwyllgor Craffu Adolygu Polisi a Pherfformiad, y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, a'r Cyngor. Felly, o bob golwg, mae'r Adroddiad Lles yn cynrychioli asesiad cytbwys o berfformiad.

Yn amlwg, mae hon yn ddogfen bwysig i fy Nghabinet gan fod angen y sicrwydd arnom fod ein hagenda yn cael ei rhoi ar waith. Ar y sail honno, roeddwn yn falch o'r hyn y mae'r Cyngor hwn wedi'i gyflawni dros y flwyddyn ddiwethaf, yn bennaf yng nghyd-destun yr argyfwng iechyd cyhoeddus byd-eang.

Gwnaethon ni ddarparu addysg dda i blant yng Nghaerdydd - sydd wedi'i gydnabod yn glir gan Estyn yn eu hadroddiad diweddaraf - a gwnaethom fuddsoddi symiau sylweddol mewn adeiladu ysgolion newydd a gwella'r ystâd ysgolion.

Gwnaethom gyflwyno'r rhaglen datblygu tai fwyaf yng Nghymru, ac rydym yn bwriadu adeiladu hyd yn oed mwy o dai cyngor newydd yn y blynyddoedd i ddod.

Rydym wedi lleihau cysgu ar y stryd yn sylweddol.

Mae ein gwaith i recriwtio a chadw gweithwyr cymdeithasol yn talu ar ei ganfed ac rydym yn parhau i symud cydbwysedd gofal.

Mae arwyddion o adferiad economaidd ar ôl y pandemig. Gwnaeth y Cyngor greu dros 1,000 o swyddi newydd a diogelu 900 o swyddi yn yr economi leol y llynedd, mae nifer y bobl sy'n ymweld â chanol y ddinas yn dychwelyd i'r arfer ac mae digwyddiadau mawr - sy'n nodwedd o fywyd yng Nghaerdydd - yn cael eu cynnal eto.

Mae'r broses o ddiwygio'r gwasanaethau gwastraff wedi cael ei symud ymlaen trwy weithredu'r wythnos waith pedwar diwrnod ac mae'r treial ailgylchu wedi'i wahanu'n awgrymu ffordd ymlaen gyda gostyngiad 30% i 6% mewn cyfraddau halogi ar sail y dadansoddiad cychwynnol.

Mae camau mawr wedi cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd trwy strategaeth Caerdydd Un Blaned. Mae gwaith gwerth £61m wedi cael ei gyflawni i wella trafnidiaeth gynaliadwy, mae prosiect gwifrau preifat Fferm Solar Ffordd Lamby wedi cael ei gwblhau, ac mae'r gwaith o adeiladu'r Rhwydwaith Gwres wedi dechrau.

Wedi dweud hynny, rydym yn cydnabod meysydd i'w gwella. Nid yw ein cyfraddau ailgylchu yr hyn a ddymunir; fodd bynnag, mae'r sefyllfa ar gyfer chwarter cyntaf y flwyddyn ariannol hon yn uwch na 64% sy'n awgrymu bod ein hymyriadau yn dechrau cydio.

Mae'r gostyngiad yn y cyfraddau presenoldeb ar gyfer plant ysgol yn bryder - canlyniad uniongyrchol i'r pandemig - ac rydym yn bwrw ymlaen â mesurau ar unwaith i gefnogi plant, teuluoedd ac ysgolion i godi cyfraddau presenoldeb eto. Mae'r adroddiad hefyd yn amlinellu'n glir yr heriau rydyn ni'n eu hwynebu mewn gwasanaethau oedolion a phlant lle mae lefel a chymhlethdod y galw'n cynyddu. Mae'r rhain yn heriau system y bydd angen ymateb ar draws gwasanaethau cyhoeddus i fynd i'r afael â nhw.

Mae'r adroddiad hwn yn cwmpasu blwyddyn ariannol 2021/22. Ers hynny mae nifer o heriau newydd wedi gwaethygu'n sylweddol. Mae ymosodiad Rwsia ar Wcráin wedi sbarduno sioc economaidd fyd-eang - yn fwyaf arbennig gyda phris nwy - a fydd yn effeithio'n fawr ar gyllideb y Cyngor. Bydd yr argyfwng costau byw, sy'n dod mor fuan ar ôl yr argyfwng iechyd cyhoeddus, yn rhoi pwysau difesur ar aelwydydd, yn enwedig y rheiny ar incymau isel. Byddan nhw'n troi at y Cyngor i gael cymorth; rhaid i ni fod yn barod am hyn.

Rwy'n glir bod system berfformiad dda yn un sy'n ein galluogi i gydnabod lle mae cynnydd yn cael ei wneud ac i nodi meysydd lle mae angen ymyrraeth i fynd i'r afael â meysydd heriol; yn un lle mae hunanasesu gonest ac agored, sy'n dathlu llwyddiannau ac yn croesawu her lle mae angen gwella.

Dyna'n union y mae'r adroddiad hwn yn ei wneud trwy gynnig asesiad teg a chytbwys y gellir seilio cynllunio yn y dyfodol arno.



**Y Cynghorydd Huw Thomas**
Arweinydd Cyngor Caerdydd

# Cynnwys


**2** **Cyflwyniad yr Arweinydd**

**6** **Ynglŷn â'r Adroddiad hwn**

**10** **Amcan Lles 1 – Mae Caerdydd yn lle gwych i gael eich magu**

**18** **Amcan Lles 2 – Mae Caerdydd yn lle gwych i dyfu'n hŷn**

**24** **Amcan Lles 3 – Cefnogi pobl allan o dlodi**

**30** **Amcan Lles 4 – Cymunedau diogel, hyderus a grymus**

**38** **Amcan Lles 5 – Prifddinas sy'n gweithio dros Gymru**

**44** **Amcan Lles 6 – Mae Caerdydd yn tyfu mewn ffordd gadarn**

**52** **Amcan Lles 7 – Moderneiddio ac integreiddio ein gwasanaethau cyhoeddus**

**62** **Amcan Lles 8 – Rheoli pandemig Covid-19**



# Ynglŷn â'r Adroddiad Hwn

## Beth yw'r Adroddiad Lles Blynyddol?

Diben yr Adroddiad Lles Blynyddol yw rhoi hunanasesiad o berfformiad y Cyngor wrth gyflawni ei Amcanion Lles ar gyfer 2021/22.

Mae'r Amcanion Lles hyn, gan gynnwys y camau y bydd y Cyngor yn eu cymryd i'w cyflawni, a sut bydd perfformiad yn cael ei fesur, wedi'u nodi yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor 2021-24:

- Mae Caerdydd yn lle gwych i gael eich magu
- Mae Caerdydd yn lle gwych i dyfu'n hŷn
- Cefnogi pobl allan o dlodi
- Cymunedau diogel, hyderus a grymus
- Prifddinas sy'n gweithio dros Gymru
- Mae Caerdydd yn tyfu mewn ffordd gadarn
- Moderneiddio ac integreiddio ein gwasanaethau cyhoeddus
- Rheoli'r pandemig Covid-19

Mae'r Adroddiad Lles Blynyddol hwn yn ffrwyth proses hunanasesu gynhwysfawr (a nodir isod), ac yn tynnu ar berfformiad gwasanaeth, llywodraethu a risg, adnoddau a ffynonellau eraill o wybodaeth perfformiad a ddarperir ar gyfer pob Amcan Lles:

- Asesiad strategol o berfformiad
- Llwyddiannau allweddol
- Meysydd risg a her
- Meysydd ffocws ar gyfer y flwyddyn i ddod

Trwy wneud hynny, mae'r adroddiad yn cyflawni dyletswyddau statudol y Cyngor mewn perthynas â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

## Gofynion Statudol

Mae'r Adroddiad Lles Blynyddol yn cyflawni gofynion statudol canlynol y Cyngor:

- Mae **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor bennu a chyhoeddi Amcanion Lles, cymryd pob cam rhesymol i gyflawni'r amcanion hynny a chyhoeddi datganiad ynghylch Amcanion Lles. Caiff y dyletswyddau hyn eu cyflawni trwy broses Cynllunio Corfforaethol y Cyngor. Hefyd, mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn mynnu bod y Cyngor yn cyhoeddi adroddiad blynyddol o'r cynnydd, sy'n cael ei wneud trwy'r Adroddiad Blynyddol Lles.

- Sefydlodd **Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021** fframwaith deddfwriaethol newydd ar gyfer etholiadau llywodraeth leol, democratiaeth, llywodraethu a pherfformiad. Mae'r Ddeddf yn mynnu bod pob cyngor yng Nghymru yn parhau i adolygu, trwy hunanasesiad, i ba raddau y mae'n bodloni ei "ofynion o ran perfformiad" a chyhoeddi adroddiad sy'n nodi casgliadau ei hunanasesiad unwaith bob blwyddyn ariannol.

Mae'r Adroddiad Lles Blynyddol hwn, a luniwyd trwy'r broses hunanasesu a amlinellir isod, yn nodi casgliadau'r Cyngor ynghylch i ba raddau y mae wedi bodloni'r gofynion perfformiad (hynny yw, arfer ei swyddogaethau'n effeithiol, gan ddefnyddio ei adnoddau yn economaidd, yn effeithlon ac yn effeithiol, a bod ei lywodraethiant yn effeithiol ar gyfer sicrhau'r uchod) yn ystod y flwyddyn ariannol.

## Sut mae'r Adroddiad Lles Blynyddol yn cael ei ddatblygu?

Mae'r asesiad o'r perfformiad sydd yn yr Adroddiad Lles Blynyddol yn cael ei ddatblygu trwy broses drylwyr o hunanasesu sy'n cynnwys arweinyddiaeth wleidyddol a rheolaethol y Cyngor, gan dynnu ar ystod eang o ffynonellau gwybodaeth am berfformiad.

**Ffynonellau Gwybodaeth am Berfformiad**
Mae ffynonellau gwybodaeth am berfformiad sy'n cyfrannu at yr asesiad perfformiad a geir yn yr Adroddiad Lles Blynyddol yn cynnwys:

- **Perfformiad yn erbyn Dangosyddion Perfformiad Allweddol y Cyngor –** Mae Cynllun Corfforaethol y Cyngor yn cynnwys cyfres o ddangosyddion perfformiad sy'n mesur y cynnydd a wnaed wrth gyflawni'r Amcanion Lles. Lle bo hynny'n berthnasol, pennir targedau yn erbyn y dangosyddion perfformiad hyn i ddangos lefel y llwyddiant a ddymunir. Neilltuir statws CMG i ddangosyddion perfformiad: **Gwyrdd** lle mae'r dangosydd yn bwrw'r targed neu'n uwch; **Melyn** lle mae'r canlyniad o fewn 10% o'r targed; a **Choch** lle mae'r canlyniad ymhellach na 10% o'r targed. Mae'r Perfformiad Diwedd Blwyddyn yn erbyn Dangosyddion Perfformiad Allweddol y Cynllun Corfforaethol i'w weld fel Atodiad 1a i'r adroddiad hwn.

- **Cynnydd yn erbyn y camau ym mhob Amcan Lles –** Mae pob Amcan Lles o fewn y Cynllun Corfforaethol hefyd yn cynnwys set o 'gamau' neu weithredoedd. Mae monitro cynnydd y camau hyn yn rhoi dealltwriaeth o'r hyn a gyflawnwyd a lle mae angen mwy o waith. Mae'r Perfformiad Diwedd Blwyddyn yn erbyn camau'r Cynllun Corfforaethol i'w weld fel Atodiad 1b i'r adroddiad hwn.

- **Ymgynghori ac Ymgysylltu –** Mae gan y Cyngor nifer o ddulliau ymgynghori ac ymgysylltu sefydledig fel yr Arolwg Holi Caerdydd blynyddol i ddinasyddion, Ymgynghoriad y Gyllideb a'r Arolwg Dinas sy'n Dda i Blant, yn ogystal ag arolygon ac ymarferion ymgynghori eraill a gynhelir yn ystod blwyddyn sy'n rhoi cyfle i drigolion, busnesau a rhanddeiliaid dinesig eraill rannu eu barn ar amrywiaeth eang o wasanaethau'r Cyngor.

Yn ogystal, mae Adroddiad Blynyddol Canmoliaeth a Chwynion y Cyngor yn rhoi cipolwg gwerthfawr ar le mae dinasyddion Caerdydd yn meddwl bod angen i'r Cyngor wella. Mae'r Cynllun Corfforaethol yn cynnwys nifer o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol 'ansoddol' sy'n ymwneud â bodlonrwydd dinasyddion â gwasanaethau, ac mae canfyddiadau'r gwaith ymgynghori ac ymgysylltu yn rhan bwysig o brosesau hunanasesu, datblygu polisi a phennu cyllidebau y Cyngor.

- **Monitro Cyllid –** Nod Adroddiad Alldro 2021/22 y Cyngor yw hysbysu am sefyllfa ariannol y Cyngor mewn perthynas â'r flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022 ac mae ei ganfyddiadau yn cyfrannu at yr asesiad a geir o fewn yr Adroddiad Lles Blynyddol.

- **Llywodraethu Da –** Mae Fframwaith Llywodraethu'r Cyngor yn cynnwys y systemau, y prosesau, y diwylliant a'r gwerthoedd sy'n llywio ac yn rheoli'r Cyngor, a'r modd a ddefnyddia i roi cyfrif i'r gymuned, ymgysylltu â hi a'i harwain. Mae Datganiad Llywodraethu Blynyddol y Cyngor yn gosod asesiad o fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol y Cyngor.

- **Risg –** Mae cyflawni amcanion yn gofyn am reoli ystod eang o risgiau yn aml ar lefelau gweithredol a strategol, yn enwedig yn yr amgylchedd allanol deinamig y mae'r Cyngor yn gweithredu ynddo ar hyn o bryd. Mae Adroddiad Risg diwedd blwyddyn y Cyngor a'i Gofrestrau Risgiau Corfforaethol a Chyfarwyddiaeth yn rhoi trosolwg o'r risgiau presennol a'r camau gweithredu sydd ar waith i'w lliniaru.

- **Y Pwyllgorau Craffu a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio –** Mae'r Cyngor yn ymateb i faterion ac argymhellion sy'n cael eu codi gan y Pwyllgorau, sy'n helpu i lywio datblygu polisi a gwella perfformiad.

- **Adroddiadau Archwilio –** Mae'r Cyngor yn destun nifer o archwiliadau gan gyrff rheoleiddio, gan gynnwys Archwilio Cymru, Estyn (Addysg) ac Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC). Mae eu canfyddiadau'n helpu'r Cyngor i asesu meysydd perfformiad cryf, yn ogystal â nodi meysydd lle mae angen gwella.

**Proses Hunanasesu**

Mae'r Adroddiad Lles Blynyddol yn cael ei ddatblygu trwy broses hunanasesu sy'n cynnwys arweinyddiaeth wleidyddol a rheolaethol y Cyngor, gyda rolau manylach ar gyfer Pwyllgorau Craffu a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Mae hyn yn cynnwys:

- Hunanwerthusiad gan y Gyfarwyddiaeth o berfformiad gwasanaeth, heriau caffael adnoddau a llywodraethu, a blaenoriaethau, gan ateb y cwestiynau canlynol:
  - Beth sy'n mynd yn dda?
  - Beth yw'r risgiau a'r heriau allweddol sy'n wynebu eich gwasanaethau?
  - Beth yw'r camau nesaf?

- Sesiynau her a sicrwydd perfformiad a chyllideb i'w cynnal gan y Prif Weithredwr a'r Swyddog Adran 151 gyda phob Cyfarwyddwr i ystyried canfyddiadau hunanasesiad y gyfarwyddiaeth;

- Sesiwn cynnydd a pherfformiad gyda'r Cabinet ac Uwch Dîm Rheoli'r Cyngor lle mae'r Prif Weithredwr yn darparu asesiad strategol o berfformiad sefydliadol;

- Ystyriaeth o'r Adroddiad Lles Blynyddol drafft gan:
  - Y Panel Perfformio, i'w gynnull gan Gadeirydd y Pwyllgor Craffu Adolygu Polisi a Pherfformiad ac sy'n cynnwys Cadeiryddion pob un o Bwyllgorau Craffu'r Cyngor. (Cynhwysir y llythyr gan Gadeirydd y Panel Perfformiad, argymhellion y Panel ac ymateb y Cabinet fel Atodiadau 2a, 2b a 2 i'r adroddiad hwn.)
  - Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. (Mae'r llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ynghlwm fel Atodiad 3.)
  - Pwyllgor Craffu Adolygu Polisi a Pherfformiad
  - Y Cabinet, wedi derbyn ac ymateb i argymhellion pob Pwyllgor;

- Ystyriaeth o'r Adroddiad Lles Blynyddol drafft gan y Cabinet a'r Cyngor.

# Amcan Lles 1:
# Mae Caerdydd yn lle gwych i gael eich magu

### Ein blaenoriaethau yn 2021/22 oedd:

- **Cefnogi adferiad sy'n Dda i Blant, ailagor ysgolion yn ddiogel ac adennill momentwm**
- **Parhau i gyflawni Gweledigaeth Caerdydd 2030 ar gyfer addysg a dysgu**
- **Diogelu lles plant, pobl ifanc a theuluoedd sy'n agored i niwed**

## Asesiad Strategol

Mae'r pandemig wedi bod yn gyfnod hynod heriol i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd, a'r rheiny sy'n gweithio mewn ysgolion ledled y ddinas. Yn ystod y pandemig sefydlodd y Cyngor bartneriaeth gref a chynhyrchiol trwy weithio gydag ysgolion ac roedd yn gwneud gwaith helaeth i ddiogelu iechyd a lles staff a disgyblion a lleihau cymaint â phosibl y tarfu ar ddysgwyr yng Nghaerdydd a chafodd yr ymateb hwn ei ganmol gan Estyn yn eu hadroddiad yn 2021. Mae'r dull partneriaeth hwn wedi parhau i wella, gan ganolbwyntio ar helpu ysgolion i ailagor yn ddiogel ac ar ymgysylltu o'r newydd â dysgwyr. Bydd diogelu dysgwyr ar ôl absenoldebau hir o'r ysgol a gwella presenoldeb, yn enwedig ymhlith disgyblion o gymunedau mwy difreintiedig a grwpiau agored i niwed, sy'n parhau'n is na'r lefelau cyn y pandemig, yn flaenoriaethau gwella ar gyfer 2021/22.

Mae'r Cyngor o'r farn bod cynnydd parhaus wedi'i wneud i wireddu ei weledigaeth yng Nghaerdydd 2030 ar gyfer addysg a dysgu, gyda chanlyniadau addysgol yn gwella dros nifer o flynyddoedd, gan berfformio'n dda yn erbyn cyfartaledd Cymru. Yn ei adroddiad ym mis Chwefror 2022 nododd Estyn y cafwyd 'gwelliant cyson a graddol' o ran ansawdd ac effeithiolrwydd gwasanaethau Addysg a bod canlyniadau arolygu ysgolion wedi bod yn gryf rhwng 2017 a 2020. Er bod canlyniadau i ddysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim wedi bod yn uwch, ar y cyfan, na chanlyniadau cenedlaethol yr un grŵp, mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen gwella cyrhaeddiad dysgwyr y ddinas sy'n fwyaf agored i niwed.

Mae Gwasanaethau Plant yn parhau i wynebu galw uchel a chynyddol a chynnydd mewn cymhlethdod achosion. Mae pwysau'r galw hwn yn cael eu hadlewyrchu trwy gydol taith y plentyn, gyda heriau difrifol yn enwedig wrth sicrhau llety priodol i blant sy'n dod i mewn i'r system ofal a'r galw cynyddol ar wasanaethau i fynd i'r afael ag iechyd meddwl a lles emosiynol plant. Mae'r Cyngor wedi gwneud peth cynnydd yn ei strategaeth i 'symud cydbwysedd gofal', gan gynnwys wrth recriwtio a chadw gweithwyr cymdeithasol; fodd bynnag, bydd maint a natur y pwysau ar alw yn her sylweddol i wasanaethau a chyllidebau'r Cyngor a'i bartneriaid yn 2022/23, a bydd angen cymorth corfforaethol a monitro agos yn ystod y flwyddyn.

## Llwyddiannau Allweddol

### Cefnogi adferiad sy'n Dda i Blant, ailagor ysgolion yn ddiogel ac adennill momentwm

- **Adferiad sy'n Dda i Blant**: Mae'r Cyngor wedi cryfhau dylanwad a llais plant a phobl ifanc trwy'r dyhead i fod yn Ddinas sy'n Dda i Blant Unicef, gan gynnwys derbyn dros 6,500 o ymatebion i'w arolwg diweddar ar gyfer Dinas sy'n Dda i Blant, sefydlu panel dinasyddion newydd i bobl ifanc a thrwy raglen ymgysylltu â'r Cyngor Ieuenctid a grwpiau eraill.
- **Cefnogi Ysgolion trwy Covid-19**: Mae iechyd a diogelwch plant, athrawon a holl staff ysgolion wedi cael blaenoriaeth yn ystod y pandemig, gyda gwaith helaeth wedi'i wneud i leihau'r aflonyddwch i ddysgwyr yng Nghaerdydd. Mae ymateb Caerdydd i'r pandemig wedi'i ganmol, gydag Estyn yn nodi ei "arweinyddiaeth strategol barhaus", gan nodi mai "un o gryfderau ymateb Caerdydd i roi cymorth i blant a phobl ifanc... oedd ei gydweithrediad â phartneriaid yn y sectorau cyhoeddus a phreifat".
- **Gweithgareddau Ail-ymgysylltu**: Trwy weithio'n agos ag ysgolion, mae Llywodraeth Cymru a phartneriaid cymunedol wedi darparu nifer o weithgareddau ail-ymgysylltu, gan gynnwys 'Gwên o Haf', 'Bwyd a Hwyl - RhCGY (Rhaglen Cyfoethogi Gwyliau'r Ysgol)' a 'Gaeaf Llawn Lles'. Mae gweithgareddau'n cael eu cynllunio ar gyfer haf 2022.
- **Ysgolion sy'n Parchu Hawliau**: Mae Dull Ysgolion sy'n Parchu Hawliau (DYPH) yn elfen sylweddol o Nod Strategol 4 Caerdydd sy'n Dda i Blant, sy'n canolbwyntio ar ddull sy'n seiliedig ar hawliau o ymdrin ag addysg. Cafwyd cynnydd yn nifer yr ysgolion, gydag 80 ysgol i gyd yn cyflawni'r wobr efydd, arian neu aur, a 18 ysgol arall bellach wedi cofrestru.

### Parhau i gyflawni Gweledigaeth Caerdydd 2030 ar gyfer addysg a dysgu

- **Gwella Cyrhaeddiad ac Ansawdd Addysg**: Arolygwyd addysg yng Nghaerdydd gan Estyn, arolygiaeth addysg a hyfforddiant Cymru, ym mis Tachwedd 2021. Yn ei adroddiad a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2022, nododd Estyn y cafwyd gwelliant parhaus a graddol yn ansawdd ac effeithiolrwydd y gwasanaethau Addysg. Yn gyffredinol, mae arolygiadau ysgol wedi bod yn gryf rhwng 2017 1 2020 ac mae canlyniadau Cyfnod Allweddol 4 wedi bod yn uwch na'r disgwyl yn y rhan fwyaf o ysgolion yn y tair blynedd hyd at 2020. Mae deilliannau ar gyfer disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn uwch ar y cyfan na chanlyniadau cenedlaethol yr un grŵp.
- **Mynd i'r afael ag Amddifadedd Digidol**: Mae rhaglen TGCh drawsnewidiol wedi cael ei rhoi ar waith, gan adeiladu ar yr arian Technoleg Addysg sydd wedi'i ddarparu gan Lywodraeth Cymru er mwyn mynd i'r afael â'r amddifadedd digidol a brofir gan rai pobl ifanc ledled y ddinas. Ym mlwyddyn ariannol 2021/22, y cyfraniad blynyddol oedd £3.8m.

- **Rhaglen Trefniadaeth Ysgolion**: Mae'r gwaith o gyflwyno cynlluniau newydd Band B yn unol â'r rhaglen yn mynd rhagddo yn dilyn oedi oherwydd y pandemig a newid demograffig. Mae Ysgol Uwchradd Fitzalan ac Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Llaneirwg yn datblygu'n dda ar y safle ac mae cynlluniau eraill gan gynnwys Campws y Tyllgoed yn mynd trwy'r camau dylunio. Mae ymgysylltu ar gyfer Ysgol Uwchradd Willows, Ysgol Uwchradd Cathays ac Ysgol y Llys wedi cytuno ar weledigaethau i'r ysgolion. Gwariodd Rhaglen Adnewyddu Asedau 2021/22 tua £18.5m ac mae'n cael ei darparu i fynd i'r afael â materion cyflwr ac addasrwydd sydd wedi'u blaenoriaethu. Bu cynnydd o ran buddsoddi mewn adnewyddu asedau a'r targed ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf fydd £20m.
- **Gwasanaeth Ieuenctid**: Nododd arolygiad Estyn fod Gwasanaeth Ieuenctid Caerdydd yn cynnig darpariaeth o safon uchel mewn ardaloedd â blaenoriaeth yn y ddinas sy'n cynnwys cymysgedd o fynediad agored a gwaith wedi'i dargedu. Tynnwyd sylw at y defnydd effeithiol o lwyfannau digidol fel maes o arfer da gan Estyn a nodwyd hefyd bod y cymorth ar gyfer iechyd a lles emosiynol pobl ifanc yn gryf. Mae Gwasanaeth Ieuenctid Caerdydd hefyd wedi ennill Marc Ansawdd yr Asiantaeth Ieuenctid Genedlaethol. Dyfarnwyd statws efydd i'r gwasanaeth am ei weledigaeth, ei arferion gwaith ieuenctid, a'i ddatblygiad a'i ymgysylltiad â phobl ifanc.
- **Mae'r lefel isel o NEETs (pobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant) wedi'i chynnal**: Er gwaethaf heriau a wynebwyd yn ystod y pandemig, mae canran isel y rhai sy'n dod yn NEET ar ôl gadael yr ysgol ar ddiwedd blwyddyn 11 wedi cael ei chynnal. Ym mis Hydref 2021, nid oedd 1.5% (53 person ifanc) o ddysgwyr mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.
- **Addewid Caerdydd**: Mae cysylltiadau â busnesau a phartneriaid wedi parhau i gael eu datblygu trwy gydol y pandemig a blaenoriaethau budd-daliadau fel symudedd cymdeithasol a darparu profiadau yn gysylltiedig â'r gwaith ar gyfer plant a phobl ifanc. Mae'r maes hwn wedi'i amlygu fel maes arfer da yn Adroddiad Arolygu Estyn ym mis Chwefror 2022.
- **Cynnydd Diwygio Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)**: Cafwyd cynnydd cryf mewn ysgolion ac ar draws yr Awdurdod Lleol wrth baratoi ar gyfer Diwygio ADY. Mae prosesau amlasiantaethol sydd wedi'u datblygu'n dda ar waith i nodi ac asesu plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol, ac i greu cynlluniau datblygu unigol sydd ag adnoddau priodol.



## Diogelu lles plant, pobl ifanc a theuluoedd sy'n agored i niwed

- **Sicrhau Gofal a Chyswllt â Phlant sy'n Agored i niwed a'u Teuluoedd trwy gydol y Pandemig**: Oherwydd natur barhaus pandemig Covid-19 yn ystod 2021/22, mabwysiadwyd technoleg newydd i ddarparu gwasanaethau a hynny ar raddfa helaeth. Roedd y dull hybrid digidol/wyneb yn wyneb yn galluogi'r Gyfarwyddiaeth i addasu ei fodel gweithredu i ymateb i'r newidiadau rheolaidd yng nghanllawiau a deddfwriaeth Llywodraeth Cymru. Rhoddwyd blaenoriaeth i ddiogelu ac amddiffyn plant gydag ymweliadau wyneb yn wyneb yn cael eu cynnal ar gyfer y plant yr ystyrid bod arnynt yr angen mwyaf amdanynt. Bydd y model hwn yn cael ei gynnal i ddiwallu anghenion plant a'u teuluoedd yn ddiogel wrth sicrhau'r defnydd mwyaf priodol ac effeithlon o adnoddau.
- **Recriwtio, Cadw Gweithwyr Cymdeithasol Plant a Gwella Ymgysylltu gan Staff**: Yn erbyn marchnad recriwtio heriol iawn ledled y wlad, mae'r Gwasanaethau Plant, trwy weithredu'r Strategaeth Recriwtio a Chadw a'r Cynllun Gweithlu, wedi gwella gallu'r Cyngor i ddenu a chadw gweithwyr cymdeithasol. O ganlyniad i hyn, cafwyd cynnydd net o 13 aelod o staff yn ystod y flwyddyn gyda llai o ddibyniaeth ar staff asiantaeth yn y gweithlu gofal cymdeithasol. O Chwarter 2 ymlaen, fe wnaeth canran swyddi gwag gwaith cymdeithasol y Gwasanaethau Plant gyrraedd ei darged (o lai na 24%) gan aros yn is na'r targed am weddill y flwyddyn. Mae gwaith ymgysylltu â staff hefyd wedi helpu i gadw gweithwyr cymdeithasol, gyda'r Grŵp Cenhadon Staff yn cael ei adfer, ac arweinwyr ymarfer a sesiynau ymarfer gorau yn cael eu sefydlu.
- **Symud y Cydbwysedd Gofal:** Mae'r Cyngor wedi cadw ei ffocws ar symud y cydbwysedd gofal er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn derbyn y gwasanaethau iawn gan y bobl iawn, ar yr adeg iawn, ar sail eu hanghenion.
  - I gefnogi'r gwaith hwn, mae'r Fframwaith Ailuno wedi'i weithredu, gyda'r nod o gefnogi plant i ddychwelyd i fyw gyda'u teuluoedd, lle mae'n ddiogel i wneud hynny. Mae cynnydd parhaus yn nifer y plant sy'n aros gyda'u teuluoedd trwy drefniadau gyda pherthnasau, a chynnydd yn y ddarpariaeth faethu fewnol.
  - Mae'r Hwb Ymyriadau wedi dod â'r holl staff cymorth ar draws y Gwasanaethau Plant ynghyd i benderfynu pa ymyriadau sydd eu hangen ar blant, ac i'w darparu mewn ffordd gydlynol. Mae'r dull gweithredu yn cefnogi plant i aros gartref lle mae hynny er eu budd gorau ac mae'n ddiogel gwneud hynny. Mae'r dull hwn hefyd yn helpu i wella'r broses o reoli a dyrannu cymorth lle mae adnoddau'n brin.
  - Mae cyflwyno'r Hwb Adolygu yn adeiladu ar y gwasanaethau sydd eisoes ar waith i gefnogi swyddogaethau adolygu statudol i blant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant a phlant sy'n derbyn gofal. Mae'r Hwb Adolygu yn helpu i ymateb i'r galw cynyddol am adolygu gwasanaethau sy'n deillio o'r niferoedd cynyddol o blant sy'n derbyn gofal, wrth ymestyn y gwasanaeth i blant sydd â chynlluniau gofal a chymorth (CGCh) hefyd. Bydd yr adolygiad annibynnol hwn o'r holl gynlluniau gofal a chymorth yn helpu i sicrhau bod achosion yn cael mwy neu lai o sylw mewn da bryd, a bod plant a'u teuluoedd yn cael y cymorth iawn gan y person iawn ar yr adeg iawn. Mae'r broses adolygu yn rhoi sicrwydd bod achosion yn cael eu rheoli a'u cau'n briodol.
  - Mae llety ychwanegol i bobl ifanc sy'n agored i niwed wedi'i sicrhau trwy gydweithio rhwng y Gwasanaethau Plant a'r Gwasanaethau Tai. Mae'r Gwasanaeth Ymgynghorwyr Personol a'r Gwasanaethau i Mewn i Waith hefyd wedi bod yn cydweithio'n agos i gefnogi pobl ifanc i gael mynediad i fyd addysg, hyfforddiant a chyflogaeth.

- **Ymgysylltu â Phlant a Chlywed Llais y Plentyn:** Cafodd ap Mind of My Own ei lansio ym mis Gorffennaf 2021 ac mae wedi helpu i gryfhau ymgysylltiad â phlant. Mae'r ap yn defnyddio technoleg ddigidol ddiogel i alluogi plant mor ifanc â 2 oed, yn ogystal â'r rheiny sydd ag anghenion ychwanegol, i fynegi eu barn, eu dymuniadau a'u teimladau. Cafodd yr ap ei gydgynhyrchu â phobl ifanc, ac maen nhw'n parhau i fod yn rhan o'r datblygiad parhaus. Mae'r ap yn helpu i alluogi cyfathrebu gwell rhwng plant a'r gwasanaeth, ac yn rhoi mewnwelediad a dealltwriaeth o ran pryd y mae plant yn ei chael hi'n anodd, gan alluogi ymyrraeth i gael ei dargedu ar y lefel iawn, ac ar yr adeg iawn. Erbyn 31 Mawrth 2022, roedd 141 o blant a phobl ifanc wedi cofrestru ar gyfer yr ap ac roedd 247 o gyfrifon gweithwyr wedi'u creu hefyd.
- **Gwella Gwasanaeth**:
  - **Gweithio'n Lleol:** Mae dull ardal leol ar gyfer lleoli timau gwaith cymdeithasol o amgylch y ddinas yn cael ei wreiddio ym mhroses rheoli achosion y Gwasanaethau Plant, gan ganolbwyntio ar ddatblygu cymysgedd sgiliau o fewn timau a dull tîm cyfan.
  - **Gwelliannau systemau a data:** Mae dangosfwrdd perfformiad amlasiantaethol ar gyfer y Pwyllgor Cynghori Rhianta Corfforaethol wedi'i gyflwyno, wrth i Microsoft Power BI gael ei gyflwyno fel offeryn adrodd sylfaenol ar gyfer y Gwasanaethau Plant. Mae gwaith yn parhau i uwchraddio system cofnodi cleientiaid CareFirst i'r system newydd, Eclipse.
  - **Sicrwydd ansawdd:** Mae prosesau sicrhau ansawdd wedi'u cryfhau ac mae polisïau a gweithdrefnau yn cael eu diweddaru ar hyn o bryd. Mae'r dull Arwyddion Diogelwch yn cael ei ddefnyddio i ddatblygu fframwaith ymarfer newydd ar gyfer y Gwasanaethau Plant a ddyluniwyd o amgylch dull sy'n seiliedig ar gryfderau ac ar drawma.
- **Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid:** Mae'r broses o roi Cynllun Gwella Cyfiawnder Ieuenctid Ein Dyfodol Ni i Gyd yn mynd rhagddo'n dda, ac mae'r rhan fwyaf o'r camau gweithredu yn y cynllun wedi'u cwblhau erbyn diwedd 2021/22. Mae'r meysydd cynnydd allweddol yn cynnwys casglu adborth gan ddioddefwyr ar gylch 6 mis i'w fwydo i'r broses gwneud penderfyniadau, adolygu a diweddaru sawl polisi gwasanaeth, a phenodi rheolwyr newydd yn y gwasanaeth. Mae camau'r Cynllun sydd heb eu gweithredu eto yn gofyn am fewnbwn amlasiantaethol a dyma fydd ffocws y gwaith parhaus dros y flwyddyn ganlynol. Ers yr arolygiad yn 2020, mae adborth anffurfiol gan Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi yn gadarnhaol, ac yn cydnabod y cynnydd a wnaed yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Rhwng 2020 a 2022, bu gostyngiad yn nifer y bobl ifanc a ddaeth i'r system cyfiawnder ieuenctid am y tro cyntaf o 241 ym mhob 100,000 i 80. Dros yr un cyfnod bu gostyngiad yn y nifer yng Nghymru a Lloegr o 222 i 167. Mae'r gyfradd aildroseddu yn y ddinas wedi gostwng o 54.4% i 33.3% ac mae bellach yn is na'r gyfradd gyffredinol ar draws Cymru a Lloegr.

## Heriau a Risgiau

- **Ail-ymgysylltu â Dysgwyr:** Mae ail-ymgysylltu â dysgwyr ar ôl pandemig Covid-19 yn her ar unwaith, yn enwedig gallu'r ysgolion a'r Awdurdod Lleol i ddiogelu dysgwyr a gwella presenoldeb yn dilyn cyfnodau hir i ffwrdd o'r ysgol.
- **Gwelliant Parhaus mewn Ysgolion:** Rhaid cynnal hyn yng nghyd-destun trefniadau atebolrwydd ac asesu newidiol gyda'r disgwyl y bydd fframwaith perfformiad newydd ar gyfer ysgolion yn cael ei gyhoeddi ym mis Medi 2022 ynghyd â diwygiadau mawr i'r Cwricwlwm. Er i Estyn gymeradwyo trefniadau perfformiad strategol y Cyngor mewn perthynas ag ysgolion, roedd hefyd yn argymell gwneud gwaith pellach i wella ansawdd yr hunanwerthuso ar lefel gwasanaeth yn y Gyfarwyddiaeth Addysg, a bod y Cyngor yn sicrhau bod gwaith y consortiwm rhanbarthol yn canolbwyntio ar flaenoriaethau Caerdydd.
- **Rheoli Pwysau Ariannol mewn Ysgolion:** Bydd nifer yr ysgolion sydd â diffyg mewn cyllidebau'n cael eu monitro'n ofalus, gan ganolbwyntio ar gefnogi a herio ysgolion i gyflawni unrhyw gynlluniau adfer diffygion y cytunwyd arnynt. Mae rheoli cyllideb mewn meysydd agweddau penodol ar y broses o ddarparu gwasanaethau yn parhau i fod yn her ac mae arlwyo ysgolion, y Gwasanaeth Cerdd a thrafnidiaeth o'r cartref i'r ysgol yn feysydd ffocws hirsefydlog. Bydd angen gwaith monitro a rheoli ariannol gofalus hefyd o ran y neidiau sydyn yn y galw am wasanaethau cymorth arbenigol, gan gynnwys gwasanaethau cwnsela i blant a phobl ifanc.
- **Cyflwyno'r Rhaglen Trefniadaeth Ysgolion a Rheoli Ystâd Ysgolion:** Mae'r Rhaglen Trefniadaeth Ysgolion (RhTY) yn cynrychioli corff sylweddol o waith o ran maint, cymhlethdod a lefel y gwariant cyfalaf. Mae yna lawer o brosiectau asedau brys/ymatebol o hyd sy'n ymwneud â'r rhaglen ac anghydbwysedd lleoedd ysgol ar draws y ddinas. Bydd datblygu Strategaeth RhTY lefel uchel sy'n amlinellu nodau tymor byr, canolig a hir a chryfhau'r gallu cyflenwi o fewn tîm y RhTY yn flaenoriaeth ar gyfer 2022/23.
- **Prydau Ysgol am Ddim i Bawb:** Mae cyflymder a maint yr addasiadau sydd eu hangen i gyflawni hyn yn her er mwyn sicrhau bod modd darparu'r cynllun ar gyfer holl blant ysgol Caerdydd. Bydd archwiliad cyflym o allu ceginau ysgolion ac adolygiad o fwydlenni ysgolion yn cael ei gynnal er mwyn sicrhau bod y cynnig Prydau Ysgol Am Ddim i Bawb yn cael ei ddarparu'n effeithiol i bob disgybl oed cynradd.
- **Cyflwyno'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg:** Ym mis Chwefror 2022 cyhoeddodd y Cyngor Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA). Er y bu cynnydd o ran maint y ddarpariaeth o ansawdd uchel a'r nifer sy'n manteisio ar leoedd cyfrwng Cymraeg, mae heriau'n parhau o hyd ynghlwm â thwf parhaus, yn enwedig o ystyried y gostyngiad yn y cyfraddau geni. Mae'r Cyngor yn parhau i fod yn ymrwymedig i ehangu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ym meysydd ADY, y blynyddoedd cynnar/gofal plant, cynradd ac uwchradd, a chynyddu'r nifer sy'n achub ar gyfleoedd cyfrwng Cymraeg.

- **Galw Cynyddol am y Gwasanaethau Plant a Chymhlethdod y Galw Hwnnw:** Yn ystod blwyddyn ariannol 2021/22 bu cynnydd sylweddol yn y galw am wasanaethau Plant, yn enwedig wrth y drws ffrynt. Rhagwelir y bydd y cynnydd hwn mewn galw yn parhau wrth i effaith hirdymor Covid-19 ar blant a'u teuluoedd ddod i'r amlwg a bydd hyn yn creu pwysau cyllidebol mawr. Mae hyn yn atgyfnerthu'r angen i barhau i ganolbwyntio ar ymyriadau ataliol, i gyflawni strategaeth bresennol y Cyngor a symud y cydbwysedd gofal.

  Mae'r cynnydd yn y galw a chymhlethdod, ynghyd ag effaith barhaus y pandemig, wedi effeithio'n sylweddol ar berfformiad yn erbyn targedau gwasanaethau, megis prydlondeb asesiadau lles a chwblhau cynlluniau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Fel rhan o adferiad Covid-19 ac ailddechrau gweithredu yn ôl yr arfer, bydd y gwasanaeth yn monitro perfformiad agos i lywio cynllunio prosiectau a gweithredu'r llifoedd gwaith gwella sydd wedi'u nodi yn Adroddiad Blynyddol Gwasanaethau Cymdeithasol yr Awdurdod Lleol 2021/2022.

- **Sicrhau bod Ystod o Gymorth yn y Gymuned ac Amrywiaeth o Gartrefi i Blant ar Gael yng Nghaerdydd:** Mae sicrhau bod digon o leoliadau ar gael i ddiwallu anghenion asesedig unigolion yn bryder allweddol i'r gwasanaeth, gyda'r ddeddfwriaeth sy'n cael ei chyflwyno i ddiwygio'r farchnad gofal cymdeithasol yn debygol o achosi cyfnod o darfu ac arwain at ddarparwyr yn rhoi'r gorau i'w cynlluniau i ehangu eu darpariaeth Gwasanaethau Plant yng Nghymru. Yn hanesyddol bu anawsterau rheoli costau lleoliadau, yn enwedig pan fydd angen gosod plant y tu allan i'r sir (am amryw resymau, gan gynnwys pryderon amddiffyn plant). O ran y galw, nid yn unig y mae nifer yr achosion yn cynyddu, ond mae anghenion y rhai sy'n cael eu hatgyfeirio yn newid ac yn dod yn fwy cymhleth, gan arwain at ofynion penodol iawn o ran lleoliadau. Er enghraifft, fel a nodir isod, mae'r cynnydd yn nifer y bobl ifanc sydd â phroblemau iechyd meddwl difrifol a lles emosiynol, er ei fod yn fater cenedlaethol, yn arbennig o amlwg yng Nghaerdydd.

- **Cynnydd yn nifer y bobl ifanc sydd â phroblemau iechyd meddwl ac emosiynol a'r rhai sy'n dioddef trallod meddyliol difrifol:** Mae effaith Covid-19 wedi arwain at gynnydd yn nifer y bobl ifanc sy'n cysylltu â'r gwasanaeth gyda phroblemau iechyd meddwl a lles emosiynol, gan gynnwys cynnydd yn nifer y plant sy'n profi trallod seicolegol acíwt y mae angen cymorth iechyd a lles sylweddol a brys arnynt. Mae hyn yn rhoi pwysau galw ar draws gwasanaethau'r Cyngor a system gwasanaethau cyhoeddus ehangach, ac felly bydd yn faes pwysau cyllidebol pellach dros y flwyddyn sydd i ddod.

- **Plant ag anableddau:** Mae pandemig Covid-19 hefyd wedi cael effaith gorfforol ac emosiynol aruthrol ar blant ag anableddau a'u teuluoedd. Bydd gwaith ymateb brys yn canolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau seibiant byr, a fydd yn cael ei gefnogi gan ddatblygu strategaeth ar gyfer plant ag anableddau ac anghenion dysgu ychwanegol, Taliadau Uniongyrchol, gofal cartref a gwaith pellach i wella'r profiad o bontio i'r Gwasanaethau Oedolion.

- **Recriwtio a chadw gweithwyr cymdeithasol:** Mae cyfraddau trosiant yn y Gwasanaethau Plant yn uchel, sef 13.46%, o'u cymharu â'r cyfartaledd corfforaethol, sef 10.58%. Rhwng gwahaniaethau cyflog ar draws awdurdodau (yn enwedig tâl asiantaeth) a'r canfyddiadau newidiol o rôl gweithwyr cymdeithasol, yng nghyd-destun y sylw diweddar yn y cyfryngau i achosion proffil uchel, mae denu a chynnal gweithlu sefydlog wedi bod yn her. Er bod gwaith wedi'i wneud i gefnogi gweithwyr cymdeithasol newydd gymhwyso, mae wedi bod yn anodd denu a chadw gweithwyr cymdeithasol profiadol. Serch hyn, mae Gwasanaethau Plant wedi llwyddo o hyd i gyflawni cynnydd net o 13 aelod staff yn ystod y flwyddyn, gan leihau ei ddibyniaeth ar staff asiantaeth.

## Edrych Ymlaen: Meysydd Ffocws

### Cefnogi Adferiad sy'n Dda i Blant

Bydd cefnogi adferiad sy'n Dda i Blant yn sgil pandemig Covid-19 yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol i'r Cyngor. Wrth symud ymlaen, bydd y Cyngor yn gwneud ei orau glas i sicrhau y gall holl ysgolion Caerdydd aros ar agor a chynnal amgylcheddau dysgu diogel ar gyfer disgyblion a staff, gan ailymgysylltu â disgyblion, gyda ffocws ar fynd i'r afael ag absenoldeb parhaus, a sicrhau nad yw'r pandemig yn cael unrhyw effaith barhaol ar gyrhaeddiad a chanlyniadau, yn enwedig i ddysgwyr y ddinas sydd fwyaf agored i niwed.

### Parhau i wireddu gweledigaeth Caerdydd 2030 ar gyfer addysg a dysgu

Mae cefnogi ysgolion i barhau i ddarparu dysgu o safon uchel, wrth amddiffyn lles dysgwyr, yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol i'r Cyngor. O ganlyniad i'r newidiadau sylweddol i addysg, bydd y Cyngor yn ailosod Gweledigaeth Caerdydd 2030 gan ystyried profiadau'r ddwy flynedd ddiwethaf a fydd yn cynnwys y gwaith sylweddol sydd ei angen i ddatblygu diwygiadau ar gyfer Cwricwlwm Cymru 2022 ac Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Ar draws pob agwedd ar addysg, bydd pwyslais parhaus yn cael ei roi ar wella canlyniadau i grwpiau sy'n agored i niwed, gan gynnwys disgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim, plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol, y mae'n bosibl bod y pandemig wedi effeithio'n fwy andwyol arnynt.

Yn fwy bras, bydd y Cyngor yn datblygu ac yn gwreiddio dull Ysgolion Bro i wella'r berthynas rhwng ysgolion a chymunedau, gan ganolbwyntio ar gefnogi dysgu a lles parhaus plant a theuluoedd sy'n agored i niwed a fydd yn flaenoriaeth hefyd. Yn gysylltiedig â hyn, bydd model integredig o wasanaethau cymorth ieuenctid i gael gwared ar rwystrau i ymgysylltu a chyfranogiad yn cael ei ddatblygu.

### Diogelu lles plant, pobl ifanc a theuluoedd sy'n agored i niwed

Gallai'r galw cynyddol a'i gymhlethdod cynyddol, ynghyd â diffyg lleoliadau i bobl ifanc sy'n agored i niwed, arwain at bwysau cyllidebol difrifol, ac felly bydd yn cael ei uwchgyfeirio ar gyfer goruchwyliaeth a chymorth corfforaethol uwch.

Er mwyn ymateb i faint a chymhlethdod cynyddol y galw, bydd y Cyngor yn parhau i ganolbwyntio ar ymyrraeth gynnar ac ar gefnogi teuluoedd, felly rydym yn defnyddio dull lles mwy integredig, gan weithio i gryfderau teuluoedd i ddarparu'r cymorth sydd ei angen arnynt a sicrhau bod plant yn gallu aros gartref gyda'u teuluoedd pan fydd er eu budd gorau i wneud hynny. O ran heriau recriwtio, bydd y Cyngor yn canolbwyntio ar ddatblygu'r gweithlu trwy gynnal momentwm wrth wella ymarfer a gweithio i ddenu mwy o weithwyr cymdeithasol newydd gymhwyso a'r rhai profiadol i Gaerdydd.

Mewn ymateb i'r cynnydd yn y galw am gymorth iechyd meddwl a lles emosiynol, bydd gwaith yn cael ei wneud mewn partneriaeth â'r Gyfarwyddiaeth Addysg, Bwrdd Iechyd y Brifysgol, a phartneriaid eraill i ddatblygu Gwasanaeth Adfer ar y Cyd i helpu i reoli'r nifer cynyddol o blant a phobl ifanc sydd â phroblemau iechyd meddwl a lles emosiynol difrifol. Er mwyn cefnogi iechyd meddwl a lles emosiynol i blant a phobl ifanc mewn ysgolion, bydd dull partneriaeth o ymgorffori NYTH ymhellach, sef dull amlasiantaethol o gefnogi lles emosiynol ac iechyd meddwl sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, yn cael ei ddefnyddio gyda'r dull 'ysgol gyfan' yn ganolog iddi.

# Amcan Lles 2: Mae Caerdydd yn lle gwych i dyfu'n hŷn

### Ein blaenoriaethau yn 2021/22 oedd:

- **Cefnogi pobl hŷn i heneiddio'n dda a byw eu bywydau gorau yn eu cartrefi a'u cymunedau, trwy ddarparu gwasanaethau rhagweithiol ac ataliol**
- **Cefnogi pobl hŷn sy'n dioddef o ynysigrwydd cymdeithasol ac unigrwydd a chyflawni ein huchelgeisiau Dinas sy'n Dda i Bobl Hŷn a Dinas sy'n Deall Dementia**

## Asesiad Strategol

Effeithiodd pandemig Covid-19 ar iechyd a lles pobl hŷn yn fwy nag unrhyw grŵp arall, ac felly roedd 2021/22 yn flwyddyn hynod heriol arall i bobl hŷn a'r gwasanaethau y maent yn dibynnu arnynt. Dilynwyd y pandemig gan alw prysur gynyddol, mwyfwy cymhleth sydd, ynghyd â phrinder gweithwyr gofal a staff gofal iechyd arbenigol, yn rhoi pwysau sylweddol a difrifol ar bob rhan o system iechyd a gofal cymdeithasol sydd eisoes dan bwysau yng Nghaerdydd. Mae hyn, yn ei dro, yn arwain at oedi wrth ddarparu gofal ac yn atal cleifion rhag cael eu rhyddhau mewn da bryd o ysbytai.

Trwy gytundeb a gweithredu Strategaeth Heneiddio'n Dda newydd, mae'r Cyngor yn gwneud cynnydd wrth ddod â sawl gwasanaeth at ei gilydd i gefnogi pobl hŷn i fyw'n annibynnol gartref cyhyd â phosib. Mae cynnydd amlwg hefyd yn cael ei wneud wrth ymateb i brinder yn y gweithlu, er bod y sefyllfa'n parhau'n heriol iawn a bydd yn parhau i fod yn flaenoriaeth i'r Cyngor a'i bartneriaid.

Mae'r cydweithio agosach rhwng y Cyngor, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a darparwyr gofal a sefydlwyd yn ystod y pandemig wedi parhau i'r cyfnod adfer. Mae hyn wedi arwain at fwy o ddealltwriaeth o'r materion sy'n wynebu'r sector a datblygu ymatebion integredig, traws-sectoraidd newydd, gan gynnwys dull amlddisgyblaeth newydd o ryddhau cleifion o'r ysbyty a chymorth cymunedol sy'n dechrau cael effaith. O ystyried maint yr her, bydd cryfhau'r dull partneriaeth hwn ymhellach o reoli'r system gofal cymdeithasol cyn a thrwy gydol gaeaf 2022/23 yn parhau i fod yn flaenoriaeth strategol i'r Cyngor a'i bartneriaid.

## Llwyddiannau Allweddol

**Cefnogi pobl hŷn i heneiddio'n dda a byw eu bywydau gorau yn eu cartrefi a'u cymunedau, trwy ddarparu gwasanaethau rhagweithiol ac ataliol**

- **Strategaeth Heneiddio'n Dda Caerdydd 2022-2027:** Cafodd y strategaeth newydd hon ei chymeradwyo gan y Cabinet ym mis Ionawr 2022. Mae'n nodi cyfres o gynigion gyda ffocws ar sut gall gwasanaethau gydweithio'n agos i gefnogi pobl hŷn i gadw'n heini ac yn gysylltiedig ac i fyw'n annibynnol gartref trwy wasanaethau ataliol sy'n seiliedig ar gryfderau, gofal cynaliadwy o ansawdd uchel a moderneiddio'r gwasanaethau presennol.
- **Gwasanaethau Integredig:** Mae'r gwaith i integreiddio'r Gwasanaethau Oedolion a'r Gwasanaeth Tai a Chymunedau'n un gyfarwyddiaeth, a ddechreuodd ar ddechrau 2021, wedi parhau i gefnogi alinio gwasanaethau. Nodweddir y dull gweithredu gan gydlynu'r Gwasanaethau Oedolion yn effeithiol â gwasanaethau ehangach y Cyngor – gan gynnwys tai, hybiau a llyfrgelloedd – fel rhan o ddull gweithredu cymunedol o gyflawni.
- **Canolfannau Dydd a Hybiau Cymunedol:** Cyfunwyd rheolaeth y Canolfannau Dydd a'r Hybiau Cymunedol sy'n galluogi'r Cyngor i ymestyn yr amrywiaeth o wasanaethau sydd ar gael a'u cynnig saith diwrnod yr wythnos. Trwy wneud y defnydd mwyaf o'r Hybiau, mae'r Cyngor yn gallu cefnogi pobl hŷn a'u gofalwyr yn well.
- **Recriwtio Staff Gofal:** Dechreuodd menter newydd ym mis Hydref 2021 pan lansiwyd Academi Gofalwyr Caerdydd. Datblygwyd yr Academi trwy bartneriaeth rhwng y Gwasanaethau Oedolion, y Gwasanaeth i Mewn i Waith a darparwyr gofal mewnol ac allanol. Mae dros 40 o ofalwyr newydd wedi derbyn hyfforddiant a chyflogaeth ers y lansiad. Mae'r Academi yn nodi ac yn hyfforddi gofalwyr newydd, gan sicrhau bod ganddynt y wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i weithio yn y sector, ac wedi cyflawni'r broses wirio angenrheidiol. Y nod yw creu ymgeiswyr 'sy'n barod ar gyfer gofal' ar gyfer swyddi gofal cymdeithasol sydd ar gael. Mae mentor a swyddog cyswllt cyflogwyr penodol wedi'i gyflogi i gydlynu hyn ac mae cynllun gwirfoddol wedi'i roi ar waith hefyd, a fydd yn helpu gofalwyr newydd i ennill profiad hanfodol.
- **Gwell Gwaith Partneriaeth:** Mae'r dysgu o'r pandemig wedi arwain at weithio'n agosach gyda chydweithwyr o Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a gan ddarparwyr gofal sydd wedi cynyddu dealltwriaeth o'r anawsterau sy'n wynebu'r sector. Bydd y gwaith partneriaeth hwn yn cael ei ddatblygu ymhellach wrth i'r dull ardal leol o weithio gael ei ddatblygu. Mae'r dull amlddisgyblaeth o ryddhau cleifion o'r ysbyty a'r cymorth cymunedol wedi'i ehangu gan ychwanegu clystyrau meddygon teulu yng Ngogledd Caerdydd a Dwyrain Caerdydd at y clwstwr cyntaf yn Ne-orllewin Caerdydd. Fel rhan o'r prosiect ardaloedd lleol, mae'r Gwasanaeth Byw'n Annibynnol wedi'i integreiddio'n llawn i'r Tîm Amlddisgyblaeth, gan drafod achosion unigol a nodi cymorth i bobl sy'n aros yn iach gartref ac yn eu cymunedau.
- **Atebion Tai:** Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor yn cyflwyno 10 cynllun Byw yn y Gymuned ar draws y ddinas ar gyfer pobl hŷn sy'n helpu i hyrwyddo byw'n annibynnol yn ogystal â darparu ystod amrywiaeth o gyfleusterau a gwasanaethau i denantiaid. Bydd y gwaith gwella hwn ar y cyfleusterau cymunedol yn creu amgylchedd modern a chroesawgar sy'n gwella profiad trigolion a'r ymdeimlad o gymuned.

– Mae gwaith yn parhau ar bentref lles Llanfihangel gydag uwch-gynllun wedi'i ddiweddaru y cytunwyd arno'n ddiweddar ac ymgynghoriad cyn ymgeisio wedi'i gwblhau.

– Rhoddwyd caniatâd cynllunio i'r Cynllun Byw Cymunedol yng Nglan-yr-afon (Canolfan Gymunedol Treganna) ym mis Rhagfyr. Mae'r broses dendro i benodi contractwr ar y gweill gyda Datganiadau o Ddiddordeb cychwynnol yn cael eu dychwelyd.

– Rhoddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer y Cynllun Byw Cymunedol yn Stryd Bute. Mae'r pecyn tendro sydd ei angen ar gyfer y cynllun bron â'i gwblhau cyn cyhoeddi Datganiadau o Ddiddordeb.

Mae'r Cyngor hefyd wedi dechrau defnyddio estyniadau modiwlaidd sy'n gwella'r gwaith o ddarparu addasiadau, offer a thechnoleg. Trwy ddefnyddio uned a gynhyrchwyd oddi ar y safle ymlaen llaw, gellir rhoi'r uned ar waith heb fawr o darfu, gan alluogi person hŷn i adennill ei hannibyniaeth yn llawer cyflymach na thrwy ddulliau adeiladu traddodiadol.

- **Gwasanaethau Byw'n Annibynnol:** Gan ganolbwyntio ar bobl hŷn a phobl anabl, mae'r tîm wedi parhau trwy gydol 2021/22 i rymuso pobl i aros yn annibynnol gartref a lleihau dibyniaeth ar ymyriadau dwys. Roedd 95% o gleientiaid (300 o 317) yn teimlo eu bod yn gallu byw'n annibynnol yn eu cartrefi yn dilyn cymorth gan Wasanaethau Byw'n Annibynnol. Deliwyd â 92% o achosion newydd ar y Pwynt Cyswllt Cyntaf heb arwain at gyfeirio ymlaen at y Gwasanaethau Oedolion.

## Cefnogi pobl hŷn sy'n dioddef o ynysigrwydd cymdeithasol ac unigrwydd a chyflawni ein huchelgeisiau Dinas sy'n Dda i Bobl Hŷn a Dinas sy'n Deall Dementia

- **Dinasoedd sy'n Dda i Bobl Hŷn:** Ym mis Mawrth 2022, ymunodd Caerdydd â Rhwydwaith Byd-eang Sefydliad Iechyd y Byd ar gyfer Dinasoedd a Chymunedau sy'n Dda i Bobl Hŷn. Y ddinas yw aelod Cymreig cyntaf y Rhwydwaith a sefydlwyd yn 2010 i gysylltu dinasoedd, cymunedau a sefydliadau ledled y byd gyda'r weledigaeth gyffredin o wneud eu cymunedau'n lle gwych i dyfu'n hŷn. Mae statws aelodaeth newydd y ddinas yn ganlyniad i gydweithio helaeth â rhanddeiliaid ledled y ddinas gan gynnwys Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, sefydliadau addysgol a sefydliadau'r trydydd sector.

- **Mynd i'r afael ag Ynysigrwydd Cymdeithasol:** Mae amrywiaeth o fentrau wedi'u darparu gan y Gwasanaeth Hybiau a Llyfrgelloedd i fynd i'r afael ag ynysigrwydd cymdeithasol ac unigrwydd ymhlith ein trigolion hŷn gan gynnwys:

  - Cynllun ffrindiau post rhyng-genedlaethol rhwng plant o ddwy ysgol gynradd (Ysgol Gynradd Millbank, Trelái ac Ysgol Gynradd Gatholig St Joseph, Gabalfa) a phreswylwyr mewn tri chartref gofal (Canolfan Ofal The Forge, Canolfan Nyrsio a Phreswyl Heol Don, a Chartref Gofal Ely Court) a ddechreuodd ym mis Mai 2021 yn ystod Wythnos Gweithredu ar Ddementia.

  - Lansiwyd Gwasanaeth Cymorth Lles Caerdydd ym mis Gorffennaf 2021 a'i nod yw cefnogi unigolion sy'n teimlo eu bod wedi'u hynysu'n gymdeithasol trwy ddarparu cymorth byrdymor o gymorth ysgafn er mwyn cael mynd i ddigwyddiadau yn y gymuned i fentora dwys un i un.

- Mae hybiau'n parhau i gynnig llawer o weithgareddau a dosbarthiadau ar gyfer pobl hŷn megis pêl-droed cerdded, tai chi, clybiau garddio, canu, gwau a sgwrsio, a digwyddiadau ffrindiau a chymdogion.

- **Dinas sy'n Deall Dementia:** Mae'r gwaith a wnaed yn ystod 2021/22 yn cynnwys y canlynol:
  - Mae dros 1,000 o ddigwyddiadau Dinas sy'n Deall Dementia digidol ac wyneb yn wyneb wedi cael eu cynnal.
  - Cwblhaodd 2,431 aelod o staff hyfforddiant Cyfeillion Dementia yn ystod 2021/22.
  - Mae gwaith targedig wedi'i wneud i hyrwyddo Gwefan Deall Dementia trwy gyfryngau cymdeithasol, hysbysebu sgrin ddigidol archfarchnadoedd a hyrwyddiadau safleoedd bysus. Yn ogystal, mae cyfeiriad y wefan nawr wedi'i argraffu ar bob bag gwastraff hylendid a gyflwynir gan y Cyngor, er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth.

## Heriau a Risgiau

- **Heriau'r Gweithlu:** Mae prinder gweithwyr gofal a staff gofal iechyd ledled y DU yn parhau i fod yn broblem yng Nghaerdydd. Mae recriwtio Gweithwyr Cymdeithasol a Therapyddion Galwedigaethol yn eithriadol o anodd, gyda'r galw cenedlaethol yn uwch na nifer y swyddi hanfodol hyn sydd ar gael. Mae Tîm Llwybrau'r Gwasanaeth i Mewn i Waith yn canolbwyntio ar sectorau penodol fel sy'n cael ei gyfeirio gan amodau'r farchnad lafur leol. Ar hyn o bryd mae'r tîm yn canolbwyntio ar y diwydiant gofal cymdeithasol ac yn cyflwyno pecyn hyfforddi 'Gyrfa mewn Gofal' bob pythefnos i gefnogi recriwtio yn y maes.
- **Galw Cynyddol a Mwy Cymhleth:** Bu cynnydd o 30% yn nifer y bobl sydd angen gofal yn eu cartrefi, o gymharu â'r niferoedd a gafwyd cyn y pandemig. Mae'r cynnydd enfawr hwn yn y galw, ynghyd â'r anawsterau gweithlu yn y sector, yn arwain at oedi wrth ddarparu gofal ac yn atal cleifion rhag cael eu rhyddhau mewn da bryd o ysbytai. Yn ogystal, mae pobl hŷn sy'n byw gyda dementia a chyflyrau eraill yn cysylltu gydag anghenion mwyfwy cymhleth. Bydd angen ail-lunio'r ddarpariaeth gwasanaeth sydd ar gael ar hyn o bryd i ymateb i'r galw hwn.
- **Gofal Cartref:** Mae'r cynnydd mawr yn y galw am ofal cymdeithasol wedi rhoi'r farchnad dai o dan bwysau cynyddol. Mae problemau lefelau staff ar draws y Tîm Adnoddau Cymunedol yn effeithio ar eu gallu i ateb y galw am gefnogaeth, o ran pobl sy'n cael eu cefnogi a nifer yr oriau o gymorth sy'n cael ei ddarparu. Hefyd, mae nifer uchel o becynnau gofal sy'n aros i gael eu derbyn gan y farchnad yn ogystal ag ôl-groniad o waith cymdeithasol ac asesiadau therapi galwedigaethol. Mae rhai camau lliniaru wedi'u rhoi ar waith megis yr isod:
  - Mae swyddi Gweithwyr Cymdeithasol a Therapyddion Galwedigaethol ychwanegol wedi'u creu, ond cafwyd anawsterau o ran recriwtio.
  - Cyflwynwyd Rôl Therapydd Galwedigaethol Ymateb Cyflym newydd yn gynnar yn 2022. Mae'r rôl yn adnodd pwrpasol sy'n darparu asesiadau brys 48 awr i atal gorfod mynd i'r ysbyty neu osgoi chwalu gofal. Mae'r rôl bwrpasol hon yn cynnig mwy o effeithlonrwydd wrth drin achosion brys. Yn ogystal â'r uchod ac oherwydd yr argyfwng recriwtio gofalwyr, mae'r rôl hefyd yn cefnogi gofalwyr anffurfiol gydag offer a darpariaeth addasu wrth aros i becynnau hirdymor gael eu canfod.

- Mae'r Therapydd Galwedigaethol Cymunedol sy'n gweithio yn yr ysbyty hefyd wedi bod wrthi'n gweithio gyda chydweithwyr gofal cymdeithasol ac iechyd i adolygu anghenion gofal cyn rhyddhau. Hyd yma, mae'r rôl wedi atal 225 o oriau gofal.
- Mae cyflwyno'r Contractau Bloc Datblygu Gofal newydd hefyd yn helpu i dyfu'r gweithlu gofal cartref tra bod cyfarfodydd rheolaidd wedi'u rhoi ar waith i ddarparwyr allu trafod materion a phryderon.

- **Hyfforddiant Cyfeillion Dementia:** Er bod 42% o staff wedi cwblhau hyfforddiant Cyfeillion Dementia, mae hyn yn llawer is na'r targed o 85%. Mae dangosfwrdd rheoli – sy'n rhoi manylder gronynnog ar lefelau cydymffurfio tîm a staff – wedi'i ddatblygu ac mae sesiynau wyneb yn wyneb yn cael eu darparu i dimau heb fynediad cyfrifiadurol.
- **Busnesau sy'n Deall Dementia:** Ymrwymodd 16 o fusnesau i weithio tuag at ddod yn Fusnesau sy'n Deall Dementia yn ystod 2021/22. Mae hyn yn is na'r targed, ond oherwydd effaith pandemig Covid-19, roedd yn ddealladwy bod busnesau'n canolbwyntio ar feysydd eraill. Y gobaith yw y bydd y diddordeb yn cynyddu yn ystod 2022/23.

## Edrych Ymlaen: Meysydd Ffocws

### Cefnogi pobl hŷn i fyw'n annibynnol gartref trwy wasanaethau ataliol sy'n seiliedig ar gryfderau

Ar hyn o bryd ac wrth baratoi ar gyfer y gaeaf, bydd angen gweithio mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd y Brifysgol a'r sector gofal cymdeithasol i fodloni lefel a chymhlethdod cynyddol y galw sydd, ynghyd â'r prinder gweithwyr gofal a staff gofal iechyd, yn rhoi pwysau sylweddol a difrifol ar system iechyd a gofal cymdeithasol sydd eisoes dan bwysau. Dros y tymor canolig, bydd y Cyngor yn gweithio i ddatblygu a chydlynu gwasanaethau i ddarparu cymorth gwell i bobl hŷn aros yn annibynnol yn eu cartrefi. Fel rhan o'r gwaith hwn, bydd y Cyngor yn symleiddio gwasanaethau i wneud un llwybr i'n holl wasanaethau ar gyfer pobl hŷn er mwyn cefnogi atal ac ailalluogi, yn ogystal â rhyddhau cleifion o'r ysbyty mewn da bryd ac yn ddiogel. Cydnabyddir yn eang bod tai priodol hefyd yn ffactor allweddol wrth gefnogi annibyniaeth ac mae'r Cyngor yn ymrwymedig i sicrhau bod ei raglen adeiladu'n darparu cartrefi sy'n barod ar gyfer gofal, sydd wedi'u haddasu ac sy'n gallu cael eu haddasu, yn ogystal â Chynlluniau Byw yn y Gymuned arbenigol ar gyfer pobl hŷn a all addasu i ddiwallu'r angen newidiol am dai yng Nghaerdydd.

## Gweithio mewn partneriaeth i ddarparu gofal a chymorth cynaliadwy o ansawdd uchel

Mae'r heriau cenedlaethol sy'n wynebu'r sector ar hyn o bryd, yn enwedig yr anhawster o ran recriwtio a chadw staff yn ogystal â methiant y sector i dyfu i ddelio â'r cynnydd aruthrol yn y galw, wedi datgelu breuder y farchnad. Mae hefyd wedi datgelu problemau systemig, megis cyflog isel ac ansicrwydd swyddi, o fewn y sector. Felly mae'r Cyngor yn ymrwymedig i weithio mewn partneriaeth â darparwyr gofal wedi'u comisiynu i ddeall yn well y problemau sy'n eu hwynebu. Mae gwerthfawrogi a datblygu'r gweithlu gofal cymdeithasol yn allweddol er mwyn darparu gofal o ansawdd da. Bydd hyn yn cynnwys gweithredu er mwyn i weithwyr gofal cymdeithasol cymwys a chynorthwywyr personol sy'n cael eu hariannu trwy Daliad Uniongyrchol yr Awdurdod Lleol gael Cyflog Byw Gwirioneddol a datblygu Academi Gofalwyr Caerdydd ymhellach i sicrhau bod hyfforddiant, mentora a chymorth gan gyflogwyr ar gael ledled y sector.

## Cefnogi pobl hŷn i gadw'n heini ac yn gysylltiedig mewn dinas sy'n dda i bobl hŷn

Mae'n hanfodol bod yr holl bobl hŷn yng Nghaerdydd yn gallu manteisio ar y cyngor, y cymorth, y gweithgareddau a'r gwasanaethau priodol i'w helpu i gadw'n iach ac yn annibynnol. Mae Hybiau Cymunedol y Cyngor mewn sefyllfa dda i helpu i fynd i'r afael â llawer o'r materion sy'n effeithio ar iechyd a lles pobl hŷn, yn enwedig ynysigrwydd cymdeithasol. Wrth symud ymlaen, bydd y Cyngor yn cryfhau'r cyngor ar fyw'n annibynnol a lles a ddarperir yn yr Hybiau ar gyfer pobl hŷn a'u gofalwyr, gan ddarparu gweithgareddau a digwyddiadau rhithwir, yn ogystal â gweithgareddau wyneb yn wyneb, trwy fodel hybrid o ymgysylltu â'r gymuned.

## Cefnogi gofalwyr anffurfiol a gwerthfawrogi eu rôl

Mae'r Cyngor yn cydnabod y cyfraniad hanfodol y gall gofalwyr anffurfiol neu ddi-dâl ei wneud at gymunedau a'r bobl y maent yn gofalu amdanynt ac yn deall y pwysau y gall gofalu am rywun annwyl eu hachosi. Felly, mae'r Cyngor yn ymrwymedig i sicrhau bod gofalwyr yn cael eu cydnabod ac y cymerir pob cam i sicrhau'r ansawdd bywyd gorau – ar gyfer y rhai sy'n darparu gofal yn ogystal â'r rhai sy'n ei dderbyn. Wrth edrych i'r dyfodol, caiff y cymorth i ofalwyr ei adolygu trwy ymgynghoriad llawn â chynrychiolwyr gofalwyr.

## Sicrhau bod ein gwasanaethau'n diwallu anghenion y rhai mwyaf agored i niwed

Uchelgais y Cyngor yw i Gaerdydd fod yn Ddinas sy'n Deall Dementia. Fel rhan o'r uchelgais hwn, mae'n hollbwysig deall beth yw'r ffordd orau o gefnogi pobl sydd â dementia i fyw yn y gymuned. O ganlyniad, bydd y Cyngor yn ymgorffori arferion gorau, sy'n seiliedig ar ymchwil, gan sicrhau bod hyn yn dylanwadu ar y ffordd y mae gwasanaethau'n cael eu comisiynu mewn gofal cymdeithasol. Mae sicrhau bod llais y dinasyddion yn dal i gael ei glywed – yn enwedig pan fod nam ar eu galluedd meddyliol – yn arbennig o bwysig. Bydd gweithwyr cymdeithasol yn defnyddio dull sy'n seiliedig ar gryfderau o ymdrin â galluedd meddyliol wrth symud ymlaen, a bydd y Cyngor yn parhau i gomisiynu gwasanaethau eiriolaeth effeithiol.

# Amcan Lles 3: Cefnogi pobl allan o dlodi

## Ein blaenoriaethau yn 2021/22 oedd:

- **Cefnogi'r rhai yr effeithir arnynt fwyaf gan yr argyfwng economaidd i mewn i waith, addysg neu hyfforddiant**
- **Parhau â'n huchelgais Dinas Cyflog Byw**
- **Ymgorffori ein dull newydd o fynd i'r afael â digartrefedd a rhoi terfyn ar gysgu ar y stryd**

## Asesiad Strategol

Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd sylweddol wrth gefnogi pobl allan o dlodi, gyda'i waith ar y Cyflog Byw Gwirioneddol yn cael ei gydnabod trwy wobr genedlaethol; y Gwasanaethau Cyngor a Chymorth yn cyflawni'r holl dargedau a osodwyd; a lefelau cysgu ar y stryd yn parhau ar ei lefelau isaf erioed o ganlyniad i'r dull partneriaeth ataliol, 'Dim Mynd Nôl' a sefydlwyd yn ystod y pandemig.

Fodd bynnag, bydd effaith yr argyfwng costau byw sydd wedi datblygu dros 2022 yn cael ei theimlo ar draws cymunedau'r ddinas gyda'r pwysau mwyaf ar ddinasyddion a theuluoedd y ddinas sydd fwyaf agored i niwed. Gellir rhagweld y bydd hyn, yn ei dro, yn arwain at fwy o alw ar draws y Cyngor a gwasanaethau partner, yn enwedig y gwasanaethau cymorth a chyngor a ddarperir gan y Cyngor. Mae perygl hefyd y bydd yr argyfwng yn arwain at gynnydd yn nifer y bobl sy'n methu talu eu biliau ac sy'n ddigartref, ac o bosib yn cysgu ar y stryd. Felly, bydd datblygu ymateb ar draws y Cyngor i'r argyfwng costau byw yn flaenoriaeth strategol i'r Cyngor yn 2022/23.

## Llwyddiannau Allweddol

### Cefnogi'r rhai yr effeithir arnynt fwyaf gan yr argyfwng economaidd i mewn i waith, addysg neu hyfforddiant

- **Darparu Cyfleoedd Cyflogaeth:** Yn ystod 2021/22, crëwyd 183 o gyfleoedd ar gyfer prentisiaethau a hyfforddeiaethau cyflogedig gan y Cyngor. Penodwyd 32 o hyfforddeion corfforaethol Kickstart hefyd. Yn yr un cyfnod, cafodd bron 4,600 o swyddi o fewn y Cyngor eu llenwi trwy leoliadau Caerdydd ar Waith.
- **Cymorth Cyflogaeth:** Mae Gwasanaethau i Mewn i Waith y Cyngor wedi parhau i ehangu trwy gydol y flwyddyn er mwyn sicrhau bod modd ymateb i'r cynnydd yn y galw. Yn ystod 2021/22, cefnogwyd o leiaf 1,241 o gleientiaid i'r gwaith a chynorthwywyd 266 o gyflogwyr.

  Cafodd 29 lleoliad Dechrau Disglair eu sicrhau gan y Gwasanaeth i Mewn i Waith ar gyfer pobl ifanc sydd â phrofiad o ofal ar draws gwahanol adrannau'r Cyngor, gyda phump eisoes wedi cwblhau eu lleoliadau tri mis cyntaf. Mae'r statws 'nid mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET)' i'n pobl ifanc sydd â phrofiad o ofal yn cael ei adolygu yn ddyddiol ac mae tîm Dyfodol Disglair yn targedu'r rhai sydd â statws NEET ac yn cysylltu â nhw'n uniongyrchol.
- **Gwasanaethau Cynghori:** Yn ystod 2021/22, nodwyd dros £17.2 miliwn o fudd wythnosol ychwanegol ar gyfer cleientiaid y Tîm Cyngor Ariannol sy'n rhagori ar y targed o £14 miliwn ac sy'n gynnydd o £1.8 miliwn ers 2020/21. Rhoddwyd cyngor a chymorth i dros 10,400 o gleientiaid ac roedd dros 3,700 o gwsmeriaid yn cael eu cefnogi a'u cynorthwyo gyda'u ceisiadau am Gredyd Cynhwysol, sef cynnydd o 30% ar ffigur 2020/21. Atebodd y Llinell Gymorth a Chyngor ar Dai dros 83,500 o alwadau, gan ddatrys ymholiadau 78% o'r galwyr yn ystod y cyswllt cyntaf a chyfeirio 22% at gyngor mwy arbenigol. Mae hyn i gyd yn dangos yr angen sylweddol am y gwasanaethau hyn o ystyried y pwysau economaidd presennol.
- **Academi Adeiladu Ar y Safle De-ddwyrain Cymru:** Agorwyd yr Academi Adeiladu newydd ym mis Awst 2021 ar safle hen Ysgol Uwchradd y Dwyrain oddi ar Heol Casnewydd, Tredelerch. Mae'r Academi yn helpu i fynd i'r afael â'r bwlch sgiliau yn y diwydiant adeiladu a cheisio annog llawer mwy o bobl i ystyried y gwaith adeiladu fel gyrfa, gan gynnwys unigolion o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol yn y diwydiant, megis menywod ac unigolion o ystod amrywiol o gefndiroedd. Mae'r cynnydd a wnaed yn ystod Blwyddyn 1 wedi cael ei adolygu gyda Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu a Grŵp Llywio'r Academi Adeiladu Ar y Safle. Mae nifer y prosiectau newydd a'r swyddi newydd a lefel y gyflogaeth a gynhelir ar gyfer grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol oll yn rhagori ar eu targedau.

### Parhau â'n huchelgais Dinas Cyflog Byw

- **Gwobrau Cenedlaethol:** Mae'r Cyngor wedi cyrraedd y rhestr fer yng ngwobrau nodedig y Local Government Chronicle eleni o dan y categori Partneriaeth Gyhoeddus/Breifat am ei fenter Cyflog Byw Gwirioneddol.

- **Cynnydd yn Nifer y Cyflogwyr Cyflog Byw Gwirioneddol:** Ar ddiwedd mis Mawrth 2022, cafodd 164 o gyflogwyr eu hachredu'n gyflogwyr Cyflog Byw Gwirioneddol yng Nghaerdydd, sy'n uwch na'r targed o 150 cyn mis Mai 2022.
- **Cynnydd yn Nifer y Cyflogeion sy'n Ennill y Cyflog Byw Gwirioneddol:** Mae'r Cyngor wedi bod yn gweithio'n llwyddiannus gyda sefydliadau'r trydydd sector a chyflogwyr mawr eraill fel rhan o Bartneriaeth Dinas Cyflog Byw Caerdydd er mwyn sicrhau mwy o swyddi yn y ddinas sy'n talu'r Cyflog Byw Gwirioneddol ac yn annog cyflogwyr i gael eu hachredu'n Gyflogwyr Cyflog Byw. Mae hyn wedi cyfrannu at y sefyllfa lle mae gan Gaerdydd y cyfrannau isaf o swyddi (11.6%; 24,000 o swyddi) sy'n talu islaw'r Cyflog Byw Gwirioneddol ymhlith dinasoedd mawr Cymru a Lloegr yn 2021, o'i chymharu ag 20.7% (42,000 o swyddi) yn 2017.
- **Adeiladau Cyflog Byw:** Mae'r ddau adeilad Cyflog Byw cyntaf yng Nghymru ill dau yng Nghaerdydd, gyda mwy yn yr arfaeth. Y cyntaf oedd adeilad Sbarc Prifysgol Caerdydd a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf. Mae'r adeilad arall yn y ddinas yn gartref i nifer o gyflogwyr, gan gynnwys Cynnal Cymru – corff achredu swyddogol y Cyflog Byw Gwirioneddol yng Nghymru.

### Ymgorffori ein dull newydd o fynd i'r afael â digartrefedd a rhoi terfyn ar gysgu ar y stryd

- **Strategaeth Rhaglen Cymorth Tai 2022-2026:** Cafodd y strategaeth newydd hon ei chymeradwyo gan y Cabinet ym mis Ionawr 2022. Mae'n seiliedig ar weledigaeth y Cyngor, sef dylid atal digartrefedd lle bynnag y bo modd a phan nad yw hynny'n bosibl, dylai profiadau o ddigartrefedd fod yn brin ac yn fyrhoedlog ac ni ddylent gael eu hailadrodd. Mae'r nodau allweddol yn cynnwys ymrwymiad i sicrhau bod pawb yn cael y cymorth a'r gefnogaeth gywir i fynd i'r afael â'u digartrefedd gan gynnwys cymorth i fynd i'r afael ag unrhyw faterion sylfaenol, gyda'r bwriad o ailgartrefu pobl ddigartref yn gyflym a lleihau'r amser a dreulir mewn llety dros dro wrth gynnig llety â chymorth o ansawdd da i'r rheiny sydd ei angen hefyd.
- **Lefelau Cysgu ar y Stryd:** Er bod un person sy'n cysgu ar y stryd yn un person yn ormod, mae nifer y rhai sy'n cysgu ar y stryd wedi aros yn isel. Roedd y ffigurau a gofnodwyd mor isel ag 11 yn ystod 2021/22 ac yn gyson is na 25, o'u cymharu â 130 cyn Covid.
- **Cynlluniau Tai Arbenigol a Thai Cymorth:** Mae nifer o gynlluniau llety â chymorth yn cael eu datblygu i gefnogi teuluoedd ac unigolion digartref i ddod yn annibynnol fel rhan o'r dull 'Dim Mynd Nôl' y Cyngor. Mae Canolfan Digartrefedd Teuluol wedi agor yn Briardene, Gabalfa, gan ddarparu llety dros dro i deuluoedd a mynediad i amrywiaeth o wasanaethau gan gynnwys Cymorth Cynnar, ymweliadau iechyd a chymorth rhianta. Mae cam cyntaf y Ganolfan Digartrefedd Teuluol ar safle'r gwaith nwy wedi'i gwblhau a bydd trydedd ganolfan yn agor y flwyddyn nesaf yn Harrison Drive yn Trowbridge. Mae cam 1 cynllun Adams Court i ddarparu llety cymorth i bobl sengl bellach wedi'i gwblhau gyda disgwyl i gam 2 gael ei weithredu'n ddiweddarach yn yr haf.
- **Canolfan Asesu Pobl Sengl Newydd:** Dechreuodd proses newydd ar gyfer asesu anghenion pobl sengl ddigartref ar ddechrau Mehefin 2021 pan agorodd y Ganolfan Asesu newydd. Roedd hyn wedi arwain at gymorth amlddisgyblaeth cryf i bobl ddigartref ag anghenion cymhleth, a gweithredu cyflym, pendant i'r rhai oedd ag anghenion isel. Ers mis Ebrill 2021 mae 213 o achosion cadarnhaol lle mae pobl wedi symud o'r llwybr anghenion isel i lety parhaol gydag ychydig llai na hanner (44%; 93) wedi symud i lety

yn y sector rhent preifat. Mae cyfradd yr achosion cadarnhaol o symud ymlaen o'r llwybr anghenion isel yn cefnogi'r farn bod y broses newydd hon wedi bod yn effeithiol wrth gefnogi cleientiaid i osgoi'r dull 'grisiau' traddodiadol ac mae hyn yn cefnogi pontio'n gyflym i dai parhaol.

## Heriau a Risgiau

- **Yr Argyfwng Costau Byw:** Mae'r cynnydd dramatig yng nghost biliau cyfleustodau, petrol a hanfodion dyddiol megis bwyd wedi rhoi pwysau sylweddol ar ddinasyddion sydd eisoes yn agored i niwed. Mae'r risgiau cysylltiedig yn sylweddol, a rhagwelir y bydd dyledion, gan gynnwys ôl-ddyledion rhent, yn cynyddu. Mae'r grant Taliad Tai yn ôl Disgresiwn wedi lleihau, gan roi llai o gyfle i'r Cyngor gefnogi'r rhai mwyaf agored i niwed. Wrth symud ymlaen, efallai y bydd angen ystyried dyrannu cymorth i sicrhau bod y rhai mwyaf agored i niwed yn cael eu cynorthwyo i ddiwallu'r diffyg yn eu hatebolrwydd rhent. Mae cymorth ychwanegol yn cael ei ddarparu, gyda Hyrwyddwyr Tanwydd a Thlodi Bwyd penodol yn cael eu defnyddio ar draws Hybiau Cymunedol i roi cyngor a chymorth i bobl sy'n ei chael hi'n anodd gyda chostau cynyddol. Bydd holl staff Cynghori a Hybiau'n cael hyfforddiant penodol i gefnogi cwsmeriaid, ond bydd Hyrwyddwyr ar gael ym mhob un o'r Hybiau i roi cyngor ar nifer o gynlluniau. Ar gyfer ymholiadau mwy cymhleth, bydd yr Hyrwyddwyr yn gweithio'n agos gyda'r Tîm Cyngor Ariannol a Chyngor ar Bopeth, ac yn atgyfeirio am gymorth bellach lle bo angen. Bydd yr Hyrwyddwyr newydd hefyd yn gweithio'n agos gyda'r Tîm Dysgu Oedolion i atgyfeirio am gymorth cynhwysiant digidol lle bo hynny'n briodol.
- **Tynnu Arian Ewropeaidd:** Bydd prosiectau cyflogaeth y Gwasanaeth i Mewn i Waith a ariennir trwy Gronfa Gymdeithasol Ewrop (CGE), yn dod i ben yn hydref 2022, ar ôl i'r DU adael yr Undeb Ewropeaidd. Ar hyn o bryd mae'r gwasanaeth yn darparu pedwar prosiect CGE hirsefydlog llwyddiannus i rai o'r bobl fwyaf agored i niwed yn y gymdeithas, sy'n creu cyfanswm incwm o ychydig dros £1.1 miliwn bob blwyddyn. Yn ddiweddar mae Llywodraeth Ganolog y DU wedi cyhoeddi y bydd y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn cymryd lle, yn rhannol, y bwlch a gaiff ei adael gan gyllid CGE. Fodd bynnag, nid yw gwerth y cyllid wedi'i gadarnhau hyd yma, a allai beryglu darpariaeth cyflogaeth. Pan ddaw'r pedwar prosiect CGE i ben, mae'n hanfodol bod y cleientiaid yr effeithir arnynt yn cael eu trosglwyddo'n ddidrafferth i brosiectau i Mewn i Waith eraill.
- **Trosglwyddo i Gredyd Cynhwysol:** O haf 2022 ymlaen, bydd gweddill y ceisiadau am Fudd-dal Tai yn dechrau trosglwyddo i Gredyd Cynhwysol. Gallai hyn gael effaith bosibl ar ôl-ddyledion rhent y Cyngor gan fod Budd-dal Tai yn cael ei gredydu'n awtomatig i gyfrifon rhent, ond yn gyffredinol telir Credyd Cynhwysol yn uniongyrchol i'r cwsmer. Bydd y Tîm Cyngor Ariannol a'r Llinell Gyngor yn parhau i sicrhau bod cymorth ar gael yn eang i gynorthwyo cwsmeriaid gyda'r broses drosglwyddo.
- **Atal Digartrefedd a Mwy o Bwysau ar Wasanaethau Digartrefedd:** Mae cryn waith wedi'i wneud i atal digartrefedd yn y ddinas ac i gefnogi'r rhai sy'n dod yn ddigartref. Fodd bynnag, ceir rhwystrau mawr o hyd. Bydd effaith economaidd y pandemig, yr argyfwng costau byw sy'n effeithio ar gyllidebau cartrefi, cost uchel tai a'r chwyddiant sylweddol o fewn y farchnad rhentu yn heriau aruthrol. Yn fwy sylfaenol, er gwaethaf un o'r rhaglenni adeiladu tai mwyaf yn y DU, mae argaeledd tai yn rhwystr sylweddol i ddarparu gwasanaethau effeithiol.

## Edrych Ymlaen: Meysydd Ffocws

### Cefnogi'r rhai yr effeithir arnynt fwyaf gan yr argyfwng economaidd i fynd i mewn i waith, addysg neu hyfforddiant

Bydd effaith yr argyfwng costau byw yn cael ei theimlo gan holl ddinasyddion a chymunedau Caerdydd, gyda'r rhai mwyaf agored i niwed yn teimlo effaith y costau cynyddol fwyaf, gyda chostau ynni cynyddol a thlodi tanwydd yn bryder difrifol. Felly, bydd datblygu ymateb ar draws y Cyngor i'r argyfwng costau byw yn flaenoriaeth strategol i'r Cyngor yn 2022/23.

Er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r heriau yn y farchnad lafur, bydd ein Gwasanaeth i Mewn i Waith yn parhau i ddod â chyflogwyr a gweithwyr posibl â sgiliau addas ynghyd. Trwy weithio gyda chyflogwyr i nodi sgiliau y mae galw amdanynt, gall y Gwasanaeth sicrhau bod cyrsiau hyfforddiant perthnasol yn cael eu cynnig ar yr adeg iawn ac yn y sectorau iawn.

### Parhau â'n huchelgais Dinas Cyflog Byw

Bydd y Cyngor yn parhau i arwain wrth greu Dinas Cyflog Byw trwy annog a chefnogi sefydliadau i ddod yn gyflogwyr Cyflog Byw achrededig. Bydd Cynllun Gweithredu Dinas Cyflog Byw yn cael ei adolygu gan Bartneriaeth Dinas Cyflog Byw Caerdydd ar ôl cyflawni'n llawn y targedau a osodwyd ar gyfer 2022.

### Ymgorffori ein dull newydd o fynd i'r afael â digartrefedd a rhoi terfyn ar gysgu ar y stryd

Gan adeiladu ar fodel 'Dim Mynd Nôl', bydd Strategaeth newydd y Rhaglen Cymorth Tai yn rhoi un golwg strategol ar ddull y Cyngor o ymdrin ag atal digartrefedd a gwasanaethau cymorth tai. Bydd meysydd gwaith allweddol wrth symud ymlaen yn cynnwys darparu llety brys ychwanegol, creu cynllun ailgartrefu cyflym yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru a datblygu cynlluniau prydlesu a darpariaeth symud ymlaen.


Yr The hyb
Yr The hyb

# Amcan Lles 4:
# Cymunedau diogel, hyderus a grymus

### Ein blaenoriaethau ar gyfer 2021/22 oedd:

- **Adeiladu cartrefi cyngor newydd a buddsoddi mewn cyfleusterau cymunedol**
- **Sicrhau y diogelir plant ac oedolion rhag y risg o niwed a cham-drin**
- **Creu cymunedau diogel a chynhwysol**
- **Hyrwyddo'r Gymraeg**
- **Gweithio gyda'n gilydd i gefnogi poblogaeth iachach a mwy gweithgar**

## Asesiad Strategol

Mae'r Cyngor wedi cynnal momentwm yn ei raglenni adeiladu tai, adfywio cymdogaethau a hybiau cymunedol, gan fwrw targedau ar gyfer cartrefi newydd a chwblhau nifer o gynlluniau cymunedol pwysig. Fodd bynnag, mae'r pwysau ar y farchnad dai, yn enwedig cost a diffyg argaeledd cartrefi yn y sector rhent preifat, yn achosi pwysau sylweddol o ran galw a chostau ar draws nifer o wasanaethau'r Cyngor. Fel mewn rhannau eraill o'r Cyngor, mae cyfraddau chwyddiant cynyddol yn effeithio ar raglen adfywio cymdogaethau'r Cyngor a gellir disgwyl i'r argyfwng ynni sy'n dod i'r amlwg effeithio ar gynaliadwyedd gwasanaethau cymunedol, gan gynnwys y contract gwasanaethau hamdden gyda GLL.

Cafodd agwedd bartneriaeth y ddinas at ddiogelwch cymunedol a mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, trais ieuenctid a chamfanteisio ar bobl ifanc ei chryfhau ymhellach yn 2021/22, gan arwain at gydweithio gweithredol amlach ar sail gwybodaeth a data rhwng y Cyngor a Heddlu De Cymru. Bydd y dull partneriaeth hwn yn cael ei ehangu yn 2022/23 i fynd i'r afael â mannau poblogaidd ym maes ymddygiad gwrthgymdeithasol ac atal pobl, yn enwedig pobl ifanc, rhag cymryd rhan mewn troseddu neu fod yn destun camfanteisio gan droseddwyr.

Yn 2021/22, arweiniodd y Cyngor ddull partneriaeth o ymdrin ag argyfyngau Ffoaduriaid Affganistan ac Wcráin yn effeithiol, gan sicrhau bod ffoaduriaid yn y ddau achos wedi cael eu croesawu, wedi cael lle i aros a bod gwasanaethau cyhoeddus ehangach y ddinas ar gael ac yn barod i'w cefnogi. Oherwydd nifer y bobl sydd wedi cyrraedd a natur eu hanghenion sy'n gymhleth yn aml, mae'r galw'n cael ei deimlo ar draws y system gwasanaethau cyhoeddus. Gydag ymfudo rhyngwladol oherwydd gwrthdaro a'r newid yn yr hinsawdd yn debygol o gynyddu dros y blynyddoedd i ddod, mae croesawu a chefnogi ffoaduriaid yn fater a fydd yn dod yn fwyfwy pwysig, a bydd angen i Gaerdydd barhau i chwarae rôl arweiniol fel pwynt cyrraedd Cymru, gan weithio mewn partneriaeth weithredol â llywodraethau'r DU a Chymru, ac awdurdodau lleol cyfagos.

## Llwyddiannau Allweddol

### Adeiladu cartrefi cyngor newydd a buddsoddi mewn cyfleusterau cymunedol

- **Cartrefi cyngor newydd**: Fel rhan o raglen gwerth £1 biliwn dan arweiniad y Cyngor i adeiladu 4,000 o gartrefi dros ddeng mlynedd, mae 683 o'r 1,000 o gartrefi cyntaf bellach wedi cael eu hadeiladu, gyda 131 wedi'u cwblhau eleni er gwaethaf problemau yn y gadwyn gyflenwi a'r cynnydd yng nghostau deunyddiau.
- **Datblygu ac Adfywio**: Mae amrywiaeth eang o gynlluniau datblygu ac adfywio'n cael eu dylunio a'u cyflwyno gyda phartneriaid i drawsnewid cymdogaethau, cefnogi economïau lleol a darparu cartrefi carbon isel. Dengys canlyniadau arolygon fod 90 % o drigolion yn fodlon ar brosiectau adfywio sydd wedi'u cwblhau hyd yma.
  - **Ailddatblygu Maelfa:** Mae cwblhau'r cynllun hwn wedi trawsnewid yr ardal trwy ddarparu canolfan siopa newydd a modern, cartrefi newydd fforddiadwy, a gwelliannau i'r seilwaith a'r amgylchedd.
  - **Trem y Môr:** Rhoddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer y cynllun £85 miliwn hwn a fydd yn darparu mwy na 350 o gartrefi carbon isel, gan gynnig cartrefi ynni-effeithlon a chynaliadwy newydd i bob preswylydd presennol ar ystâd Trem y Môr gyda gwell cysylltedd a mynediad i fannau gwyrdd.
  - **Llwyn Aethnen yn Nhredelerch:** Mae'r datblygiad arloesol hwn o 214 o gartrefi carbon isel, ynni-effeithlon ar safle hen Ysgol Uwchradd y Dwyrain wedi derbyn un o wobrau nodedig y DU am ei chynaliadwyedd, gwydnwch hinsawdd ac ôl troed carbon isel.
  - **Cynlluniau Adfywio Ystadau:** Mae gwaith wedi parhau ar gynlluniau adfywio ystadau Llanrhymni Isaf, Roundwood a Pennsylvania i ddarparu amgylcheddau mwy diogel a mwy deniadol, gan wella ansawdd bywyd i drigolion. Mae cynlluniau bellach yn cael eu datblygu ar gyfer Lincoln Court yn Llanedeyrn a Trowbridge Green.
  - **Buddsoddiad yng Nghoridor Busnes De Glan-yr-afon:** Mae'r prosiect adfywio sylweddol hwn, gyda chymorth cyllid Rhaglen Targedu Buddsoddiad mewn Adfywio (TRIP) gan Lywodraeth Cymru, yn mynd yn ei flaen yn dda gyda phob un o bedwar cam y gwaith i wella blaenau'r siopau ar fin cael ei gwblhau a disgwylir i'r gwaith i'r ardal gyhoeddus gael ei gwblhau yn haf 2022. Bydd y cynllun yn cynnwys buddsoddiad o dros £4 miliwn yn Stryd Tudor i wneud gwelliannau i'r amgylchedd busnes a'r seilwaith trafnidiaeth, yn ogystal ag adfywio 30 o adeiladau busnes.
- **Cartrefi Gwag**: Mabwysiadwyd Polisi Cartrefi Gwag Sector Preifat newydd ar gyfer 2021-24 ym mis Rhagfyr 2021. Mae'r polisi yn amlinellu'r cymorth y gellir ei gynnig i berchnogion i'w hannog i ddod ag eiddo yn ôl i ddefnydd yn ogystal â'r offer gorfodi sydd ar gael os bydd cyngor a chymorth yn methu. Dychwelwyd cyfanswm o 84 eiddo i ddefnydd neu crëwyd unedau newydd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.
- **Hybiau Cymunedol**: Mae rhwydwaith y Cyngor o Hybiau Cymunedol ar draws y ddinas yn parhau i gael ei wella a'i ehangu:

- Mae **Hwb Creadigol Butetown** wedi cael ei agor i gefnogi pobl ifanc i fynd i'r sector creadigol.
- **Mae Hybiau Cymunedol yn yr Eglwys Newydd a Rhydypennau wedi cael eu hadnewyddu,** gan gyflwyno gwasanaethau ychwanegol a gwell ar gyfer y cymunedau hyn.
- Mae **prosiect partneriaeth Ysbyty Brenhinol Caerdydd (YBC)** sy'n darparu cyfleusterau iechyd a lles i drigolion de a dwyrain Caerdydd wedi'i gwblhau. Mae cynnydd hefyd yn cael ei wneud ar Hybiau Iechyd a Lles ar gyfer Maelfa yn Llanedern a Parkview yn Nhrelái mewn partneriaeth â'r Bwrdd Iechyd. Roedd 97% o'r ymatebwyr mewn arolwg cwsmeriaid diweddar yn cytuno bod y gwasanaethau a ddarperir gan Hybiau'n diwallu eu hanghenion.
- Mae gan y **wefan newydd a sefydlwyd i wella mynediad i wasanaethau Hybiau** – gan gynnwys Dysgu Oedolion, Gwasanaethau iMewn i Waith a'r Gwasanaeth Cymorth Lles newydd – dros 3,000 o ddefnyddwyr erbyn hyn.

### Sicrhau y diogelir plant ac oedolion rhag y risg o niwed a cham-drin

- **Ymarfer sy'n Seiliedig ar Gryfderau ac Arwyddion Diogelwch:** Mae'r Uned Hyfforddi Gofal Cymdeithasol yn cyflwyno rhaglen hyfforddi newydd i ymgorffori ymarfer sy'n seiliedig ar gryfderau ac Arwyddion Diogelwch o fewn gwaith cymdeithasol rheng flaen a thimau ataliol.
- **Mynd i'r afael â Thrais a Chamfanteisio Ieuenctid:** Mae Bwrdd Dinas sy'n Dda i Blant wedi cael ei sefydlu er mwyn bwrw ymlaen ag adferiad sy'n gyfeillgar i blant Caerdydd yn sgil y pandemig. Un o'r prif flaenoriaethau yw datblygu strategaeth diogelu cyd-destunol gadarn i fynd i'r afael ag achosion a chanlyniadau trais a chamfanteisio ieuenctid. Cafodd y model SAFE (Diogelu Oedolion Rhag Camfanteisio), dull amlasiantaethol o ddiogelu a rheoli risg cyd-destunol, ei dreialu yn 2021 a chaiff ei fabwysiadu ar draws y ddinas wrth symud ymlaen, er mwyn ymateb yn rhagweithiol i gamfanteisio.

### Creu cymunedau diogel a chynhwysol

- **Diogelwch Cymunedol ac Atal Trais:** Mae Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Caerdydd wedi sefydlu Grŵp Atal Trais sy'n canolbwyntio ar atal trais difrifol a'i leihau trwy fabwysiadu dull iechyd cyhoeddus i ddeall achosion a chanlyniadau trais difrifol. Er mwyn llywio datblygiad Strategaeth Atal Trais, crëwyd dangosfwrdd gwybodaeth gan ddefnyddio data'r heddlu, sy'n darparu gwybodaeth ddaearyddol a thueddiadau i nodi materion sy'n dod i'r amlwg.
- **Cronfa Strydoedd Saffach:** Cafodd cais Caerdydd i'r Swyddfa Gartref am £432,000 o arian Strydoedd Saffach ei ddyfarnu'n llawn. Defnyddiwyd y cyllid i wella goleuadau stryd a gosod 20 camera cylch cyfyng a mesurau diogelwch eraill i fynd i'r afael â lefelau uchel o droseddau meddiangar mewn rhannau o'r ddinas. Mae'r gwelliannau wedi cael effaith uniongyrchol ar lefelau troseddau a'r nifer sy'n adrodd am droseddau ac maent wedi cael croeso cadarnhaol gan drigolion gyda dros 2,300 o negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol.
- **Tasglu Cydraddoldeb Hiliol:** Ym mis Mawrth fe wnaeth y Pwyllgor Craffu Adolygu Polisi a Pherfformiad, y Cabinet a'r Cyngor Llawn oll dderbyn adroddiad y Tasglu Cydraddoldeb Hiliol, a oedd yn cynnwys argymhellion i hyrwyddo cydraddoldeb hiliol yng Nghaerdydd.

- **Ymateb i Argyfwng Ffoaduriaid Affganistan:** Darparwyd cymorth cynhwysfawr i dderbyn ffoaduriaid o Affganistan yn hydref a gaeaf 2021/22, gan gynnwys mynediad i wiriadau iechyd, addysg, dosbarthiadau Saesneg a Chymraeg, cymorth cyflogaeth ac amrywiaeth o weithgareddau a ddarperir gan staff partneriaeth a gwirfoddolwyr. Mae nifer o deuluoedd bellach wedi'u paru â'u cartrefi hirdymor a thynnwyd sylw at gyfraniad Caerdydd at yr ymdrech ar draws y wlad, mewn partneriaeth â'r Urdd, ar Newyddion Channel 4 ac fel rhan o raglen ddogfen Cymraeg S4C am brofiadau ffoaduriaid a cheiswyr lloches yng Nghymru. Mae Caerdydd hefyd wedi darparu cymorth addysgol hynod effeithiol i ffoaduriaid gan gynnwys cyfleoedd dysgu a darparu lleoedd mewn ysgolion ar gyfer plant sydd newydd gyrraedd. Amlygwyd y maes hwn fel maes arfer da yn Adroddiad Arolwg Estyn ym mis Chwefror 2022.

### Hyrwyddo'r Gymraeg

- **Caerdydd Ddwyieithog:** Cyhoeddwyd Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog 2022-2027 y Cyngor a Chynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2022-2032. Mae'r camau gweithredu'n cynnwys sefydlu fforwm ieuenctid i gyflwyno digwyddiadau Cymraeg, mentrau hyrwyddo gyda chymunedau amrywiol o ran lleiafrifoedd ethnig, codi ymwybyddiaeth o gyfleoedd cyflogaeth a llunio pecyn gwybodaeth sy'n manylu ar wasanaethau Cymraeg i unigolion a theuluoedd sy'n symud i'r ddinas.
- **Y Gymraeg a Recriwtio:** Cafodd Strategaeth Sgiliau Iaith Gymraeg ei diwygio a'i chyhoeddi yn 2021 er mwyn cynyddu nifer y swyddi a hysbysebir yng Nghyngor Caerdydd sy'n gofyn am Gymraeg fel gofyniad hanfodol neu ddymunol wrth recriwtio. Mae nodi'r Gymraeg fel 'gofyniad dymunol' yn ofyniad safonol erbyn hyn wrth hysbysebu cyfleoedd recriwtio ar gyfer pob swydd yn y Cyngor sy'n delio'n uniongyrchol â chwsmeriaid. Yn 2021/22, hysbysebwyd 67 o swyddi lle roedd y Gymraeg yn ofyniad hanfodol, a 648 o swyddi lle roedd y Gymraeg yn ofyniad dymunol. Mae hyn yn gynnydd o 158% mewn swyddi lle mae'r Gymraeg yn hanfodol a chynnydd o 108% mewn swyddi lle mae'r Gymraeg yn ddymunol o gymharu â ffigurau 2020/21.
- **Cyrsiau Cymraeg:** Mae modiwl e-ddysgu Cymraeg gorfodol wedi ei lansio i staff ynghyd ag ystod o gyrsiau hyfforddi iaith Gymraeg ar y cyd ag Academi'r Cyngor. Mae 838 o staff wedi cwblhau modiwl Cyflwyniad i'r Gymraeg Lefel 1 Academi Caerdydd, sef y cwrs mynediad i staff sy'n dymuno dysgu'r iaith.

### Gweithio gyda'n gilydd i gefnogi poblogaeth iachach a mwy gweithgar

- **Cefnogi Poblogaeth Iachach a Mwy Heini:** Mae'r cynllun 'Symud Mwy, Bwyta'n Dda' wedi alinio strategaethau sy'n ymwneud â phwysau iach, bwyd, teithio llesol a gweithgarwch corfforol. Mae'r rhain yn cynnwys 'Strategaeth Bwyd Da 2021-2024' Bwyd Caerdydd a Strategaeth Gweithgarwch Corfforol a Chwaraeon Caerdydd 2022-27. Lansiodd y ddwy eleni.
- **Gwobrau'r Faner Werdd:** Mae 15 o barciau cyngor a mannau gwyrdd wedi derbyn statws Baner Werdd llawn gyda Gerddi Waterloo yn bodloni'r safon ryngwladol am y tro cyntaf. Cadwyd holl wobrau'r llynedd ar ôl cael eu dyfarnu'n annibynnol yn erbyn ystod o feini prawf llym gan gynnwys bioamrywiaeth, cynnwys y gymuned, glendid a rheolaeth amgylcheddol. Mae 19 o brosiectau hefyd wedi derbyn Gwobr Gymunedol y Faner Werdd. Mae lefelau gwirfoddoli wedi cynyddu eto ar ôl codi cyfyngiadau Covid-19 gyda gwirfoddolwyr yn ymrwymo dros 16,000 o oriau i gynnal parciau a mannau gwyrdd yn 2021/22.

- **Buddsoddi mewn Chwarae:** Yn 2021/22, buddsoddwyd dros £2.5m mewn ardaloedd ar gyfer chwarae, gan gynnwys meysydd chwarae ym Mharc Lascelles, Peppermint Drive, Parc Caedelyn, Creigiau a Glenmount Way gyda buddsoddiad pellach yn yr arfaeth ar gyfer 2022/23.
- **Cynyddu Canopi Coed Caerdydd:** Fel rhan o Strategaeth Caerdydd Un Blaned y Cyngor, mae 20,000 o goed wedi cael eu plannu ar draws y ddinas eleni, gan gynnwys 1,700 o goed ym Mharc Tremorfa ar gyfer dathliadau Jiwbilî Platinwm y Frenhines.

## Heriau a Risgiau

- **Effaith pwysau chwyddiant ar gynlluniau datblygu:** Mae cyfraddau chwyddiant uchel a chynyddol yn cael effeithiau sylweddol ar y sector adeiladu. Nid yn unig y mae deunyddiau hanfodol a llafur medrus yn llawer drutach, ond mae pwysau ar gadwyni cyflenwi a phrinder deunyddiau'n ei gwneud hi'n anodd sicrhau deunyddiau adeiladu. Ar draws y DU, mae'r cyfuniad heriol hwn yn arwain at oedi wrth gyflwyno cynlluniau mawr, ac mae disgwyl i hynny barhau yn y dyfodol agos. Mae amodau presennol y farchnad eisoes yn effeithio ar gynlluniau'r Cyngor, sy'n ei gwneud yn hollbwysig rheoli amserlenni a chostau rhaglenni yn fanwl.
- **Argaeledd tai fforddiadwy:** Mae'r pwysau ym marchnad dai'r ddinas yn arwain at ddiffyg llety fforddiadwy, yn enwedig yn y sector rhent preifat lle mae prinder cartrefi a lle mae'r cynnydd mewn rhent yn uwch na'r Lwfans Tai Lleol (yr uchafswm y gellir ei hawlio mewn budd-dal). Mae nifer y bobl mewn llety dros dro yng Nghaerdydd wedi tyfu'n sylweddol (dros 1,400 o bobl), ac mae'r effaith hefyd yn cael ei theimlo ar draws amrywiaeth o wasanaethau'r Cyngor sy'n dibynnu ar argaeledd tai, gan gynnwys ffoaduriaid a cheiswyr lloches a gosod plant agored i niwed mewn gofal. Gellir disgwyl i effaith yr argyfwng costau byw a chyrhaeddiad niferoedd sylweddol o ffoaduriaid ychwanegol o Wcráin roi pwysau pellach ar argaeledd tai fforddiadwy yn 2022/23.
- **Trefniadau diogelwch tân mewn adeiladau sy'n eiddo i'r Cyngor:** Mewn ymateb i'r digwyddiad difrifol yn Nhŵr Grenfell yn Llundain, mae'r Cyngor yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru a rheoleiddwyr eraill i sicrhau bod unrhyw ganllawiau wedi'u diweddaru yn cael eu hystyried wrth archwilio unrhyw effaith ar adeiladau perthnasol ar draws ystâd y Cyngor cyfan. Mae'r Cyngor wedi cynnal profion ychwanegol, y tu hwnt i'r adolygiad cychwynnol o gladin ACM, a nododd fod chwe bloc yn methu'r safonau presennol. Rhoddwyd camau gweithredu ar waith ar unwaith yn dilyn canlyniadau'r profion ychwanegol, gan gynnwys patrolau wardeiniaid tân ddydd a nos a gosod larymau mwg ym mhob fflat. Bydd gwaith i dynnu cladin, sy'n cael ei lywio gan y gwaith sampl a wnaed, yn cael ei gyflawni yn ogystal â mesurau rhagofalus eraill.

- **Mynd i'r afael â thrais a chamfanteisio ieuenctid:** Er nad yw'n gyffredin, mae difrifoldeb troseddau sy'n cael eu cyflawni gan blant a phobl ifanc, yn enwedig mewn perthynas â thrais ieuenctid difrifol, yn cynyddu. Un o'r prif flaenoriaethau yw datblygu strategaeth diogelu cyd-destunol gadarn i fynd i'r afael ag achosion a chanlyniadau trais a chamfanteisio ieuenctid. Cafodd y model SAFE (Diogelu Oedolion Rhag Camfanteisio), dull amlasiantaethol o ddiogelu a rheoli risg cyd-destunol, ei dreialu yn 2021 a chaiff ei fabwysiadu ar draws y ddinas wrth symud ymlaen, er mwyn ymateb yn rhagweithiol i gamfanteisio.
- **Gwella canfyddiadau o ddiogelwch a mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol:** Yn Arolwg Holi Caerdydd 2021, cytunodd ychydig dros un rhan o bump o'r ymatebwyr fod gwasanaethau cyhoeddus yn llwyddo i ddelio ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a throsedd yn eu hardal leol. Er bod gan Gaerdydd y gyfradd troseddu gyffredinol isaf ond un, o'i chymharu â dinasoedd mawr y DU, mae ofn troseddu yn cynyddu wrth i Gaerdydd ostwng am y tro cyntaf ers tair blynedd yn is na chyfartaledd Cymru o ran pobl yn teimlo'n ddiogel wrth gerdded yn eu hardal leol ac wrth deithio (Arolwg Cenedlaethol Cymru 2020/21). Fodd bynnag, mae llwyddiant sylweddol eleni trwy waith Grŵp Partneriaeth Datrys Problemau Diogelwch Cymunedol newydd Caerdydd a gwelliannau i ddarpariaeth teledu cylch cyfyng a goleuadau stryd/danffordd yn Butetown, Grangetown ac Adamsdown yn sgil ennill cyllid Strydoedd Saffach.
- **Atgyfeiriadau Cam-drin Domestig:** Mae gwasanaeth cymorth i deuluoedd RISE wedi gweld cynnydd cyson yn nifer yr atgyfeiriadau risg uchel a gafwyd. Ar ôl cael ei atgyfeirio, dylai'r dioddefwr gysylltu â'r gwasanaethau arbenigol o fewn un diwrnod calendr. Mae bwrw'r targed hwn wedi bod yn anodd oherwydd prinder staff. Yn Chwarter 4, gwnaed cyswllt o fewn un diwrnod calendr ar gyfer 77% o atgyfeiriadau o gymharu â'r targed o 90%, sy'n welliant ar 69% yn Chwarter 3.
- **Cynlluniau Ailsefydlu Ffoaduriaid:** Er bod ymateb Caerdydd i gynllun ailsefydlu Wcreiniaid wedi bod yn gyflym ac yn effeithiol, mae pwysau dybryd yn parhau. Mae sicrhau bod llety pontio ar gael ar gyfer ffoaduriaid o Affganistan yn parhau i fod yn flaenoriaeth, yn ogystal â darparu mesurau sicrwydd effeithiol yn barhaus sy'n ymwneud ag amddiffyn, iechyd a diogelwch a monitro gweithgarwch asgell dde eithafol. Mae'r risgiau hyn yn cael eu rheoli ar hyn o bryd trwy gyfarfodydd grŵp gweithredol amlasiantaethol wythnosol. Mae'r nifer anghymesur sy'n cael cymorth yng Nghaerdydd yn gofyn am fwy o lety i gael ei ddarparu ledled Cymru. Yn ogystal, mae sicrhau adferiad costau llawn ar gyfer darparu cymorth yng Nghaerdydd wedi'i nodi fel risg ariannol sy'n dod i'r amlwg. Mae'r rhaglen waith hon yn rhan o ymateb ehangach y Cyngor i ffoaduriaid sy'n cynnwys pobl sydd wedi ffoi o Affghanistan ac Wcráin.
- **Cynaliadwyedd y Contract Gwasanaethau Hamdden gyda GLL:** Mae arwyddion cadarnhaol o adferiad ar draws busnes GLL yn y DU gyda Chaerdydd yn profi'r un peth, a cheir arwyddion cynnar bod presenoldeb yn dychwelyd i'r arfer. Fodd bynnag, mae risgiau'n parhau o ran cynaliadwyedd hirdymor y contract gan gynnwys y risg a achosir gan brisiau ynni cynyddol. Bydd y broses o drosglwyddo Canolfan Hamdden Pentwyn i Gleision Caerdydd yn cael ei chwblhau yn ystod 2022/23 a bydd cais cynllunio i wneud gwaith adnewyddu sylweddol ar y ganolfan, gan gynnwys adeiladu pwll nofio newydd, campfa, cae chwarae 3G a chaffi, yn cael ei gyflwyno.

## Edrych Ymlaen: Meysydd Ffocws

### Adeiladu cartrefi cyngor newydd a buddsoddi mewn cyfleusterau cymunedol

Bydd y Cyngor yn parhau i fwrw ymlaen â'r rhaglen newydd ar gyfer adeiladu tai gan sicrhau bod cartrefi carbon isel ac ynni-effeithlon newydd yn cael eu darparu mewn niferoedd helaeth ac yn gyflym. Bydd y Cyngor hefyd yn datblygu Strategaeth Adfywio newydd i gefnogi canolfannau ardal a lleol a gweithredu 'egwyddorion dinas 15 munud' i wella mynediad i wasanaethau, cynyddu teithio llesol a chryfhau'r cysylltiadau rhwng cymunedau.

### Sicrhau y diogelir plant ac oedolion rhag y risg o niwed a cham-drin

Er mwyn mynd i'r afael â'r cynnydd mewn ymddygiad ieuenctid treisgar, bydd y model Diogelu Pobl Ifanc rhag Camfanteisio (SAFE) – gan weithio mewn partneriaeth agos â'r heddlu, y gwasanaeth prawf, ac asiantaethau eraill ac ar ôl cwblhau cynllun peilot llwyddiannus – yn cael ei gyflwyno ledled y ddinas.

### Creu cymunedau diogel a chynhwysol

Bydd Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Caerdydd yn parhau i ganolbwyntio ar ei blaenoriaethau sefydledig, gan gynnwys ymdrin â ffyrdd o fyw ar y stryd, anghenion cymhleth a thrais mewn cymunedau, yn ogystal â chyflwyno mwy o ymatebion wedi'u targedu i ddatrys problemau i ymddygiad gwrthgymdeithasol. Fel rhan o'r gwaith hwn, caiff Strategaeth Atal Trais statudol newydd ei datblygu gyda phartneriaid, gan ganolbwyntio ar feithrin gwybodaeth leol, diogelu'r rhai sy'n agored i niwed, targedu troseddwyr treisgar, a datblygu dull ataliol o ymdrin â thrais difrifol.

Bydd y Cabinet yn ymateb yn ffurfiol i'r argymhellion a wnaed yn adroddiad y Tasglu Cydraddoldeb Hiliol ym mis Rhagfyr. Mae cynllun gweithredu drafft yn cael ei lunio er mwyn gweithredu'r argymhellion. Mae'r Tasglu wedi cael cais i ymgynnull eto'r flwyddyn nesaf er mwyn asesu'r cynnydd a wnaed.

Bydd angen i'r Cyngor adeiladu ar y dull o ymdrin ag argyfwng ffoaduriaid Affganistan, gan chwarae rôl arweiniol gweithgar ledled y ddinas a Chymru mewn ymateb i argyfwng y ffoaduriaid yn sgil y rhyfel yn Wcráin, lle bydd nifer y bobl sy'n cyrraedd, a natur gymhleth eu hanghenion, yn gosod pwysau ar draws y system gwasanaethau cyhoeddus.

### Hyrwyddo'r Gymraeg

Dros y flwyddyn i ddod, bydd y Cyngor yn bwrw ymlaen â Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog newydd y Cyngor ar gyfer 2022-2027 a'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2022-2032 i gefnogi'r weledigaeth ar gyfer gwneud Caerdydd yn brifddinas wirioneddol ddwyieithog i Gymru, yn ogystal â'r targed cenedlaethol i ddyblu nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd erbyn 2050.

## Gweithio gyda'n gilydd i gefnogi poblogaeth iachach a mwy gweithgar

Gan weithio gyda phartneriaid, bydd y Cyngor yn cefnogi'r gwaith o gyflwyno cynllun 'Symud Mwy, Bwyta'n Dda' i hyrwyddo pwysau iach, bwyd iach, teithio llesol a gweithgarwch corfforol. Fel rhan o'r dull hwn, bydd y Cyngor yn sicrhau bod hyn yn cyd-fynd â strategaethau mawr eraill, fel 'Strategaeth Bwyd Da 2021-2024' Bwyd Caerdydd a 'Strategaeth Gweithgarwch Corfforol a Chwaraeon 2022-2027'. Yn ogystal, bydd cynnal ansawdd ein parciau a'n mannau gwyrdd arobryn yn parhau i chwarae rhan allweddol yn iechyd a lles meddyliol ein trigolion. Bydd adolygiad o'r Contract Gwasanaethau Hamdden gyda GLL hefyd yn cael ei gynnal i ddatblygu cynigion hirdymor ar gyfer gwasanaeth effeithiol a chynaliadwy ar sail adolygiad o'r model gweithredu presennol, rheoli contractau a chynaliadwyedd ariannol y contract.

Yn fwy bras, bydd gwaith y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir yn parhau i chwarae rhan hanfodol wrth sicrhau iechyd y cyhoedd a diogelwch y cyhoedd. Wedi chwarae rhan hanfodol wrth ymateb i argyfwng Covid-19, mae'r gwasanaeth bellach yn canolbwyntio o'r newydd ar ddarpariaeth fusnes graidd yng nghyd-destun pwysau cynyddol y galw a chymorth rheoli pandemig parhaus. Bydd arbenigedd y gwasanaeth yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol fel rhan o ddull partneriaeth cydlynol o ymdrin ag iechyd y cyhoedd a diogelu'r cyhoedd.



# Amcan Lles 5:
# Prifddinas sy'n gweithio dros Gymru

### Ein blaenoriaethau ar gyfer 2021/22 oedd:

- **Arwain yr adferiad economaidd yng Nghymru**
- **Arwain rhaglen adfer ar gyfer Canol y Ddinas a'r Bae**
- **Cefnogi arloesedd a datblygu busnes, gyda phecyn gwell o ymyriadau i helpu'r sectorau yr effeithiwyd arnynt waethaf gan y pandemig**
- **Cefnogi adferiad y Sector Diwylliannol a'r rhaglen digwyddiadau mawr**

## Asesiad Strategol

Yn ystod y pandemig, bu'r Cyngor yn gweithio mewn partneriaeth agos â'r sector preifat gan ddarparu cymorth sylweddol a rhagweithiol i fusnesau, gyda dros £130m o grantiau cymorth busnes yn cael eu gweinyddu'n uniongyrchol gan y Cyngor. Bu'r Cyngor hefyd yn gweithio gyda phartneriaid yn y sector preifat a'r sector cyhoeddus, y gymdeithas academaidd a'r gymdeithas ddinesig i ddatblygu strategaeth adfer newydd.

Mae rhaglen prosiectau mawr y Cyngor yn cefnogi'r adferiad economaidd, gyda chynlluniau megis y Sgwâr Canolog, y Cei Canolog a Chwr y Gamlas yn parhau ar y safle a phrosiect yr Arena Dan Do yn symud ymlaen i'w gwblhau. Fel gyda holl brosiectau rhaglen gyfalaf y Cyngor, mae chwyddiant costau, yn enwedig deunyddiau adeiladu a llafur, yn risg y bydd angen ei rheoli'n weithredol yn ystod y flwyddyn. Yn fwy bras, mae canol y ddinas wedi dychwelyd yn ôl i'r arfer, gyda nifer yr ymwelwyr yn dychwelyd i'r lefelau a gafwyd cyn y pandemig a digwyddiadau byw a'r sîn ddiwylliannol a cherddoriaeth yn gwella. Fodd bynnag, bydd angen monitro presenoldeb yn lleoliadau'r Cyngor yn ofalus dros y flwyddyn i sicrhau bod y lleoliadau'n cyrraedd targedau incwm.

Mae'r argyfwng costau byw yn debygol o effeithio ar fusnesau lleol, gyda chostau ynni yn benodol yn her fawr. Fel yn y pandemig, bydd y Cyngor yn cydweithio â sector preifat y ddinas i ddatblygu ymateb cydlynol.

## Llwyddiannau Allweddol

### Arwain yr adferiad economaidd yng Nghymru

- **Strategaeth Adfer ac Adnewyddu:** Cafodd strategaeth y Cyngor i adfer ac adnewyddu'r ddinas, *Gwyrddach, Tecach, Cryfach,* ei chymeradwyo gan y Cabinet ym mis Rhagfyr. Comisiynwyd yr adroddiad gan Gyngor Caerdydd yn benodol i herio'r awdurdod ac i fireinio ei strategaethau a'i ymyriadau ei hun ar gyfer adferiad llwyddiannus ar ôl y pandemig. Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar chwe datganiad cenhadaeth: ail-lunio canol y ddinas; dinas i bawb; dinas pymtheg munud; adnewyddiad sy'n cael ei arwain gan ddiwylliant a chwaraeon; dinas dechnoleg; ac adferiad Un Blaned. Cynhaliwyd cyfres o ddigwyddiadau ymgysylltu rhwng mis Mehefin a mis Hydref 2021, gan gynnwys nifer o ddigwyddiadau sy'n dda i blant i gasglu barn pobl ifanc ynghyd â barn trigolion, busnesau, y sector diwylliannol a rhanddeiliaid eraill. Cynhaliwyd arolwg hefyd a gafodd dros fil o ymatebion a ddefnyddiwyd i helpu i baratoi'r cynllun.
- **Y Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE (EUSS):** Roedd rhaglen ymgysylltu a chymorth digidol hynod lwyddiannus yn helpu gwladolion yr UE i wneud cais i Gynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE, os nad oeddent wedi gwneud hynny eto. Erbyn y dyddiad cau ym mis Mehefin 2021, gwnaed 23,990 o geisiadau i'r cynllun, yn unol â'r amcangyfrif uchaf ar gyfer nifer y gwladolion cymwys yr UE yng Nghaerdydd.
- **Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd:** Mae gan Brifddinas-Ranbarth Caerdydd gyfres o gynhyrchion bellach i'w defnyddio i ddenu buddsoddiad i'r rhanbarth, gan gynnwys y Gronfa Eiddo, y Gronfa Arloesi a'r Gronfa Seilwaith. Mae Prifddinas-Ranbarth Caerdydd hefyd wedi gwneud nifer o benderfyniadau buddsoddi sy'n ymwneud â Chaerdydd. Mae hyn yn cynnwys buddsoddi'n uniongyrchol mewn nifer o gwmnïau technoleg/gwyddorau bywyd, cymeradwyo cyllid ar gyfer cymorth seiber a thechnoleg ariannol, cytundeb i fuddsoddi mewn eiddo busnes a phenderfyniadau mewn egwyddor i gefnogi buddsoddiad gwerth £3m mewn tai.

### Arwain rhaglen adfer ar gyfer Canol y Ddinas a'r Bae

- **Cynllun Gweithredu Adfer Canol y Ddinas:** Yn sgil cymeradwyo *Gwyrddach, Tecach, Cryfach* ym mis Rhagfyr (gweler uchod), cyhoeddodd y Cyngor ei Gynllun Gweithredu Adfer Canol y Ddinas ym mis Ionawr. Bydd y cynllun pum mlynedd hwn yn ail-lunio ac yn ailfywiogi canol dinas Caerdydd ar ôl y pandemig gan amlinellu'r mentrau a'r rhaglenni allweddol y bydd y Cyngor a'i bartneriaid yn gweithio tuag atynt.
- **Rhaglen Fenthyciadau Trawsnewid Trefi:** Mae tri chwmni lleol yng nghanol y ddinas wedi sicrhau benthyciadau di-log o £2.35m gan Raglen Fenthyciadau Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru, trwy Gyngor Caerdydd, i helpu gyda chynlluniau adfywio ac addasu at ddibenion gwahanol. Mae'r gwaith yn cynnwys mannau deori newydd ar Plas Windsor, atyniad hamdden newydd ar thema golff ar Heol Eglwys Fair, a gwesty bwtîc newydd ar Stryd y Cei.
- **Adfywio Bae Caerdydd:** Mae caffael ar gyfer yr Arena Dan Do Amlbwrpas wedi mynd rhagddo'n dda – bydd yr arena bellach yn darparu lle ar gyfer 17,000, sy'n fwy na'r amcanestyniadau cynharach o 15,000. Ym mis Mawrth 2022, sicrhaodd Consortiwm yr Arena ganiatâd cynllunio manwl ar gyfer yr Arena a chaniatâd amlinellol ar gyfer cynllun adfywio ardal ehangach Glanfa'r Iwerydd, ac mae disgwyl iddynt gwblhau cytundeb cynllunio ym mis Medi.

- Datblygwyd yr uwchgynllun wedi'i ddiweddaru ar gyfer y Pentref Chwaraeon Rhyngwladol ac fe'i cymeradwywyd gan y Cabinet ym mis Mawrth 2022. Mae caniatâd cynllunio hefyd wedi'i roi ar gyfer y felodrom newydd o'r radd flaenaf a gaiff ei leoli yn y Pentref Chwaraeon.

## Cefnogi arloesedd a datblygu busnes, gyda phecyn gwell o ymyriadau i helpu'r sectorau yr effeithiwyd arnynt waethaf gan y pandemig

- **Creu Swyddi a'u Diogelu:** Yn ystod 2021/22, chwaraeodd y Cyngor rôl weithredol yn y broses o greu 1,200 o swyddi newydd a diogelu dros 900 o swyddi eraill o fewn yr economi leol.
- **Parc Caerdydd:** Fel rhan o'r Strategaeth Ddiwydiannol ar gyfer Dwyrain y Ddinas, cafodd cais cynllunio ar gyfer datblygiad Parcffordd Llaneirwg ei gymeradwyo gan ddibynnu ar amodau. Am y tro cyntaf, bydd yr orsaf reilffordd newydd yn galluogi teithio ar y trên o ddwyrain y ddinas, tra bydd y parc busnes cyfagos yn dod â buddsoddiad mawr ei angen i'r rhan hon o Gaerdydd.
- **Y Diwydiannau Creadigol:** Dan arweiniad Prifysgol Caerdydd, llwyddodd Consortiwm media.cymru, sy'n cynnwys Cyngor Caerdydd, ennill cais Strength in Places (SIP) gwerth £50m i ddatblygu clwstwr blaengar ar gyfer arloesedd yn y cyfryngau ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd.
- **Mannau Deori:** Mae'r Cyngor yn archwilio opsiynau gyda phartneriaid i greu mannau deori a chychwyn ychwanegol yn ogystal â mynd ati i hyrwyddo mannau technoleg presennol ar gyfer busnesau newydd gan gynnwys lle sy'n eiddo i'r Cyngor yng Nghanolfan Technoleg Busnes Caerdydd.
- **Grantiau Cefnogi Busnes:** Cafodd dros £130m o grantiau cymorth busnes ei weinyddu'n uniongyrchol gan y Cyngor yn ystod pandemig Covid-19.
- **Cymorth Ardrethi Busnes:** Darparodd Llywodraeth Cymru gymorth ardrethi busnes 100% ar gyfer busnesau hamdden, lletygarwch a manwerthu am holl gyfnod 2021/22, gan roi cymorth hanfodol i dri o'r sectorau y mae'r pandemig wedi effeithio arnynt fwyaf a chreu'r amodau i gyflymu adferiad.

## Cefnogi adferiad y sector diwylliannol a'r rhaglen digwyddiadau mawr

- **Dychweliad Cerddoriaeth Fyw:** I gefnogi sîn gerddoriaeth fyw Caerdydd, trefnodd y Cyngor bedair noson o gerddoriaeth fyw yng Nghastell Caerdydd, wedi'u curadu gan leoliadau cerddoriaeth llawr gwlad y ddinas. Cynhaliwyd y digwyddiad *Live & Unlocked* dros benwythnos gŵyl banc mis Awst 2021 fel rhan o gynllun a ddatblygwyd gyda Bwrdd Cerddoriaeth Caerdydd i gefnogi cerddoriaeth fyw ac i roi diwylliant wrth wraidd adferiad y ddinas yn dilyn Covid-19. Cafodd y gerddoriaeth ei churadu gan y lleoliadau annibynnol a fu'n gyfrifol hefyd am werthu'r tocynnau a thalu'r cerddorion a gymerodd ran, gan ddarparu cymorth mawr ei angen i ddiwydiant a thynnu sylw at eu rôl bwysig yng Nghaerdydd. Daeth rhyw 3,000 o bobl i'r digwyddiad. Cafodd y prosiect ei gefnogi gan Gronfa Fusnes Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru sy'n cefnogi canol trefi a dinasoedd wrth iddynt adfer yn sgil y pandemig.

Dilynwyd *Live & Unlocked* gan y gyfres fwyaf o ddigwyddiadau ar dir y Cyngor ers cyn y cyfnod clo cyntaf ym mis Mawrth 2020. Denodd 'Cyfres y Bae' Titan rai o artistiaid cerddoriaeth enwocaf y byd i berfformio ym Mhentir Alexandra ym Mae Caerdydd, gyda mwy na 33,000 o bobl yn mynychu dros y pedwar diwrnod. Yr ŵyl oedd y cyntaf o'i math i gael ei chynnal ym Mhentir Alexandra a brofodd i fod yn safle diogel a hynod lwyddiannus gydag adborth cadarnhaol iawn gan y cyhoedd.

- **Hwb Cerddoriaeth yng nghanol y ddinas:** Cymeradwyodd y Cyngor drosglwyddo'r defnydd o'r Hen Lyfrgell i Goleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru trwy brydles hir ym mis Tachwedd. Bwriad y Coleg yw gwneud yr adeilad yn ganolbwynt i'r celfyddydau perfformio yng nghanol y ddinas. Nod ei waith yw helpu i gyflawni Strategaeth Gerddoriaeth y ddinas a bydd yn cynnwys perfformiadau yn yr ardaloedd cyhoeddus yng nghyffiniau'r adeilad, gan ddarparu cerddoriaeth ac animeiddio yn ystod y dydd o fewn yr Ais.
- **Rhaglen ddigwyddiadau:** Cefnogodd y Cyngor raglen ddigwyddiadau brawf Llywodraeth Cymru yng ngwanwyn 2021. Roedd hyn yn cynnwys cyflwyno pedwar digwyddiad prawf yn llwyddiannus. Cynhaliwyd dau o'r rhain, sef Tafwyl a Gweddïau Eid, yng Nghastell Caerdydd gyda dau ddigwyddiad arall i'r gwylwyr yn cael eu cynnal yn Stadiwm Dinas Caerdydd a Maes Criced Gerddi Sophia. Bydd strategaeth digwyddiadau ôl-Covid y Cyngor yn cael ei datblygu i gyd-fynd â strategaeth Llywodraeth Cymru sy'n cael ei datblygu ar hyn o bryd. Mae ymgynghoriad yn parhau â rhanddeiliaid allweddol gan gynnwys Cyngor Caerdydd.

## Heriau a Risgiau

- **Chwyddiant:** Mae anwadalwch y farchnad adeiladu o ran cynnydd mewn prisiau llafur a deunyddiau yn ogystal ag argaeledd yn peri risg i brosiectau mawr gyda chynnydd sylweddol mewn costau oherwydd chwyddiant. Mae costau cynyddol cyfleustodau hefyd yn gosod her ariannol o ran rheoli costau rhedeg ystâd y Cyngor. Mae'r cynnydd ym mhrisiau bwyd yn effeithio ar broffidioldeb lleoliadau'r Cyngor. Yn fwy eang, mae'r argyfwng costau byw yn debygol o effeithio ar fusnesau lleol, gyda chostau ynni yn benodol yn her fawr.
- **Heriau Recriwtio:** Mae prinder sgiliau yn y sectorau lletygarwch a diogelwch yn bygwth gallu'r Cyngor i gynnal ei leoliadau a'i ddigwyddiadau. Mae problemau recriwtio hefyd yn amharu ar adferiad y Cyngor a'r ddinas yn sgil y pandemig yn ogystal ag yn bygwth achosi oedi i brosiectau mawr. Er mwyn mynd i'r afael â'r prinder hwn, mae Gwasanaeth i Mewn i Waith y Cyngor yn gweithio gyda'r sectorau yr effeithir arnynt i nodi'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer gwahanol rolau a chynnig hyfforddiant perthnasol i ddatblygu ymgeiswyr i fod yn barod ar gyfer cyfweliadau.
- **Presenoldeb mewn Digwyddiadau a Lleoliadau Masnachol:** Mae'r argyfwng costau byw wedi lleihau swm yr incwm gwario sydd gan lawer o bobl ac mae hyn, yn ei dro, yn lleihau nifer y tocynnau sy'n cael eu gwerthu. Mae Covid-19 yn parhau i gael effaith ar argaeledd staff i gefnogi'r gwaith o gyflwyno sioeau a phrosiectau ac wedi arwain at ganslo sioeau. O ytsyried hyn yn gyffredinol, mae pwysau mawr o hyd ar adfer gwasanaethau sy'n debygol o gael effaith sylweddol ar gyllideb y Cyngor.

## Edrych Ymlaen: Meysydd Ffocws

### Arwain yr adferiad economaidd yng Nghymru

Wrth i economi'r ddinas adfer ar ôl y pandemig gan wynebu amgylchedd economaidd ansicr, bydd y Cyngor yn parhau i sicrhau bod y brifddinas yn chwarae rhan flaenllaw yn adferiad economaidd Cymru. Bydd hyn yn cynnwys chwarae rhan weithredol wrth sefydlu Cydbwyllgorau Corfforaethol (CBC) yn ogystal â dylunio unrhyw Ardoll Dwristiaeth newydd. Bydd y Cyngor yn ceisio sicrhau'r budd mwyaf o'r Gronfa Ffyniant Gyffredin i Gaerdydd a sicrhau cyllid ar gyfer prosiectau seilwaith allweddol trwy'r Gronfa Codi'r Gwastad.

### Arwain rhaglen adfer ar gyfer Canol y Ddinas a'r Bae

Dros y flwyddyn i ddod, bydd y Cyngor yn symud ymlaen â phrosiectau seilwaith mawr a fydd yn trawsnewid y ddinas, yn cefnogi twf gwyrdd, cynhwysol ac yn creu swyddi o ansawdd da, gan gynnwys yr Arena Dan Do, y Pentref Chwaraeon Rhyngwladol, y Sgwâr Canolog, y Cei Canolog ac ardal newydd Cwr y Gamlas.

### Cefnogi arloesedd a datblygu busnes, gyda phecyn gwell o ymyriadau i helpu'r sectorau yr effeithiwyd arnynt waethaf gan y pandemig

Bydd angen i'r Cyngor gefnogi twf ein sectorau gwerth uchel allweddol – gan gynnwys technoleg ariannol, seiber a chreadigol – a fydd yn creu swyddi sy'n talu'n dda i'n trigolion, yn helpu i hybu cynhyrchiant Caerdydd ac yn gwneud ein dinas yn lle sy'n denu mewnfuddsoddi o bob rhan o'r byd. Mewn ymateb i natur newidiol y gweithle yn y pandemig, canolbwyntir ar drawsnewid adeiladau presennol i greu lle gweithio hyblyg a fforddiadwy i fusnesau newydd yn ein sectorau blaenoriaeth

### Cefnogi adferiad y sector diwylliannol a'r rhaglen digwyddiadau mawr

Mae ein sectorau diwylliannol a digwyddiadau mawr wedi bod ymhlith y rhai yr effeithiwyd arnynt fwyaf gan y pandemig, felly bydd y Cyngor yn parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau y cynhelir digwyddiadau a gafodd eu gohirio neu eu canslo oherwydd y pandemig, yn ogystal ag archwilio cyfleoedd i'r dyfodol.  Dros y flwyddyn i ddod, bydd y Cyngor yn cwblhau cynlluniau ar gyfer datblygu gŵyl gerddoriaeth a digwyddiad chwaraeon rhyngwladol blynyddol ac yn amlinellu strategaeth ddiwylliannol newydd ar sail model llwyddiannus y Strategaeth Dinas Gerdd.


PIZZA EXPRESS
BAYSIDE

# Amcan Lles 6:
# Mae Caerdydd yn tyfu mewn ffordd gadarn

## Ein blaenoriaethau ar gyfer 2021/22 oedd:

- **Cyflawni Caerdydd Un Blaned i ddatgarboneiddio'r ddinas ac arwain adferiad gwyrdd**
- **Trawsnewid systemau trafnidiaeth gyhoeddus a theithio llesol Caerdydd**
- **Rhoi cynaliadwyedd a lles wrth wraidd twf y ddinas**
- **Gwella amddiffynfeydd rhag llifogydd Caerdydd**
- **Adeiladu gwydnwch yn ein rhwydwaith priffyrdd**
- **Gwneud Caerdydd yn ddinas ailgylchu o'r radd flaenaf**
- **Gweithio fel un tîm i gadw ein strydoedd yn lân**

## Asesiad Strategol

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Cyngor wedi cyflymu ei ymateb i'r argyfwng hinsawdd, wrth osod sylfaen ar gyfer adferiad gwyrdd ar ôl Covid. Mae Strategaeth a chynllun gweithredu Caerdydd Un Blaned, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2021, yn nodi'r blaenoriaethau ar gyfer darparu Cyngor a dinas sero-net erbyn 2030, gyda chymorth dadansoddiad manwl o ôl troed carbon y Cyngor, ac mae'r Cyngor wedi ymrwymo i osod yr argyfwng hinsawdd wrth wraidd Cynllun Datblygu Lleol newydd y ddinas.

Mae'r Cyngor wedi buddsoddi i gyflymu'r newid mewn teithio cynaliadwy a llesol, gyda lonydd beicio dros dro a gyflwynwyd yn ystod y pandemig bellach yn cael eu gwneud yn barhaol. Fodd bynnag, mae effaith y pandemig ar symudedd yn y ddinas a'r ddinas-ranbarth yn parhau i fod yn ansicr, yn enwedig ar gyfer teithio torfol. Mae'r gostyngiad yn y defnydd o geir yn ystod y cyfnodau clo wedi gwella ansawdd aer ar draws y ddinas, ond nid yw tueddiadau hirdymor ar ddefnyddio ceir yn glir, a bydd angen gwneud penderfyniad ar ddyfodol Stryd y Castell - yr unig stryd yng Nghaerdydd lle nad oedd lefelau llygredd aer yn cyrraedd terfynau cyfreithiol yn 2019 - yn ddiweddarach yn 2022.

Mae rhaglen ynni adnewyddadwy'r Cyngor wedi tyfu, gyda fferm solar ar waith a gwaith adeiladu rhwydwaith gwres wedi'i ddechrau. Mae rheoli risg llifogydd o ganlyniad i'r argyfwng hinsawdd yn parhau i fod yn risg strategol i'r Cyngor, gyda chynlluniau allweddol i wella seilwaith atal llifogydd y ddinas yn cael eu hoedi yn 2021/22. Yn fwy bras, mae effaith chwyddiant ar raglen gyfalaf Un Blaned yn peryglu cyflawni cynlluniau trafnidiaeth strategol, prosiectau cynhyrchu ynni adnewyddadwy a rhaglen ôl-osod tai'r Cyngor, a bydd angen monitro hyn yn agos dros 2022/23.

Er bod Caerdydd yn parhau i fod yn un o'r dinasoedd craidd â'r perfformiad gorau o ran ailgylchu, mae ei chyfradd ailgylchu ar gyfer y flwyddyn ddiwethaf (59.59%) wedi methu â bwrw'r targed o 64% a bennwyd gan Lywodraeth Cymru, a allai olygu cosb ariannol i'r Cyngor. Mewn ymateb, bydd Strategaeth Ailgylchu newydd yn cael ei hystyried gan y Cabinet yn hydref 2022, gan nodi'r camau y bydd y Cyngor yn eu cymryd i fwrw'r targedau ailgylchu statudol. Yn yr un modd, nid yw lefelau glanhau strydoedd ym mhob ward yng Nghaerdydd wedi bwrw'r targed a bennwyd yn y Cynllun Corfforaethol, wedi'i achosi'n rhannol gan brinder gyrwyr HGV a arweiniodd at oedi wrth gasglu gwastraff. Mewn ymateb, mae rhaglen hyfforddi ar gyfer gyrwyr newydd wedi'i chyflwyno a bydd rhaglen glanhau strydoedd integredig wedi'i thargedu mewn ardaloedd allweddol yn cael ei gweithredu yn 2022/23.

## Llwyddiannau Allweddol

### Cyflawni Caerdydd Un Blaned i ddatgarboneiddio'r ddinas ac arwain adferiad gwyrdd

- **Y Llwybr i Ddinas Garbon Niwtral**: Yn dilyn ymgynghoriad ac ymgysylltu eang, mae'r Cyngor wedi gosod llwybr i wneud Caerdydd yn ddinas carbon niwtral erbyn 2030, trwy gyhoeddi strategaeth a chynllun gweithredu Caerdydd Un Blaned. Ers ei gyhoeddi ym mis Hydref 2021, mae nifer o ymrwymiadau wedi cael eu datblygu, gan helpu i sefydlu Caerdydd fel dinas flaenllaw wrth symud i sero-net, yn ogystal â gyrru adferiad gwyrdd ar ôl Covid.
- **Cynhyrchu Ynni Adnewyddadwy**: Mae Fferm Solar Ffordd Lamby bellach ar waith, gan gynhyrchu 9MW o ynni adnewyddadwy i Gaerdydd a'r Grid Cenedlaethol. Yn ogystal, mae prosiect gwifrau preifat ar y safle wedi'i gwblhau, gan gysylltu'r Fferm Solar â gwaith trin Dŵr Cymru gerllaw. Bydd hyn yn helpu i ddatgarboneiddio gweithgareddau prosesu dŵr gwastraff y ddinas.
- **Rhwydwaith Gwres Ardal Gyntaf Caerdydd:** Mae'r gwaith adeiladu wedi dechrau ar Rwydwaith Gwres Caerdydd. Bydd y Rhwydwaith yn dod â gwres carbon isel i'r Cyngor ac adeiladau nad ydynt yn eiddo i'r Cyngor yn y Bae, gan gysylltu ag amrywiaeth o ddatblygiadau newydd fel yr Arena Dan Do.
- **Gwyrddio Fflyd y Cyngor:** Fel rhan o daith y Cyngor i leihau ei ôl troed carbon ei hun, mae gwaith ar y gweill i ddatgarboneiddio cerbydau fflyd a dod â seilwaith gwefru Cerbydau Trydan ychwanegol i'r ddinas. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Cyngor wedi ehangu ei fflyd o gerbydau trydan i 70 o gerbydau. Ar ben hynny, mae 59 o unedau gwefru cerbydau trydan wedi'u darparu, gan gynnwys chwe gwefrydd cyflym yn Ffordd Lamby ar gyfer fflyd cerbydau casglu sbwriel trydan y Cyngor.
- **Gwella Ansawdd Aer:** Fel rhan o'r Cynllun Aer Glân, mae 36 o fysus trydan wedi'u cyflwyno i'r ddinas ac mae'r Rhaglen Ôl-osod Bysus wedi cael ei gwblhau i osod technoleg mewn 49 o fysus sy'n lleihau allyriadau $NO_2$ gan 90%. Mae'r Cynllun Prydles Tacsi hefyd wedi'i lansio. O ganlyniad, cafwyd gwelliannau sylweddol yn y ddinas o ran ei pherfformiad ansawdd aer - mae Stryd y Castell, a arferai fod y stryd fwyaf llygredig yng Nghaerdydd, bellach yn cydymffurfio â deddfwriaeth ynghylch llygredd $NO_2$. Yn ogystal, mae crynodiadau $NO_2$ mewn Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer (ARhAAau) yn llawer is na thargedau mewnol y Cyngor a therfynau cyfreithiol.

### Trawsnewid systemau trafnidiaeth gyhoeddus a theithio llesol Caerdydd

- **Metro Caerdydd:** Dros y flwyddyn ddiwethaf, gwnaed cynnydd ar Fetro Caerdydd gan gwblhau'r astudiaethau Metro a'r uwchgynllun ehangach ar gyfer Cledrau Croesi Caerdydd, yn ogystal â datblygu gorsafoedd newydd ledled y ddinas.
- **Darparu Rhwydwaith Beicffyrdd:** Dros y flwyddyn ddiwethaf, cwblhawyd Cylchffyrdd Dros Dro Traws-Ddinas a'r Bae, yn ogystal â Beicffordd o Barc Bute i Rodfa'r Gorllewin. Mae llwybr beicio sy'n cysylltu Rhodfa'r Gorllewin â Llandaf yn cael ei gynllunio ar hyn o bryd.
- **Datblygu Cynlluniau Teithio Llesol ar gyfer Ysgolion:** Mae Cynlluniau Teithio Llesol yn helpu pobl ifanc i ddysgu am fuddion amgylcheddol, iechyd a lles teithio llesol, wrth leihau tagfeydd ledled y ddinas yn ystod yr oriau brig ar yr un pryd. Mae'r Cyngor wedi cefnogi 122 o'r 127 ysgol yng Nghaerdydd i lunio neu ddatblygu Cynlluniau Teithio Llesol. Mae'r pum ysgol arall wedi cael cynnig cymorth ond heb allu ymgysylltu'n llawn â'r cynllun hyd yma.

- **Systemau Trafnidiaeth Deallus:** Mae Caerdydd yn ceisio creu System Drafnidiaeth Ddeallus (SDDd), gan gyfuno technolegau gwybodaeth, cyfathrebu a rheoli mewn ffordd sy'n galluogi defnyddwyr i wneud defnydd gwell, mwy diogel a mwy cydlynol o rwydweithiau trafnidiaeth. Fel rhan o'r gwaith hwn, mae strategaeth SDDd ddrafft wedi'i chymeradwyo ar gyfer ymgynghori cyn cyhoeddi'n derfynol yn ddiweddarach eleni ac mae'r Cyngor wedi bod yn gwneud gwaith uwchraddio'r system gwybodaeth amser real (GAR) ar gyfer bysus er mwyn sicrhau system fysus mwy effeithlon i drigolion.

## Rhoi cynaliadwyedd a lles wrth wraidd twf y ddinas

- **Cynllun Datblygu Lleol Newydd:** Bydd y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) Newydd yn helpu i lunio Caerdydd am y 15 mlynedd nesaf hyd at 2036, gan sicrhau bod y datblygiad iawn yn digwydd yn y lle iawn ar yr adeg iawn, gan ddod â buddion i gymunedau a'r economi yn ogystal â nodi pa ardaloedd y mae angen eu diogelu. Mae'r gwaith o ddatblygu CDLl newydd dros y flwyddyn ddiwethaf wedi cynnwys ymgynghoriadau eang ar weledigaeth ac amcanion y CDLl yn ogystal â'r Dewisiadau Twf Strategol. Er gwaethaf gofynion cadw pellter cymdeithasol oherwydd Covid-19 yn arwain at gyfyngiadau sylweddol ar waith ymgysylltu, mae gweithgarwch wedi'i dargedu gyda grwpiau allweddol wedi cael ei wneud ledled y ddinas a bydd hyn yn parhau trwy gydol y broses.
- **Trawsnewid Canol y Ddinas:** Mae'r gwaith parhaus i drawsnewid canol y ddinas wedi creu ardal gyhoeddus fwy hygyrch a deniadol, gan gydbwyso busnes, iechyd y cyhoedd, lles ac anghenion ecolegol. Dim ond un rhan o nodau ehangach y Cyngor yw ailagor Cwr y Gamlas. Mae Cam 1 y cynllun bellach ar y safle, gyda'r gwaith yn mynd rhagddo'n dda a disgwylir i'r gwaith gael ei gwblhau ar ddechrau 2023.
- **Diogelu Asedau Naturiol Caerdydd:** Er mwyn diogelu bioamrywiaeth ac asedau naturiol Caerdydd, arwyddodd y Cyngor Ddatganiad Caeredin ar Fioamrywiaeth ym mis Hydref 2021, a datganodd Argyfwng Natur a Bioamrywiaeth ym mis Tachwedd, gan sicrhau bod y sefydliad yn gwneud y newid systemig sy'n ofynnol i ddiogelu asedau naturiol Caerdydd.

## Gwella amddiffynfeydd rhag llifogydd Caerdydd

- **Gwella gwydnwch Caerdydd i ymdopi â llifogydd:** Oherwydd ei lleoliad arfordirol, mae Caerdydd yn arbennig o agored i'r risgiau a achosir gan y newid yn yr hinsawdd, megis lefel y môr yn codi ac achosion amlach o ddigwyddiadau tywydd eithafol a llifogydd. Felly mae gwella seilwaith atal llifogydd y ddinas yn hanfodol i wytnwch Caerdydd yn y dyfodol. Mae Cynllun Busnes Llawn drafft ar gyfer Cynllun Amddiffyn Arfordirol y Cyngor wedi cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru ac, yn fwy cyffredinol, mae'r gwaith i nodi ardaloedd sydd mewn perygl yn helpu i sicrhau bod buddsoddiad mewn seilwaith yn cael ei dargedu i'r lleoliadau mwyaf bregus. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae meddalwedd rheoli digwyddiadau llifogydd hefyd wedi'i chyflwyno i ddeall dosbarthiad gofodol digwyddiadau llifogydd yn well a phenderfynu ar ardaloedd blaenoriaeth ar gyfer cynlluniau lliniaru llifogydd yn y dyfodol.

## Adeiladu gwydnwch yn ein rhwydwaith priffyrdd

- **Cynnal a Chadw Ffyrdd a Throedffyrdd:** Mae rhwydwaith priffyrdd gwydn yn chwarae rhan allweddol wrth sicrhau bod Caerdydd yn datblygu mewn ffordd gynaliadwy. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Cyngor wedi ailadeiladu 112 o ffyrdd ac wedi ailwynebu, trin arwyneb neu ailadeiladu 46 o droedffyrdd, sy'n cynnwys cyfanswm o tua 190,000 metr sgwâr o arwyneb wedi'i drin. Yn ogystal, mae Rhodfa'r Mileniwm newydd wedi'i chwblhau gan ddefnyddio deunydd cyfansawdd cynaliadwy wedi'i ailgylchu.
- **Cyflwyno Terfyn Cyflymder 20 mya:** Mae cyflwyno terfyn cyflymder o 20 mya ledled y ddinas yn helpu i wneud Caerdydd yn fwy diogel i gymunedau lleol a theithio llesol, yn ogystal â gwella ansawdd aer. Mae cynnydd wedi'i wneud o ran cyflawni'r fenter, gyda'r Gorchmynion Rheoli Traffig bellach wedi'u selio a'r gwaith i'w gweithredu ar y strydoedd yn mynd rhagddo'n dda yn yr ardaloedd sydd wedi'u cynnwys fel rhan o'r cynllun peilot, megis yr Eglwys Newydd a Thongwynlais, Ystum Taf, Rhiwbeina a'r Mynydd Bychan.

## Gwneud Caerdydd yn ddinas ailgylchu o'r radd flaenaf

- **Gwella Capasiti mewn Canolfannau Ailgylchu:** Mae gwella capasiti mewn canolfannau ailgylchu yn elfen allweddol o ddull y Cyngor o ymdrin ag ailgylchu. Mae'r perfformiad yng nghanolfannau ailgylchu Caerdydd yn parhau i fod yn rhagorol, gyda'r gyfradd ailgylchu yn 85-90% ac mae adolygiad o'r defnydd o'r safle yn dangos bod y capasiti presennol yn fwy na'r galw. Mae gan safleoedd y ddinas rai o'r cyfraddau gorau yng Nghymru. Er mwyn adeiladu ar y statws hwn, mae'r Cyngor wedi agor Siop Ailddefnyddio yng Nghanolfan Ailgylchu Ffordd Lamby, nifer o barthau ailgylchu cymunedol ledled y ddinas a chanolfan ailgylchu dros dro ym Mharc Tŷ Glas.
- **Gwella Ymddygiad Ailgylchu:** Mae sicrhau bod trigolion yn cyfrannu at wella perfformiad ailgylchu yn allweddol i lwyddiant. Felly mae addysgu'r cyhoedd yn hanfodol ac mae'r cynnydd yn parhau i gael ei wneud yn hyn o beth. Ynghyd â'r Ymgyrch Sticeri Pinc, sy'n addysgu trigolion am arferion ailgylchu priodol, mae Tîm Addysg Ailgylchu pwrpasol wedi'i sefydlu i dargedu ardaloedd sydd â'r lefelau uchaf o halogiad i annog gwelliannau mewn ymddygiad ailgylchu.

## Gweithio fel un tîm i gadw ein strydoedd yn lân

- **Datblygu Rhaglen Hyfforddi Mewnol ar gyfer gyrwyr Cerbydau Nwyddau Trwm:** Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae oedi wrth gasglu gwastraff – a achoswyd gan brinder gyrwyr Cerbydau Nwyddau Trwm ledled y wlad – wedi peryglu glendid strydoedd y ddinas. Mae'r Cyngor wedi parhau i ddarparu gwasanaethau er gwaethaf yr heriau hyn ac wedi ymateb i'r prinder llafur trwy sefydlu rhaglen hyfforddiant mewnol 12 mis i swyddogion sy'n dymuno bod yn yrwyr Cerbydau Nwyddau Trwm.
- **Carwch Eich Cartref:** Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r ymgyrch wedi llwyddo i ddenu nifer mawr o Ymgyrchwyr Sbwriel gwirfoddol sy'n helpu i gadw strydoedd eu cymdogaethau'n lân. Yn ogystal, mae ymgyrch newydd 'Caru Eich Cartref Wrth Adael' wedi'i lansio i fynd i'r afael â phroblemau gwastraff sy'n codi wrth i fyfyrwyr adael ac i feithrin ymdeimlad o falchder ymhlith trigolion yn eu cymunedau.

- **Mynd i'r Afael â Thipio Anghyfreithlon a Thaflu Sbwriel:** Mae mynd i'r afael â thipio anghyfreithlon a thaflu sbwriel yn flaenoriaeth graidd i'r Cyngor ac mae cynnydd da wedi'i wneud dros y flwyddyn ddiwethaf, gyda dros 99% o ddigwyddiadau tipio anghyfreithlon wedi'u clirio o fewn pum diwrnod gwaith a thros 90% o'r achosion hyn yn arwain at gamau gorfodi. Ar ben hynny, canfuwyd bod dros 90% o'r tir priffyrdd a arolygwyd gan y Cyngor o safon glendid uchel neu dderbyniol.

## Heriau a Risgiau

- **Llifogydd ac Erydu Arfordirol:** Mae angen gwella rhannau o seilwaith presennol y ddinas ar gyfer atal llifogydd i ymateb i heriau'r argyfwng hinsawdd. Mae ymdrechion i ddatblygu cynlluniau wedi bod dan bwysau amrywiol, gan gynnwys oedi i'r Strategaeth Dŵr, Llifogydd a Draenio Cynaliadwy oherwydd Covid-19, maint y cyllid sydd ei angen a heriau staffio o fewn y Tîm Rheoli Perygl Llifogydd. Mae gwaith yn parhau i wella lefelau staffio ac i ddatblygu cynlluniau rheoli perygl llifogydd gan ddefnyddio'r holl ffrydiau cyllido sydd ar gael. Mae nifer o gynlluniau wedi'u cwblhau neu'n parhau, gydag eraill yn y camau ymchwilio cynnar.

  Mae erydu arfordirol parhaus yn golygu bod amddiffynfeydd presennol Caerdydd mewn perygl o chwalu gyda pherygl penodol yn cael ei nodi ar gyfer sawl safle yn ardal Ffordd Rover. Mae dau safle tirlenwi sydd wedi'u datgomisiynu gyda sgil-effeithiau amgylcheddol sylweddol hefyd wedi'u nodi o fewn yr ardaloedd sydd mewn perygl. Mae prosiectau amddiffyn llifogydd arfordirol wedi'u gohirio oherwydd problemau parhaus o ran derbyn trwydded forol a chaniatâd llawn gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) i ganiatáu gwaith yn yr afon a'r ardaloedd gwarchodedig, gan olygu bod caniatâd cynllunio wedi'i ohirio. Yn ogystal, mae costau amcangyfrifedig ar gyfer y cynllun amddiffyn arfordirol wedi codi dros 75%, oherwydd ffactorau fel Brexit, cynnydd yng nghostau tanwydd, y pandemig byd-eang a chwyddiant yng nghostau deunyddiau. Mae'r Cyngor yn parhau mewn trafodaethau â CNC a Llywodraeth Cymru er mwyn cael y drwydded forol, ac mae pob cyfle am arian prosiect yn cael ei archwilio.

- **Chwyddiant costau:** Mae effaith chwyddiant ar raglen gyfalaf datblygu'r ddinas yn risg sylweddol i gyflawni cynlluniau trafnidiaeth strategol, prosiectau cynhyrchu ynni adnewyddadwy, gwelliannau i amddiffynfeydd rhag llifogydd a rhaglen ôl-osod tai'r Cyngor. Bydd angen monitro'r rhaglen gyfalaf yn agos dros gyfnod 2022/23 a bydd y Cyngor yn gweithio'n agos gyda phartneriaid yn y Brifddinas-Ranbarth, y llywodraeth genedlaethol a'r sector preifat i archwilio'r holl gyfleoedd cyllido.

- **Ansawdd Aer:** Roedd crynodiadau $NO_2$ mewn Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer (ARhAAau), gan gynnwys Stryd y Castell, yn llawer is na thargedau mewnol a therfynau cyfreithiol y Cyngor yn 2021/22, er bod perygl y gallant gynyddu wrth i lefelau traffig cyffredinol gynyddu ar ôl y pandemig. Wrth symud ymlaen, bydd gwaith i fonitro canlyniadau ansawdd aer yn parhau, gydag asesiadau manylach yn cael eu cynnal i ddarparu dull mwy cadarn o adrodd am ganlyniadau'n flynyddol. Bydd gwaith hefyd yn parhau i ddatblygu cynlluniau ar gyfer cynllun gwella trafnidiaeth parhaol ar Stryd y Castell ac, yn fwy cyffredinol, bydd y Strategaeth Aer Glân a'r Cynllun Gweithredu yn cael eu diweddaru.

- **Targed Ailgylchu Statudol:** Er bod Caerdydd yn parhau i fod yn un o'r dinasoedd craidd â'r perfformiad gorau o ran ailgylchu, mae ei chyfradd ailgylchu ar gyfer y flwyddyn ddiwethaf (59.59%) wedi methu â bwrw'r targed o 64% a bennwyd gan Lywodraeth Cymru. Yn ogystal â'r effeithiau amgylcheddol, mae methu â bwrw targedau statudol Llywodraeth Cymru yn golygu y gallai'r Cyngor gael dirwy am bob blwyddyn mae'n methu â bwrw'r targed ac mae'n gosod costau ariannol ychwanegol ar wasanaethau gwastraff.

Mae nifer o heriau i wella cyfraddau ailgylchu yn unigryw i ardaloedd trefol tra bod nifer o faterion cenedlaethol hefyd wedi effeithio ar wella perfformiad, gan gynnwys rheoli'r pandemig a phrinder llafur cenedlaethol. Mae mesurau wedi'u datblygu i wella perfformiad, gyda'r gwaith parhaus i drawsnewid trefniadau gweithredol yn dwyn buddion effeithlonrwydd a mesurau casgliadau newydd yn cael eu treialu ar draws y ddinas. Gan dynnu ar y gwaith hwn, ac ymgysylltu helaeth â Llywodraeth Cymru a WRAP Cymru, bydd Strategaeth Ailgylchu newydd yn cael ei hystyried gan y Cabinet yn hydref 2022 i nodi'r camau y bydd y Cyngor yn eu cymryd i fwrw'r targedau ailgylchu statudol.

- **Blwch o ran Glendid Strydoedd:** Er bod Caerdydd yn perfformio'n dda yn gyffredinol o ran glendid strydoedd, gyda 90% o dir priffyrdd a archwiliwyd gan y Cyngor yn cael ei ystyried yn dir sydd â safon uchel neu dderbyniol o lendid yn 2021/22, methodd wyth o 29 o wardiau'r ddinas â chyrraedd y safon hon. Er mwyn mynd i'r afael â'r bwlch hwn o ran glendid strydoedd a sicrhau bod pob cymuned yn gallu mwynhau amgylchedd byw glân a deniadol, mae rhaglen diwygio gwasanaethau'n parhau i gael ei datblygu. Mae hyn wedi cynnwys sefydlu tri thîm glanhau dwys pwrpasol, sy'n canolbwyntio ar Cathays, Plasnewydd a'r Arc Ddeheuol, ynghyd â Thîm Lonydd newydd a fydd yn gyfrifol am y ddinas gyfan. Mae Tîm Golchi â Jet newydd hefyd wedi'i sefydlu i dargedu blaenau siopau ledled y ddinas ac mae chwe ysgubwr sugno trydan wedi'u cyflwyno yn y gymuned, gyda phedwar ysgubwr mecanyddol bach ychwanegol i'w dosbarthu ym mis Hydref. Rhagwelir y bydd gwagio biniau sbwriel yn amlach ar shifftiau prynhawn a dros y penwythnos yn gwella glendid strydoedd ymhellach, yn ogystal â chyflwyno ffenestri casglu ar gyfer cwsmeriaid gwastraff masnach yng nghanol y ddinas.

Wrth symud ymlaen, bydd gwasanaeth glanhau ar gael i drefnwyr digwyddiadau ar gyfer digwyddiadau sy'n cael eu cynnal ar dir y Cyngor ac yn ei leoliadau gyda strydoedd yng nghanol y ddinas yn cael eu golchi'n fwy. Yn hollbwysig, bydd Casgliadau, Glanhau a Gorfodi'n cael eu hintegreiddio'n agos ar gyfer ymgyrchoedd wedi'u targedu i geisio mynd i'r afael â gosod y gwastraff anghywir i'w gasglu y gwyddys iddo gael effaith negyddol ar lendid strydoedd. Yn ogystal â hyn, bydd mabwysiadu technoleg newydd i fonitro cyfraddau llenwi biniau sbwriel yn caniatáu cynllunio gwell a gwasanaeth mwy ymatebol.



## Edrych Ymlaen: Meysydd Ffocws

### Cyflawni Caerdydd Un Blaned i ddatgarboneiddio'r ddinas ac arwain adferiad gwyrdd

Dros y flwyddyn i ddod, bydd y Cyngor yn parhau i gyflwyno rhaglen newid fawr Un Blaned Caerdydd ac yn ceisio goresgyn heriau cyflawni. Mae hyn yn cynnwys y rhaglen Ôl-osod Tai, a fydd yn targedu 5,000 o unedau tai'r Cyngor ac sydd bellach yn y cyfnod caffael, a Rhwydwaith Gwres Ardal Caerdydd.

#### Trawsnewid systemau trafnidiaeth gyhoeddus a theithio llesol Caerdydd

Bydd gwella system drafnidiaeth Caerdydd yn parhau'n flaenoriaeth strategol, yn enwedig y newid i ddulliau teithio mwy cynaliadwy a mwy llesol. Bydd y Cyngor yn parhau i ddatblygu astudiaethau metro ar gyfer Cledrau Croesi, gan gynnwys y gorsafoedd newydd o ganol y ddinas i Fae Caerdydd a Choridor y Gogledd-orllewin. Fel rhan o waith uwchgynllunio ehangach, bydd y Cyngor yn datblygu Strategaeth Parcio a Theithio ar gyfer Caerdydd, yn ogystal â datblygu'r gwaith o gyflwyno safle Parcio a Theithio ger Cyffordd 33 yr M4. Bydd y Cyngor hefyd yn gweithio gydag Uned Gyflawni Burns ar raglen gwella trafnidiaeth rhwng Caerdydd a Chasnewydd, yn ogystal â gwneud penderfyniad ar ddyluniad ac uwchgynllun yr Orsaf Ganolog newydd yn ddiweddarach eleni. Bydd gwaith hefyd yn parhau i ddatblygu Strategaeth Bysus ar gyfer Caerdydd a fydd yn nodi'r hyn sydd ei angen yn y ddinas i sicrhau gwasanaethau bysus rhagorol sydd wedi'u hintegreiddio'n llawn â dulliau teithio cyhoeddus eraill.

Bydd opsiynau ar gyfer dyfodol hirdymor Stryd y Castell yn cael eu hasesu trwy gydol 2022 a'u cyflwyno yn 2023 a 2024. Bydd y camau allweddol yn y broses hon yn cynnwys cwblhau casglu data ansawdd aer, modelu pellach, nodi'r opsiwn a ffefrir a llunio adroddiad i'w gymeradwyo gan y Cabinet yn 2023. Yn fwy cyffredinol, bwriedir i'r gwaith hefyd ddechrau diweddaru'r Strategaeth Aer Glân a'r Cynllun Gweithredu cysylltiedig.

### Rhoi cynaliadwyedd a lles wrth wraidd twf y ddinas

Bydd cyflawni proses y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) newydd yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol, gyda chamau mawr ar gyfer y flwyddyn i ddod, gan gynnwys penderfyniad y Cyngor ar y Strategaeth Twf a Ffefrir. Bydd deialog â Llywodraeth Cymru a phartneriaid rhanbarthol yr awdurdodau lleol yn parhau ynghylch gweithredu trefniadau cynllunio strategol rhanbarthol newydd o fewn y Cydbwyllgor Corfforaethol (CBC).

### Gwella amddiffynfeydd rhag llifogydd Caerdydd

Rhagwelir y bydd y gwaith o adeiladu'r cynllun Atal Llifogydd yr Arfordir yn dechrau yn ddiweddarach eleni, yn amodol ar gymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru i'r achos busnes a'r cyllid, a rhagamcanir y bydd y gwaith yn cael ei gwblhau yn 2024. Yn ogystal, bydd y Cyngor yn gweithio gyda'i bartneriaid i barhau i ddatblygu Strategaeth Rheoli Llifogydd Lleol newydd a Chynllun Rheoli Perygl Llifogydd, sydd i fod i gael ei gwblhau yn hydref 2023.

### Gwneud Caerdydd yn ddinas ailgylchu o'r radd flaenaf

Bydd Strategaeth Ailgylchu newydd a fydd yn nodi'r camau y bydd y Cyngor yn eu cymryd i wella cyfraddau ailgylchu, lleihau plastigau untro a chefnogi datblygiad yr economi gylchol yn cael ei hystyried gan y Cabinet yn Chwarter 3 2022/23.


20

# Amcan Lles 7:
# Moderneiddio ac integreiddio ein gwasanaethau cyhoeddus

**Ein blaenoriaethau ar gyfer 2021/22 oedd:**

- **Datblygu rhaglen gynhwysfawr o adfer ac adnewyddu sefydliadol**
- **Adeiladu ar ein hagenda ddigidol, ymgorffori technoleg wrth ddarparu gwasanaethau a manteisio ar ddata i ysgogi perfformiad**
- **Darparu llai o adeiladau'r Cyngor ond adeiladau gwell**
- **Cefnogi gweithlu medrus a chynhyrchiol iawn gyda lles staff wrth ei wraidd**
- **Defnyddio pŵer pwrs y wlad i gefnogi adferiad y ddinas**
- **Sicrhau ein bod yn Gyngor sy'n well wrth wrando ar y ddinas a wasanaethwn a siarad â hi**

## Asesiad Strategol

Mae'r pandemig wedi bod yn gyfnod heriol iawn, ond hefyd yn un o newid, dynamiaeth, ac arloesedd yng ngwasanaethau'r Cyngor. Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu gweithio hybrid yn llwyddiannus ac mae'n sicrhau bod polisïau llety, technolegau a gweithlu ategol ar waith neu wedi'u cynllunio i wneud y newid hwn yn gynaliadwy. Mae technolegau digidol wedi'u cyflwyno, gyda newid sianeli'n amlwg wrth ddarparu mwy o wasanaethau, er y gellir cyflawni mwy trwy fanteisio ar y newid gan ddinasyddion i ddefnyddio sianeli digidol. Bydd sicrhau bod y sefydliad yn cynnal y momentwm hwn ac yn parhau i addasu i'r sefyllfa wedi'r pandemig yn flaenoriaeth am y flwyddyn i ddod.

Mae pandemig Covid-19 a'r mesurau iechyd cyhoeddus cysylltiedig wedi arwain at oblygiadau ariannol sylweddol i'r Cyngor, o ran costau ychwanegol a cholli incwm. Mae diwedd Cymorth Caledi Covid Llywodraeth Cymru yn risg ariannol sylweddol i'r Cyngor, gyda llawer o wasanaethau sy'n creu incwm yn wynebu aflonyddwch parhaus a galw cynyddol a mwy cymhleth oherwydd bod y pandmeig wedi effeithio ar lawer o wasanaethau. Yn ogystal, mae'r sefyllfa gyllidol byd-eang wedi newid yn sylweddol o ran pwysau ar chwyddiant cyflog a phrisiau, yn arbennig ar gyfer costau ynni, ac mae hyn yn cael effaith yn lleol i'r Cyngor ac yn yr argyfwng costau byw sydd bellach yn amlwg ar draws cymunedau'r ddinas. Dros y tymor canolig, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu dyraniadau dangosol ar gyfer 2023/24 a 2024/25 y mae croeso iddynt, ond o ystyried y risgiau a amlygwyd, mae angen dull gofalus o ystyried natur Cymru gyfan yr amcanestyniadau hyn ac ansicrwydd y sefyllfa yn sector cyhoeddus y dyfodol ar ôl y pandemig. Gyda'r galw cynyddol mewn gwasanaethau allweddol, rhaid i'r Cyngor barhau i gynllunio ar gyfer bwlch sylweddol yn y gyllideb yn y tymor canolig.

Bydd angen canolbwyntio'n drylwyr hefyd ar y sefyllfa o ran cyfalaf - mae pwysau sylweddol ar hyn o bryd oherwydd chwyddiant cynyddol a chynnydd yng nghostau cadwyni cyflenwi, y galw am fuddsoddiad i gynnal cyflwr, a rhagdybiaethau derbyniadau cyfalaf. Bydd angen disgyblaeth gan gyfarwyddiaethau i sicrhau bod adnoddau, sgiliau, a gallu ar gael i gyflawni'r rhaglen fuddsoddi ar amser ac i fodloni dyraniadau cyllideb presennol.

Fel mewn sectorau eraill o'r economi, mae heriau'r gweithlu yn dod i'r amlwg, gyda phrinder sgiliau ar draws y Cyngor.  Bydd angen rhoi mwy o bwyslais ar gynllunio'r gweithlu a datblygu talent. Ar y cyd â hyn ac mewn ymateb i argymhellion y Tasglu Cydraddoldeb Hiliol, bydd angen rhoi mwy o bwyslais ar gynyddu a chefnogi amrywiaeth yn y Cyngor fel bod ei weithlu yn adlewyrchu amrywiaeth y ddinas.

## Llwyddiannau Allweddol

### Datblygu rhaglen gynhwysfawr o adfer ac adnewyddu sefydliadol

- **Adfer ac Adnewyddu:** Er gwaethaf bod yn un o'r cyfnodau mwyaf heriol i wasanaethau a staff y Cyngor, mae'r pandemig hefyd wedi bod yn gyfnod o newid, dynamiaeth ac arloesedd. Ym mis Mai 2021, nododd y Cyngor ei fframwaith ar gyfer adfer ac adnewyddu sefydliadol, gan amlinellu cyfleoedd i addasu i'r amgylchedd gweithredu newydd wrth i'r ddinas ddechrau adfer ar ôl y pandemig, gan gynnwys cyfleoedd ar gyfer arloesi gwasanaethau, digideiddio, hyblygrwydd a gwaith partneriaeth parhaus. Ers hynny mae'r camau gweithredu sy'n deillio o hynny wedi'u hymgorffori yn fframwaith polisi a chyllidebau'r Cyngor.
- **Mabwysiadu Model Gweithio Hybrid:** Roedd Covid-19 yn gyfrifol am sbarduno rhaglen foderneiddio'r Cyngor, gan gynnwys ysgogi'r newid i weithio hybrid. Mae staff y Cyngor wedi bod yn cymryd rhan weithredol yn y gwaith o ddatblygu cynigion gwaith hybrid newydd. Yn 2021/22, ymatebodd dros 2,400 o weithwyr i arolwg staff a gwnaeth 134 o weithwyr o grwpiau yr oedd gweithio hybrid yn effeithio'n benodol arnynt gymryd rhan mewn cyfres o grwpiau ffocws i ddeall anghenion a gofynion. Mae'r dystiolaeth hon wedi helpu i lywio newid y Cyngor i weithio hybrid, gan gynnwys creu lleoedd gwaith hyblyg yn Neuadd y Sir, ynghyd ag ystafelloedd cyfarfod â chyfleusterau hybrid i staff eu defnyddio. Mae'r newid i'r model gweithio hwn yn cael ei alluogi gan fuddsoddiad y Cyngor mewn seilwaith digidol, gwasanaethau a sgiliau, y bydd angen parhau â hyn ar ôl y pandemig.

### Adeiladu ar ein hagenda ddigidol, ymgorffori technoleg wrth ddarparu gwasanaethau a manteisio ar ddata i ysgogi perfformiad

- **Newid Sianeli Parhaus:** Mae technoleg yn cynnig mwy o ddewis a chyfleustra i drigolion wrth ddefnyddio gwasanaethau, gyda nifer cynyddol o ddinasyddion yn dewis cael mynediad i wasanaethau trwy ddulliau digidol. Felly, pennwyd targedau uchelgeisiol gan y Cyngor i wella ei ôl-troed digidol yn 2021/22, gyda'r canlyniadau diwedd blwyddyn yn dangos bod dros 2 filiwn o gysylltiadau wedi'u gwneud yn ddigidol y llynedd. Deliodd SgyrsBot y Cyngor, BOBi, â dros 105k o sgyrsiau, gyda diweddariadau'n golygu bod y SgyrsBot bellach yn gallu cefnogi trigolion gydag ymholiadau am y dreth gyngor, casgliadau gwastraff a fethwyd, dirwyon ac etholiadau. Yn ogystal, cafodd ap Cardiff Gov ei lawrlwytho mwy na 57,000 o weithiau – sef dros 20% yn uwch na'r targed – gyda hygyrchedd ac ymarferoldeb wedi'u gwella, gan gynnwys galluogi trigolion i adrodd am graffiti a pharcio problemus.
- **Strategaeth Ddata:** Gwnaed yn glir gan Strategaeth Adfer ac Adnewyddu Sefydliadol y Cyngor bod angen casglu, cyflwyno a dadansoddi data amser real ar draws y system gwasanaethau cyhoeddus i lywio'r broses o wneud penderfyniadau, gan adeiladu ar y dull traws-gyhoeddus a arweinir gan ddata gwasanaethau cyhoeddus a oedd ar waith yn ystod y pandemig. Mae Strategaeth Ddata newydd y Cyngor, a gymeradwywyd gan y Cabinet ym mis Chwefror 2022, yn cydnabod bod data yn ased sy'n gallu cefnogi'r gwaith o gyflawni blaenoriaethau corfforaethol ac, yn hollbwysig, ei defnyddio i wella darparu gwasanaethau a pherfformiad. Bydd y Strategaeth Ddata yn helpu'r Cyngor i newid i fod yn sefydliad a arweinir gan ddata, trwy ymgorffori dull systematig o reoli a holi data ar draws yr awdurdod.

- **Fframwaith cynllunio a pherfformiad newydd:** Cafodd fframwaith wedi'i gryfhau, sy'n ymateb i'r gofynion perfformiad newydd a osodwyd yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, ei gymeradwyo gan y Cabinet ym mis Chwefror 2022. Mae'r fframwaith yn rhoi pwyslais cryf ar hunanasesu ac ar ymgysylltu â staff ac aelodau wrth ddatblygu'r asesiad cyffredinol, ac mae'n ehangu dull strategol a chyfarwyddiaeth y Cyngor o reoli perfformiad er mwyn cwmpasu perfformiad gwasanaethau, rheoli adnoddau a llywodraethu. Mae'r fframwaith yn cydnabod yr angen i ddefnyddio a dadansoddi data yn effeithiol er mwyn datrys problemau a gwella darpariaeth gwasanaethau ac felly mae Strategaeth Ddata newydd y Cyngor yn ategu hynny. Bydd y ddau'n cael eu defnyddio i helpu i nodi blaenoriaethau corfforaethol a meysydd gwella, gan lywio'r broses o wneud penderfyniadau yn y dyfodol.

  Mae'r Fframwaith Perfformiad newydd yn darparu rôl well ar gyfer Craffu a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn y broses hunanasesu a mabwysiadwyd 'traciwr' argymhellion craffu ar gyfer 2021/22. Mae'r trefniant tracio newydd yn sicrhau dull systematig o gofnodi a monitro'r cynnydd a wneir yn erbyn argymhellion sydd wedi'u derbyn. Mae adroddiad yn cael ei gyflwyno bob chwe mis i bob Pwyllgor Craffu. Yn ogystal, mae dull tracio tebyg wedi'i fabwysiadu ar gyfer Cyrff Rheoleiddio Allanol i roi gwybod am gynnydd yn erbyn eu hargymhellion. Mae diweddariad yn cael ei adrodd yn ffurfiol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio bob chwe mis.

## Darparu llai o adeiladau'r Cyngor ond adeiladau gwell

- **Strategaeth Eiddo Corfforaethol:** Mae Strategaeth Eiddo Corfforaethol y Cyngor yn sefydlu'r cyfeiriad strategol, y perfformiad, y targedau, y prosesau allweddol a'r llywodraethu sy'n ymwneud â rheoli ystâd tir ac eiddo'r Cyngor. Ar ôl cyflawni'r holl dargedau o fewn Strategaeth Eiddo Corfforaethol 2015-20, cymeradwywyd Strategaeth Eiddo Corfforaethol newydd pum mlynedd (2021-26) gan y Cabinet ym mis Rhagfyr 2021. Mae'r strategaeth yn canolbwyntio ar foderneiddio ystâd weithredol 'symlach a gwyrddach', wrth nodi themâu ac egwyddorion rheoli portffolios prydles y Cyngor. Mae hyn yn cynnwys cynlluniau i foderneiddio'r ystâd weithredol, yn ogystal â lleihau ei effaith carbon fel rhan o'r broses o symud i sero net erbyn 2030.
- **Ystâd Gorfforaethol:** Mae sicrhau derbyniadau cyfalaf yn parhau i fod yn amcan hollbwysig i gefnogi rhaglen gyfalaf y Cyngor. Ceir derbyniadau cyfalaf yn bennaf trwy werthu tir ac eiddo sy'n eiddo i'r Cyngor, sydd ond yn cael ei ystyried fel opsiwn ar ôl proses adolygu rheoli asedau trylwyr, neu drwy drosglwyddo tir ac eiddo o fewn y Cyngor. O ganlyniad i reoli asedau ystâd gorfforaethol y Cyngor mewn modd rhagweithiol yn 2021/22, cynhyrchwyd £13.5 miliwn mewn derbyniadau cyfalaf – trafodiad arbennig o fawr oedd yr un oedd yn ymwneud â hen Goleg Michaelston, a gynhyrchodd bron £8 miliwn mewn derbyniadau cyfalaf.

## Cefnogi gweithlu medrus a chynhyrchiol iawn gyda lles staff wrth ei wraidd

- **Iechyd Corfforaethol:** Y Safon Iechyd Corfforaethol, sy'n cael ei chynnal gan Lywodraeth Cymru, yw nod ansawdd hybu iechyd yn y gweithle yng Nghymru. Er mwyn cydnabod y gwaith i greu amgylchedd gweithio cadarnhaol a chynhwysol, roedd y Cyngor yn llwyddiannus yn ei ailasesiad ar gyfer y Safon Arian gan Iechyd Cyhoeddus Cymru yn 2021/22. Nododd yr aseswr y *"gefnogaeth gref gan uwch reolwyr a sut mae dull [y Cyngor] o ymdrin ag iechyd a lles yn cael ei ymgorffori drwy bartneriaeth â rhwydweithiau gweithwyr"*. Fel rhan o fodel cyflawni newydd Cymru Iach ar Waith (CIW), mae rhaglen wobrwyo wedi'i hailwampio yn cael ei datblygu yn lle'r Safon Iechyd Corfforaethol (SIC). Bydd y rhaglen wobrwyo newydd

yn cael ei datblygu yn ystod 2022/23 ac yn cael ei chyflwyno yn 2023. Tra bod y trawsnewid hwn ar y gweill, bydd y Cyngor yn parhau i gael ei ailasesu ar y safon arian a bydd yn adolygu'r camau nesaf unwaith y bydd y rhaglen ar ei newydd wedd yn cael ei chyhoeddi.

- **Gwobr Aur Stonewall:** Enillodd y Cyngor Wobr [1] Aur nodedig Stonewall mewn cydnabyddiaeth o'i waith i ymgorffori cydraddoldeb, gwerthfawrogi amrywiaeth a dangos cynhwysiant pobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thraws yn y gweithle ac wrth ymgysylltu a darparu gwasanaethau'n allanol.

  **Mae cyflawniadau allweddol yn cynnwys:**

  - yflwyno dull teg a diduedd o recriwtio trwy geisiadau dienw;
  - cyflwyno hyfforddiant rhagfarn ddiarwybod fel rhan o'r ystod eang o hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth i weithwyr;
  - defnyddio iaith gynhwysol a niwtral o ran rhywedd ym mholisïau'r Cyngor; a
  - bod â Rhwydwaith Cydraddoldeb Gweithwyr LHDT+ cryf sy'n cael ei gefnogi gan uwch hyrwyddwyr rheoli newydd.

  **Mae'r wobr hefyd yn cydnabod:**

  - dull caffael y Cyngor sy'n sicrhau bod gan gyflenwyr ymagwedd gynhwysol at bobl LHDT+;
  - cynnydd a wnaed o ran cydraddoldeb LHDT+ wrth ddarparu gwasanaethau megis y Gwasanaeth Maethu;
  - cydweithredu ag Awdurdodau Lleol eraill Cymru fel rhan o Gynghorau Balch.

- **Rhwydweithiau Cyflogeion:** Mae Cyngor Caerdydd yn cefnogi pum rhwydwaith a arweinir gan weithwyr sy'n gwneud cyfraniad hanfodol at hybu cydraddoldeb ac amrywiaeth yn y gweithle. Y rhwydweithiau yw Rhwydwaith Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol; Rhwydwaith Anabledd; Rhwydwaith LHDT+; y Rhwydwaith Menywod; a'r Rhwydwaith Gofalwyr. Er mwyn codi proffil y rhwydweithiau ar draws y sefydliad, mae pob un wedi'i ail-frandio, gyda 'Hyrwyddwyr UDRh' a 'Ffrindiau'r Rhwydweithiau' yn cael eu cyflwyno. Yn ogystal, datblygwyd Arolwg Rhwydwaith Gweithwyr ar y Cyd i sefydlu meincnod o aelodaeth, yn ogystal â phrofiadau bywyd gweithwyr.

- **Staff Asiantaeth Hirdymor:** Un o ymrwymiadau hirsefydlog y Cyngor yw trosglwyddo staff asiantaeth hirdymor i gontractau parhaol. Mae Polisi Gweithwyr Asiantaeth newydd bellach ar waith, sy'n cyd-fynd â Chomisiwn Gwaith Teg Llywodraeth Cymru a'i adroddiad Gwaith Teg Cymru. Mae'r polisi'n cynnal ymrwymiad presennol y Cyngor o hawliau caffaeledig i weithwyr contract dros dro ac yn cadarnhau y bydd gweithwyr contract dros dro sydd â gwasanaeth parhaus pedair blynedd gyda'r Cyngor yn cael eu trin yn weithwyr parhaol. Datblygwyd y polisi newydd hwn yn ystod chwarter olaf 2021/22, a'i fabwysiadu'n ffurfiol ym mis Gorffennaf 2022. Dan y trefniadau polisi newydd, bydd pob gweithiwr asiantaeth sydd wedi bod ar aseiniad parhaus yn yr un gwasanaeth yn y Cyngor am o leiaf bedair blynedd yn cael cynnig contract parhaol heb orfod mynd trwy broses recriwtio, yn amodol ar gamau gwirio cyn cyflogi perthnasol. Bydd y rhai sydd wedi bod ar aseiniad parhaus yn yr un gwasanaeth am o leiaf ddwy flynedd, ond llai na phedair blynedd, yn cael cynnig contract dros dro. Ar ôl i'r cyflogai gwblhau pedair blynedd – gan ystyried ei wasanaeth drwy asiantaeth a'i wasanaeth dan gontract dros dro – bydd yn cael ei drin fel cyflogai parhaol. Mae hyn yn pwysleisio ymhellach ymrwymiad y Cyngor i Waith Teg.

[1] Mae Stonewall yn elusen sy'n sefyll dros hawliau lesbiaidd, hoyw, deurywiol, trawsrywiol a chwiar (LHDTC+).

- **Adolygiadau Perfformiad:** Mae cyfradd cwblhau Adolygiadau Datblygu Personol ar draws yr holl gyfarwyddiaethau yn parhau i fod yn uchel, gyda ffigur alldro yn bwrw'r targed o 95%. Bydd pwyslais pellach yn cael ei roi yn 2022/23 ar ansawdd adolygiadau perfformiad, gan gynnwys datblygu dangosyddion perfformiad allweddol sy'n ymwneud ag ansawdd ynghyd â chydymffurfio a fydd yn rhan o gynlluniau darparu adrannol.

### Defnyddio grym pwrs y wlad i gefnogi adferiad y ddinas

- **Gwerth Cymdeithasol wrth Gaffael:** Mae'r Fframwaith ThCM (Themâu, Canlyniadau, Mesurau) Cenedlaethol yn darparu strwythur y gall y Cyngor ei ddefnyddio i fesur, adolygu, rheoli a gwella'r canlyniadau gwerth cymdeithasol yn ei gontractau. Mae hyn yn arbennig o bwysig o ystyried bod y Cyngor yn gwario dros £390 miliwn y flwyddyn yn casglu ystod amrywiol o nwyddau, gwasanaethau a gwaith. Cafodd y Fframwaith ei dreialu ar draws 25 o gontractau yn 2021/22, gyda gwahanol fersiynau o'r ThCM (sylfaenol, ysgafn a llawn) wedi'u creu i'w cynnwys ym mhob tendr. Mae Fframwaith Perfformiad Rheoli Contract hefyd wedi'i lansio er mwyn sicrhau dull cyson o reoli contractau ym mhob rhan o'r Cyngor.
- **Caffael sy'n Gymdeithasol-Gyfrifo:** Nod y Polisi Caffael Cymdeithasol-Gyfrifol yw sicrhau bod y Cyngor yn gwneud y mwyaf o'i fuddion lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol i gymunedau trwy ei wariant caffael blynyddol. Mae gan y Cyngor gyfrifoldeb i reoli arian cyhoeddus yn briodol, i sicrhau gwerth am arian ac i'w reoli mewn ffordd sy'n cefnogi amcanion ehangach y Cyngor. Yn 2021/22, cynhaliwyd adolygiad o'r Polisi er mwyn sicrhau ei fod yn parhau'n addas i'r diben mewn cyd-destun wedi'r pandemig. Yn ogystal, cynhaliwyd dadansoddiad manwl o ddata gwariant a dechreuodd prosiect gyda Chyngor Trydydd Sector Caerdydd (C3SC) i nodi opsiynau ar gyfer cynyddu cyfleoedd i fentrau cymdeithasol sicrhau contractau'r Cyngor. Roedd dros 50% o wariant y Cyngor yn 2021/22 gyda sefydliadau o Gaerdydd.

### Sicrhau ein bod yn Gyngor sy'n well wrth wrando ar y ddinas a wasanaethwn ac wrth siarad â hi

- **Ymgysylltu â Dinasyddion a Chymunedau:** Roedd y cyfyngiadau cadw pellter cymdeithasol a oedd ar waith yn ystod y pandemig wedi effeithio'n sylweddol ar allu'r Cyngor i ymgysylltu wyneb yn wyneb mewn cymunedau. Fodd bynnag, parhaodd y Cyngor i weld lefel uchel o ymgysylltu ag arolygon ac ymgynghoriadau ar-lein, gyda dros 62,000 o bobl yn ymateb i arolygon ac ymgynghoriadau yn 2021, sef cynnydd o 44,000 yn 2019. Lle bo'n bosibl, ategwyd hyn gan waith ymgysylltu mewn cymunedau, gyda 37 o ddigwyddiadau ymgysylltu cymunedol amrywiol yn cael eu cynnal yn 2021/22, gan gyrraedd 6,465 o gyfranogwyr. Un o flaenoriaethau 2022/23, ac ar gyfer y Strategaeth Ymgysylltu Cymunedol statudol newydd, fydd adeiladu ar y cynnydd a wnaed gydag ymgysylltu digidol wrth ailadeiladu gwaith wyneb yn wyneb a chymunedol, gyda ffocws ar y grwpiau a'r cymunedau hynny nad ydynt yn ymateb yn draddodiadol i ymgynghoriadau ac arolygon y Cyngor. Yn ystod 2021/22 mae'r Cyngor hefyd wedi parhau i ganolbwyntio ar wella ei ôl troed digidol a chyfryngau cymdeithasol fel y brif sianel ar gyfer cyfathrebu â dinasyddion, gyda nifer y dilynwyr Facebook, Instagram a Twitter i gyd yn bwrw'r targedau.

- **Ymgysylltu Dinasyddion yng nghyfarfodydd y Cyngor a Chraffu:** Oherwydd effaith y pandemig, roedd rhaid parhau i gynnal y rhan fwyaf o gyfarfodydd y Cyngor o bell yn 2021/22. Mae cyfarfodydd wedi parhau'n agored i'r cyhoedd, ac eithrio pan drafodir gwybodaeth gyfrinachol neu a eithrir, yn unol â'r gyfraith. Parhaodd cyfarfodydd Llawn y Cyngor i gynnwys cyfle ar gyfer cwestiynau gan y cyhoedd ac mae Pwyllgorau Craffu'r Cyngor wedi gwahodd cyfraniadau gan randdeiliaid yn rhithiol at eu rhaglen graffu, trwy ymchwil ac ymarferion ymgynghori a chyfle uniongyrchol i drafod â'r Pwyllgorau. Yn ystod 2021/22, parhaodd nifer y cyfarfodydd Cyngor a Phwyllgor a we-ddarlledwyd i gynyddu gan 50% pellach gan adeiladu ar gynnydd tebyg o'r flwyddyn flaenorol a oedd yn adlewyrchu'r calendr llawn o fusnes yn 2021/22, o'i gymharu â 2020/21. Dros y flwyddyn ddiwethaf, bu cynnydd o 54% yn nifer y cyfarfodydd craffu ar y we ac a oedd ar gael i'r cyhoedd eu gwylio. Bu cynnydd sylweddol yn ein ffigurau gwylio (dros 40%) a chynyddodd yr amser gwylio cyfartalog 38% o'i gymharu â'r llynedd. Yn ogystal cafwyd 53 o gyfraniadau llafar ac 17 o gyfraniadau ysgrifenedig gan y Pwyllgorau Craffu gan gyfranwyr allanol, yn ogystal â 322 o ymatebion i ymchwil sylfaenol.
- **Gwasanaethau Cwsmeriaid, Cwynion a Chanmoliaeth:** Mae gwasanaeth cwsmeriaid yn rhan sylweddol o'r ffordd y mae'r Cyngor yn darparu cymorth a chyngor, a chydnabyddir bod sawl ffordd y gellir gwella effeithiolrwydd, boed hynny gyda chwsmeriaid mewnol neu allanol. O ganlyniad, mae hyfforddiant gwasanaeth cwsmeriaid yn cael ei ddarparu ar draws y Cyngor, wedi'i deilwra ar gyfer staff sy'n berthnasol i'w swyddi a'u cyfrifoldebau. Daeth 245 aelod o staff i'r hyfforddiant 'Cyflwyniad i Wasanaethau Cwsmeriaid' yn 2021/22, tra cymerodd 54 aelod o staff ran yn yr hyfforddiant 'Cyflawni Gwasanaeth Cwsmeriaid Gwych'.

  Cofnodwyd 3,633 o gwynion (corfforaethol) yn ystod 2021/22. Mae hyn yn gynnydd o 43.2% o'r flwyddyn flaenorol, pan gofnodwyd 2,537 o gwynion. Cofnoldwyd 1,487 o gwynion yn ystod 2021/22. Mae hyn yn ostyngiad o 22.2% o'r flwyddyn flaenorol, pan gofnodwyd 1,912 o gwynion. Yn ei llythyr blynyddol at y Cyngor, mae'r Ombwdsmon wedi dweud ei bod hi'n debygol bod cwynion am "wasanaethau cyhoeddus yn gyffredinol, wedi cael eu cuddio yn ystod y pandemig, ac rydym nawr yn dechrau gweld yr effaith 'adlam' ddisgwyliedig".

## Heriau a Risgiau

- **Gwydnwch Ariannol:** Mae pandemig Covid-19 a'r mesurau iechyd cyhoeddus cysylltiedig wedi arwain at oblygiadau ariannol sylweddol i'r Cyngor, o ran costau ychwanegol a cholli incwm. Yn ystod 2020/21, rhoddodd Llywodraeth Cymru Gronfa Galedi Covid-19 ar waith i gefnogi Awdurdodau Lleol i reoli costau ychwanegol a cholli incwm yn uniongyrchol yn sgil y pandemig. Cafodd y Gronfa ei estyn tan ddiwedd blwyddyn ariannol 2021/22 ond ni fydd yn ei lle yn ystod 2022/23. Mae hyn yn risg ariannol sylweddol i'r Cyngor. Mae'r materion sy'n cael eu cefnogi gan y gronfa yn cynnwys, ymhlith eraill, gaffael cyfarpar diogelu, newidiadau gweithredol i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu'n ddiogel, a chymorth ariannol i ddarparwyr gofal. Mae'n debygol y bydd y materion hyn yn parhau ac mae disgwyl y bydd heriau cynffon hirach ynghlwm wrthynt hefyd, a fydd yn arbennig o ddifrifol mewn rhai gwasanaethau. Felly mae'n hanfodol bod cynlluniau ar gyfer y gyllideb yn ddigon cadarn i sicrhau bod y Cyngor yn gallu parhau i ymdopi â phwysau ariannol sy'n gysylltiedig â Covid-19 heb droi at gymorth allanol.

  Mae sefyllfa Cynllunio Ariannol Tymor Canolig y Cyngor yn parhau i fod yn heriol o ystyried pwysau'r galw ar wasanaethau, y gofynion sylfaenol costau tebygol a'r lefelau o argaeledd adnoddau a ragwelir yn y dyfodol. Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu dyraniadau dangosol ar gyfer 2023/24 a 2024/25 sy'n cael eu croesawu, ond o ystyried natur Cymru gyfan y rhagamcanion hyn ac ansicrwydd y sefyllfa yn y sector cyhoeddus yn y dyfodol ar ôl y pandemig, mae angen dull gofalus.

  Wrth symud ymlaen, mae angen sicrhau bod pwysau'r galw yn parhau i gael eu codi'n gynnar, yn ogystal â lle nad yw'r galw am wasanaethau yn dychwelyd i'r lefelau disgwyliedig, yn enwedig o ran gwasanaethau sy'n creu incwm. Bydd angen i gyfarwyddiaethau ddarparu mesurau lliniaru effeithiol yn erbyn pwysau sy'n codi. Mae hynny'n cynnwys newid darpariaeth gwasanaethau wrth aros o fewn paramedrau cyllideb y cytunwyd arnynt.

  Bydd angen canolbwyntio'n drylwyr hefyd ar y sefyllfa o ran cyfalaf – mae pwysau sylweddol ar hyn o bryd oherwydd chwyddiant cynyddol a chynnydd yng nghostau cadwyni cyflenwi, y galw am fuddsoddiad i gynnal cyflwr, a rhagdybiaethau derbyniadau cyfalaf. Bydd angen disgyblaeth gan gyfarwyddiaethau i sicrhau bod adnoddau, sgiliau, a gallu ar gael i gyflawni'r rhaglen fuddsoddi ar amser ac i fodloni dyraniadau cyllideb presennol.

- **Ymateb i ôl-groniad cynnal a chadw'r Ystâd Weithredol:** Mae'r Cyngor yn cydnabod pwysigrwydd ei sylfaen asedau yn llawn i gefnogi darparu gwasanaethau'n effeithiol, yn enwedig o ystyried y newid i weithio hybrid ac ardaloedd lleol.

  Cydnabyddir heriau hirsefydlog, yn enwedig o ran mynd i'r afael ag ôl-groniad cynnal a chadw o fewn yr ystâd weithredol. Yn ogystal â chynnwys mannau swyddfa craidd – fel Neuadd y Ddinas a Neuadd y Sir – mae hefyd yn cynnwys lleoliadau ac adeiladau mwyaf hanesyddol y ddinas. Yn gysylltiedig â'r ôl-groniad cynnal a chadw mae'r risg na fydd archwiliadau adeiladu statudol – yn ogystal â'r gwaith adferol sy'n deillio o arolygiadau – yn cael eu cwblhau, y mae'n ofynnol iddynt gynnal safleoedd mewn cyflwr diogel sy'n cydymffurfio'n gyfreithiol.

  Mae Strategaeth Eiddo Corfforaethol newydd 2021-26, 'Symlach a Gwyrddach', yn nodi ymateb strategol, gyda chwblhau arolygon rhwymedigaeth statudol a gwaith adferol sy'n cynrychioli blaenoriaethau cyflawni. Canolbwyntir hefyd ar foderneiddio'r ystâd trwy ofynion cynnal a chadw arfaethedig ac ataliol,

gan sicrhau bod hyn yn cyd-fynd â blaenoriaethau cysylltiedig ag ystadau gweithio hybrid a strategaeth Caerdydd Un Blaned.
Wrth i'r Strategaeth Eiddo Corfforaethol newydd gael ei datblygu, cytunwyd ar gynllun blwyddyn byrdymor ar gyfer 2021/22, a oedd yn cynnwys gostyngiad ôl-groniad targed o £2 miliwn, er mai dim ond £1.63 miliwn a gafwyd yn ei erbyn. Yn 2021/22, pennodd y Cyngor hefyd darged o £300,000 ar gyfer lleihau cyfanswm cost rhedeg adeiladau gweithredol gwag a chafwyd £257,098 erbyn diwedd y flwyddyn. Achoswyd y ddau ddiffyg hyn yn rhannol oherwydd aflonyddwch parhaus ynglŷn â Covid yn ystod 2021/22.

- **Absenoldeb Salwch:** Er bod gwelliannau sylweddol i'w gweld yn lefelau absenoldeb salwch trwy gydol 2020/21, cynyddodd absenoldebau oherwydd salwch yn 2021/22, gan gyfateb i lacio'r cyfyngiadau pandemig. Dangosodd y canlyniad diwedd blwyddyn fod 12.65 o ddiwrnodau gwaith/shifftiau – fesul gweithiwr awdurdod lleol cyfwerth ag amser llawn (CALl) - wedi'u colli yn 2021/22 oherwydd absenoldeb trwy salwch, yn erbyn targed o 9.5. Mae llawer o'r cynnydd hwn yn ymwneud â nifer mawr o staff sy'n absennol oherwydd Covid-19, gyda'r canlyniad yn gostwng i 9.84 o ddiwrnodau CALl os yw achosion o salwch Covid yn cael eu diystyru, dim ond ychydig yn uwch na'r targed ac yn sylweddol lai na'r alldro yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Dros y gaeaf i ddod, ac o bosibl y tu hwnt, mae Covid yn debygol o gyfrannu at absenoldeb oherwydd salwch ar ben tueddiadau hanesyddol a allai, yn ei dro, roi pwysau staffio ar wasanaethau allweddol.

  Nid yw absenoldeb salwch yn unffurf ar draws y Cyngor chwaith, gyda salwch yn arbennig o uchel yng Ngwasanaethau Strydlun a'r Gwasanaethau Oedolion. Bydd dull wedi'i dargedu'n parhau i gael ei ddefnyddio, gyda chamau rheoli i wella perfformiad. Yn ogystal, mae ffocws yn cael ei roi ar leihau absenoldeb salwch hirdymor. O gyfanswm y diwrnodau gwaith/shifftiau ar draws y Cyngor a gollwyd i salwch yn 2021/22, roedd 62% o ganlyniad i salwch hirdymor, gyda 38% yn ganlyniad i salwch byrdymor. Mae cymorth corfforaethol ychwanegol yn cael ei ddarparu ar gyfer achosion cymhleth, gyda gwaith yn parhau i hyrwyddo mecanweithiau cymorth, ar gyfer staff a rheolwyr.

- **Cynllunio'r Gweithlu:** Mae llywodraeth leol yn wynebu nifer o heriau yn y gweithlu o ran sicrhau digon o staff ac adnoddau, sgiliau priodol a recriwtio a chadw staff, yn enwedig o ystyried lefel y gystadleuaeth ar gyfer rhai proffesiynau. Yn fwy diweddar, mae materion recriwtio a chadw staff wedi cael eu cydnabod yn broblem, nid yn unig mewn llywodraeth leol, ond ar draws yr economi. Er mwyn sicrhau dull mwy cynhwysfawr o gynllunio'r gweithlu, mae'r broses yn cael ei datblygu ymhellach er mwyn cyd-fynd â fframwaith polisi a pherfformiad y Cyngor. Bydd hyn yn galluogi proses fwy strategol ac integredig i ddenu talent yn y dyfodol, gan gynnwys cynyddu cyfleoedd prentisiaid a hyfforddeion a lleoliadau profiad gwaith, gwella amrywiaeth y gweithlu a darparu gweithlu sy'n addas ar gyfer gofynion y sefydliad yn y dyfodol.

- **Twyll a Llwgrwobrwyo:** Wrth i bwysau gynyddu ar adnoddau, mae perygl y gallai twyll, amhriodoldeb ariannol a/neu arferion busnes amhriodol gynyddu. Er mwyn rheoli'r risg hon, mae'r Cyngor yn aml yn cyfleu dull dim goddefgarwch tuag at dwyll, llwgrwobrwyo a llygredd, yn ogystal â chynnal adolygiad rheolaidd o bolisïau a gweithdrefnau perthnasol. Wrth symud ymlaen, bydd adnewyddiad o'r Strategaeth Atal Twyll a Llygredd yn cael ei wneud, gyda Chynllun Gweithredu Atal Twyll diwygiedig yn cael ei gyhoeddi i atgyfnerthu a sbarduno safiad y Cyngor, wedi'i gefnogi gan gyrsiau ymwybyddiaeth a hyfforddiant.

- **Llywodraethu Gwybodaeth:** Mae'r wybodaeth sy'n cael ei thrin yn amhriodol yn gwneud y Cygnor yn agored i ymyrraeth a chosbau ariannol a roddwyd gan y Comisiynydd Gwybodaeth. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth a gedwir gan ysgolion Caerdydd. Er mwyn rheoli'r risg hon, mae e-ddysgu diogelu data gorfodol ar gael i staff ei gwblhau, ac mae Grŵp Hyrwyddwyr Llywodraethu Gwybodaeth wedi'i sefydlu. Yn ogystal, datblygwyd Model Aeddfedrwydd Llywodraethu Gwybodaeth i fonitro risgiau.
- **Seiberddiogelwch:** Gyda mwy o wasanaethau'r Cyngor ar gael yn ddigidol a'r newid i weithio hybrid, yn ogystal â mwy o gydweithio ac integreiddio gyda sefydliadau partner, mae adolygu ac atgyfnerthu trefniadau diogelwch seiber yn flaenoriaeth allweddol i'r Cyngor. Gall digwyddiad diogelwch seiber arwain at golli data, yn ogystal â tharfu ar weithrediad gwasanaethau'r Cyngor. Felly, mae'r Cyngor yn adolygu, yn adnewyddu ac yn atgyfnerthu ei ddull o ymdrin â seiberddiogelwch yn barhaus, gyda risgiau'n cael eu cofnodi a chamau gwella'n cael eu nodi.
- **Boddhad Dinasyddion:** Yn 2021 bu gostyngiad yn lefel y boddhad ag ansawdd y gwasanaethau cyhoeddus a'r gwasanaethau y mae'r Cyngor yn eu darparu. Bu gostyngiad yn lefel y boddhad â gwasanaethau'r Cyngor i 47.3%, i lawr 20.1 pwynt canran o 67.4% yn 2020. Mae'r cwymp hwn mewn boddhad yn adlewyrchu tuedd genedlaethol, gydagArolwg Cartrefi Glasgow 2021, er enghraifft, hefyd yn dangos gostyngiad yn lefelau boddhad (i lawr o 67% yn 2019 i 48% yn 2021). Yn yr un modd, yn arolwg y Gymdeithas Llywodraeth Leol, 'Arolwg barn ar foddhad preswylwyr â Chynghorau', nodwyd bod lefelau boddhad wedi gostwng deg pwynt canran i 56%, y ffigur isaf a gofnodwyd yn hanes yr arolwg (sy'n dyddio'n ôl i fis Medi 2012).

## Edrych Ymlaen: Meysydd Ffocws

### Gwydnwch ariannol:

Mae diwedd Cymorth Caledi Covid Llywodraeth Cymru yn risg ariannol sylweddol i'r Cyngor y bydd angen rheolaeth weithredol i'w liniaru, yn benodol ar gyfer y llu o wasanaethau sy'n creu incwm sy'n wynebu aflonyddwch parhaus a galw cynyddol a mwy cymhleth oherwydd effaith y pandemig. Yn y tymor canolig, er gwaethaf setliadau dangosol mwy hael gan Lywodraeth Cymru, mae'r galw cynyddol mewn gwasanaethau allweddol yn golygu bod rhaid i'r Cyngor barhau i gynllunio ar gyfer bwlch sylweddol yn y gyllideb yn y tymor canolig. Bydd angen ffocws clir hefyd ar y sefyllfa gyfalaf mewn ymateb i gostau cynyddol er mwyn sicrhau bod y rhaglen fuddsoddi yn cael ei darparu ar amser ac i gyd-fynd â dyraniadau cyllideb presennol.

### Cyflawni rhaglen gynhwysfawr o adfer ac adnewyddu sefydliadol

Er mwyn cadw'r cyfleoedd a wireddwyd yn ystod y pandemig, bydd y Cyngor yn datblygu rhaglen o adfer ac adnewyddu sefydliadol. Fel rhan o'r gwaith hwn, mae'r Cyngor yn gweithredu model gweithio hybrid, gyda chymorth buddsoddiad mewn seilwaith digidol, gwasanaethau a sgiliau.

## Adeiladu ar ein hagenda ddigidol, ymgorffori technoleg wrth ddarparu gwasanaethau a manteisio ar ddata i ysgogi perfformiad

Bydd darparu mynediad i ystod well o wasanaethau ar-lein yn parhau i fod yn flaenoriaeth ar ôl y pandemig, wrth i'r Cyngor barhau i gyflymu ei agenda ddigidol, yn ogystal â mwy o ffocws ar ddefnyddio awtomeiddio i ddarparu effeithlonrwydd. Bydd y Cyngor hefyd yn parhau â'r gwaith o wella'r broses o gasglu, cyflwyno, a dadansoddi data ar draws y system gwasanaethau cyhoeddus er mwyn llywio penderfyniadau.

## Darparu adeiladau symlach a gwyrddach i'r Cyngor

Bydd dull y Cyngor o reoli ei ystâd strategol yn parhau i addasu i gefnogi darparu gwasanaethau, yn enwedig wrth ymateb i'r newidiadau a ddaw yn sgil gweithio hybrid a'r gofyniad i ddatgarboneiddio'r ystâd erbyn 2030. Bydd cynllun ar gyfer gofynion swyddfa graidd y Cyngor yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet yn 2022/23, gan ystyried arolygon cyflwr diweddar a wnaed am Neuadd y Sir a Neuadd y Ddinas.

## Cefnogi gweithlu medrus a chynhyrchiol iawn gyda lles staff wrth ei wraidd

Bydd gwaith y Cyngor ar ddatblygu sefydliadol yn rhoi ffocws ar ymgysylltu gwell â staff, gan gydnabod pwysigrwydd gweithlu cysylltiedig wrth i'r Cyngor bontio i fodel gweithio hybrid. Bydd ffocws gwell hefyd yn cael ei roi ar gynllunio'r gweithlu ar draws yr holl wasanaethau, gan ymateb i'r farchnad lafur a heriau recriwtio a chadw, yn enwedig ym maes gofal cymdeithasol, gwastraff a glanhau strydoedd a gwasanaethau rheng flaen eraill.

Mae lefelau absenoldeb oherwydd salwch yn parhau'n rhy uchel mewn nifer bach o wasanaethau. Bydd dull wedi'i dargedu yn parhau i gael ei ddefnyddio i wella perfformiad, gan gynnwys ffocws parhaus ar leihau absenoldeb salwch hirdymor trwy reoli achosion yn effeithiol. Bydd effaith barhaus Covid-19 ar gyfraddau salwch, yn enwedig mewn gwasanaethau rheng flaen, hefyd yn gofyn am fonitro gofalus a rheoli gweithredol.

## Defnyddio pŵer pwrs y wlad i gefnogi adferiad y ddinas

Bydd y Cyngor yn parhau i fanteisio i'r eithaf ar wariant i greu cyfleoedd cyflogaeth lleol wrth hyrwyddo gwelliannau cymdeithasol ac amgylcheddol. Yn benodol, bydd angen i'r Cyngor sicrhau bod ei ddull caffael – gan gynnwys ei Strategaeth Gaffael a'i Gynllun Cyflawni Preifat drafft – yn cyd-fynd â deddfwriaeth newydd Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru.

## Sicrhau bod y Cyngor yn defnyddio ffordd well o wrando ar y ddinas mae'n ei gwasanaethu a siarad â hi

Bydd Strategaeth Ymgysylltu Cymunedol newydd yn cael ei datblygu a'i chyhoeddi yn 2022, yn unol â gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, gan ganolbwyntio ar ymgysylltu a chynnwys grwpiau anodd eu cyrraedd wrth wneud penderfyniadau. Bydd Strategaeth Gwasanaeth Cwsmer newydd yn cael ei lansio a'i gwreiddio yn 2022/23, gan weithredu fel llais ar gyfer cwsmeriaid sy'n cysylltu â'r Cyngor, yn ogystal â modiwl hyfforddi ar-lein.

# Amcan Lles 8: Rheoli'r pandemig Covid-19

## Ein blaenoriaethau ar gyfer 2021/22 oedd:

- **Cefnogi'r gwaith o ddarparu rhaglen brechu torfol**
- **Parhau i ddarparu Gwasanaeth Profi, Olrhain, Diogelu effeithiol**
- **Ymgorffori arferion iechyd a diogelwch cadarn ar draws holl adeiladau'r Cyngor ac wrth ddarparu gwasanaethau**
- **Sicrhau bod Cyfarpar Diogelu Personol (PPE) priodol ar gael i ddiogelu staff, defnyddwyr gwasanaeth a phreswylwyr**
- **Gorfodi cydymffurfiaeth yn effeithiol trwy'r Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir**

## Asesiad Strategol

Dros y ddwy flynedd diwethaf, mae'r Cyngor a'i bartneriaid gwasanaeth cyhoeddus wedi arwain yr ymateb i'r pandemig, gan atal lledaeniad y feirws wrth sicrhau bod gwasanaethau rheng flaen allweddol yn parhau i gael eu darparu a diogelu pobl fwyaf agored i niwed y ddinas. Mae trefniadau cyflawni ledled Caerdydd wedi'u nodweddu gan lefel ddigynsail o gydweithio, gyda'r Cyngor yn cynnull clymblaid o bartneriaid o'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector i ddarparu ymateb ledled y ddinas i'r argyfwng. Mae llwyddiannau allweddol yn cynnwys cyflwyno'r rhaglen frechu, sefydlu a darparu Gwasanaeth Profi, Olrhain, Diogelu a'r trefniadau ar y cyd rhwng y Cyngor, Bwrdd Iechyd y Brifysgol, Iechyd y Cyhoedd a gwasanaethau Iechyd yr Amgylchedd i ymateb yn gyflym ac yn effeithiol i unrhyw glystyrau, a sicrhau bod busnesau a gwasanaethau'r ddinas yn gweithredu'n ddiogel.

Oherwydd llwyddiant y rhaglen frechu, mae cwrs y pandemig wedi newid, a'r cysylltiad rhwng y feirws, salwch difrifol, mynd i'r ysbyty a marwolaeth wedi'i wanhau'n sylweddol. Mae'r sefyllfa bolisi felly, fel sy'n wir yn genedlaethol, wedi datblygu y tu hwnt i ymateb argyfwng tuag at reoli Covid-19 yn barhaus fel clefyd y gellir ei atal gan frechlyn. Wrth edrych i'r dyfodol, bydd angen i'r Cyngor a'i bartneriaid fod yn barod i ymateb i unrhyw amrywiolion newydd sy'n destun pryder sy'n arwain at newidiadau mewn polisi cenedlaethol gan gynnwys, os oes angen, ailsefydlu rhai o'r trefniadau ymateb llywodraethu ar gyfer Covid-19, a pharhau i weithio mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd y Brifysgol i hyrwyddo'r nifer sy'n derbyn brechiadau, yn enwedig mewn grwpiau lle mae'r niferoedd sy'n derbyn brechiadau'n isel.

## Llwyddiannau Allweddol

### Cefnogi'r gwaith o ddarparu rhaglen brechu torfol

- **Darparu'r Rhaglen Brechu Torfol trwy:** Ar ôl cefnogi sefydlu ac ehangu'r Rhaglen Brechu Torfol yn gyflym, mae'r Cyngor wedi parhau i ddarparu cymorth logistaidd mewn canolfannau brechu. Er nad yw Canolfan Brechu Torfol y Bae yn weithredol mwyach, mae les Canolfannau Brechu Torfol y Sblot wedi cael ei hestyn. Y llynedd, derbyniodd Cynghorwyr ddiweddariadau dyddiol am allbynnau'r Rhaglen Brechu Torfol, gyda dadansoddiad manwl o'r nifer sy'n derbyn brechiad fesul oedran a lleoliad.
- **Cefnogi Pobl i Dderbyn Brechiadau mewn Cymunedau Ethnig Lleiafrifol:** Gan gydnabod effaith anghymesur Covid-19 ar gymunedau ethnig lleiafrifol a phryderon ynghylch nifer isel y bobl oedd yn derbyn y brechlyn, datblygwyd cynllun gwaith pwrpasol. Roedd y gwaith yn cynnwys ymgysylltu dwys â chymunedau a grwpiau demograffig lle roedd llai o bobl yn derbyn brechiadau, a chafodd taflenni – ynglŷn â brechiadau Covid-19 mewn gwahanol ieithoedd cymunedol – eu cynhyrchu a'u lledaenu. Wrth symud ymlaen, bydd y gwaith hwn yn parhau, gan ganolbwyntio'n ehangach ar flaenoriaethau tymor hwy, megis gwella canlyniadau iechyd ar gyfer grwpiau lleiafrifoedd ethnig.

### Parhau i ddarparu Gwasanaeth Profi, Olrhain, Diogelu effeithiol

- **Darparu Gwasanaeth Profi, Olrhain, Diogelu Effeithiol:** Yng Nghaerdydd, adeiladwyd Gwasanaeth Profi, Olrhain, Diogelu (POD) y ddinas o'r gwaelod i fyny, gan ddod ag arbenigedd gwasanaethau cyhoeddus lleol presennol ynghyd i greu gwasanaeth newydd gyda'r rôl hanfodol o olrhain y feirws a chyfyngu ar ei ledaeniad. Roedd Gwasanaeth POD Caerdydd mor llwyddiannus fel y gofynnodd Llywodraeth Cymru i Gyngor Caerdydd fod y corff cynnal ar gyfer Tîm POD Cenedlaethol, gan ddarparu cymorth "gorlif" i ranbarthau ledled Cymru pan fo'r galw'n fwy na'r capasiti.
- **Sicrhau Gwasanaethau Effeithiol a Chynnal Safonau Uchel:** I sicrhau bod modd cynnal safonau uchel ledled Gwasanaeth Profi, Olrhain, Diogelu Caerdydd a'r Fro, sefydlwyd Proses Datblygu Ansawdd i fonitro pob tîm, gan gynnwys timau arbenigol. Cafodd y broses ei chyflwyno'n llawn ar draws Swyddogion Olrhain Cysylltiadau ac Ymgynghorwyr Cysylltiadau, gyda'r cysyniad a'r dyluniad a gyflwynwyd yn y Bwrdd Olrhain Cysylltiadau Cenedlaethol fel dull ymarfer gorau.

### Gwreiddio arferion iechyd a diogelwch cadarn ar draws holl adeiladau'r Cyngor ac wrth ddarparu gwasanaethau a sicrhau bod cyfarpar diogelu personol ar gael i amddiffyn staff, defnyddwyr gwasanaeth a thrigolion

- **Iechyd, Diogelwch a Lles Staff a Defnyddwyr Gwasanaeth:** Mae iechyd, diogelwch a lles staff a defnyddwyr gwasanaeth wedi bod yn ystyriaeth flaenllaw'r Cyngor trwy gydol y pandemig. Trwy gydol 2021/22, cafodd Polisi Diogel rhag Covid-19 y Cyngor ei ddiweddaru'n barhaus, yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru sy'n fythol datblygu, ac mae'n parhau i gael ei adolygu'n barhaus. Bu'r Tîm Iechyd a Diogelwch hefyd yn monitro'r Asesiad Risg Covid-19 Corfforaethol yn barhaus, gan sicrhau ei fod yn adlewyrchu canllawiau Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru. Yn ogystal bu'r tîm yn cefnogi gwasanaethau i ddiweddaru eu Hasesiadau Risg Covid-19 a oedd yn benodol i'w gwasanaeth, gan gyfathrebu'n rheolaidd â Rheolwyr Gweithrediadol. Er mwyn darparu amgylchedd gweithio diogel i staff a diogelu preswylwyr a defnyddwyr gwasanaeth, sefydlwyd trefniadau effeithiol ar gyfer profi'r gweithlu ym mis Mai 2021. Cefnogwyd hyn trwy systemau archebu, darparu a chyflenwi Profion Llif Unffordd cadarn a rhaglen i gyfathrebu'n glir â staff.

- **Sicrhau bod cyfarpar diogelu personol priodol ar gael:** Sicrhaodd trefniadau effeithiol argaeledd cyfarpar diogelu personol trwy gydol 2021/22, gan ganolbwyntio ar wasanaethau hanfodol. Fel rhan o'r dull hwn, crëwyd Offeryn Asesu Cydymffurfio â'r Galw am Gyfarpar Diogelu Personol ar gyfer Gofal Cymdeithasol. Mae'r offeryn yn adolygu cyflenwad cyfarpar diogelu personol i leoliadau dros wyth wythnos, wedi'i asesu yn erbyn amcangyfrifon modelu ar gyfer y defnydd diogel o gyfarpar diogelu personol. Yn dilyn hynny, sefydlwyd gweithdrefnau i sicrhau bod unrhyw feysydd sy'n peri pryder yn cael sylw, gyda systemau uwchgyfeirio clir ar waith. Defnyddiwyd y dadansoddiad hwn i lywio proses ddeinamig o archebu stoc trwy Wasanaethau a Rennir y GIG a gwnaed ymarfer corff hefyd i nodi anghenion cyfarpar diogelu personol rhagamcanol nad ydynt yn ymwneud â Gofal Cymdeithasol yn y flwyddyn ariannol newydd (2022/23).

### Gorfodi cydymffurfiaeth yn effeithiol trwy'r Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir

- **Cydymffurfio â Rheoliadau Covid-19:** Trwy gydol 2021/22, gweithiodd y Tîm Gorfodi Covid i sicrhau cydymffurfiaeth â'r holl reoliadau Covid-19 – sy'n dod o dan awdurdod y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir – ledled Caerdydd. Roedd hyn yn cynnwys cyngor manwl a roddwyd i fusnesau i'w cefnogi i weithredu'n ddiogel, yn ogystal â gwirio teithwyr oedd yn cyrraedd fel mater o drefn.

## Heriau a Risgiau

- **Amrywiolion sy'n peri pryder:** Er i gyfyngiadau Covid-19 gael eu dileu, mae monitro amrywiolion newydd yn parhau i fod yn hollbwysig. Bydd angen i'r Cyngor a'i bartneriaid fod yn barod i ymateb i unrhyw newidiadau mewn polisi cenedlaethol i gadw dinasyddion a staff yn ddiogel, yn enwedig pobl fwyaf agored i niwed y ddinas, gan gynnwys ailsefydlu rhai o'r trefniadau ymateb llywodraethu ar gyfer Covid-19.
- **Brechu:** Mae brechu yn parhau i fod yn rhan hanfodol o'r ymateb i Covid-19, ac felly mae'n hanfodol bod y Rhaglen Frechu yn parhau i gael ei hyrwyddo fel rhan o broses barhaus i atal salwch. Bydd hyn yn gofyn am ffocws penodol ar fynd i'r afael ag anghydraddoldebau o ran y rhai sy'n manteisio ar frechiadau ar draws pob grŵp poblogaeth.
- **Profi, Olrhain, Diogelu:** Wedi i'r rhan fwyaf o gyfyngiadau Covid-19 gael eu dileu ym mis Mawrth 2022, yn ogystal â chyhoeddiad Llywodraeth Cymru o'r cynllun hirdymor i fyw gyda Covid-19 yn ddiogel, mae'r Gwasanaeth Profi, Olrhain, Diogelu wedi cael ei leihau. Mae'r gwasanaeth derbyn galwadau ffôn wedi cau, er bod sianeli digidol yn dal ar agor, ac mae gwasanaeth ffonio'n ôl ar gael. Mae hyn yn sicrhau lefel o barhad gwasanaeth trwy sianeli digidol wrth alluogi lleihau staff, sydd wedi cael cymorth i ddod o hyd i waith arall. Wrth symud ymlaen, bydd angen strwythur newydd i'r gwasanaeth fel ei fod yn parhau i fod yn gymesur â'r risg barhaus ac yn galluogi adnoddau i gael eu hailgyfeirio'n effeithiol pe bai angen ailsefydlu'r gwasanaeth ar raddfa eang.
- **Covid Hir:** Mae Covid hir yn disgrifio presenoldeb symptomau bedair wythnos neu fwy ar ôl yr haint Covid-19 gwreiddiol nad oes modd eu hesbonio gan achos arall. Ar hyn o bryd nid oes data lleol am ba mor gyffredin yw Covid hir a'r posibilrwydd o gael effaith wahaniaethol o fewn gwahanol grwpiau o fewn y boblogaeth. Felly, bydd deall pa mor gyffredin yw Covid hir a beth yw ei effaith yn flaenoriaeth wrth symud ymlaen – gan gynnwys ei effeithiau ar y Cyngor a gwasanaethau partner.

## Edrych Ymlaen: Meysydd Ffocws

**Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu map ffordd ar gyfer llacio cyfyngiadau Covid-19 a'r broses hirdymor lle mae Covid-19 yn newid o fod yn bandemig i endemig. Symud ymlaen:**

- Bydd y Rhaglen Brechu Torfol yn parhau, gan annog mwy o bobl i dderbyn y brechlyn. Bydd elfen allweddol o'r dull hwn yn cynnwys ymgysylltu parhaus â chymunedau a grwpiau demograffig lle mae llai o bobl yn derbyn y brechlynnau.
- Gan fod y Gwasanaeth Profi, Olrhain, Diogelu wedi'i leihau, bydd angen sefydlu strwythur newydd sy'n gymesur â'r risg parhaus.
- Bydd holl ganllawiau Iechyd a Diogelwch Covid-19 yn parhau i gael eu hadolygu, yn unol â'r sefyllfa ddiweddaraf.
- Ni fydd yn ofynnol bellach i wasanaethau gynnal Asesiad Risg Covid-19 sy'n benodol i'r gwasanaeth. Yn hytrach, bydd yr Asesiad Risg Covid-19 Corfforaethol yn parhau i gael ei adolygu, yn unol â chyhoeddiadau diweddar, a bydd yn cipio'r holl fesurau rheoli.
- Bydd cyfarpar diogelu personol yn parhau i gael ei ddarparu i'r holl staff perthnasol yn 2022/23, ac mae'r Offeryn Asesu Cydymffurfio â'r Galw yn cael ei ddefnyddio ar gyfer Gofal Cymdeithasol.



CARDIFF
CAERDYDD